# Caffael diwylliant

## Pam fod angen teuluoedd?

### Cyflwyniad

#### Bwledi

- Mae gwahaniaeth mawr rhwng y darlun o deulu traddodiadol a'r math o deuluoedd sy'n bodoli ym Mhrydain heddiw.
- Mae amrywiaeth eang o deuluoedd ym Mhrydain heddiw.
- Mae'r teulu yn bwysig i gymdeithasoli plant.

#### Testun

Mae'r rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain heddiw wedi cael eu geni a'u magu mewn teuluoedd - a bydd y rhan fwyaf yn cael plant eu hunain rhyw ddydd ac yn ffurfio teuluoedd eu hunain.

I'r rhan fwyaf ohonom mae'n ymddangos bod y teulu yn ran normal, cyfarwydd a naturiol o fywyd bob dydd. Mae'r grêd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan y delweddau o'r teulu a geir yn y cyfryngau - hysbysebion, operâu sebon a chomedïau sy'n troi o gwmpas teuluoedd.

Caiff y teulu ei weld fel conglfaen cymdeithas ac uned hanfodol i gynnal trefn cymdeithasol. Hyd at y 60'au prin oedd Cymdeithasegwyr yn cwestiynau ei bwysigrwydd ond yn fwy diweddar mae ymchwil yn cwestiynu'r realiti sydd y tu ôl i ddelweddau bob dydd o'r 'teulu'.

Mae ymchwil cymdeithasegol yn dangos bod teuluoedd yn amrywio'n fawr rhwng diwylliannau, neu hyd yn oed rhwng grwpiau o fewn ein cymdeithas ni. Mae natur a strwythur teuluoedd ym Mhrydain heddiw wedi newid llawer yn hanesyddol ac yn dal i newid yn gyflym. Felly mae'n anodd, os nad amhosib cael un diffiniad sy'n addas ar gyfer yr holl amrywiadau o deuluoedd.

Archwilir y newidiadau yn fanwl yn yr unedau nesaf ond i grynhoi'r prif newidiadau:

- Mae yna fwy o bobl yn cael ysgariad.
- Mae llai o bobl yn dewis priodi.
- Mae llawer o gyplau yn byw gyda'i gilydd ac yn cael plant y tu allan i briodas.
- Rydym wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o deuluoedd un-rhiant.
- Rydym wedi gweld cynnyddd yn y nifer o aelwydydd un-aelod.
- Mae'n ymddangos bod y rhaniad traddodiadol o rôlau rhwng gwyr a gwragedd yn newid.

Edrychir ar y teulu yn aml gan y rhai sydd ddim yn gymdeithasegwyr fel un o'r ychydig sefydliadau 'naturiol' mewn cymdeithas. Mae pobl yn aml yn mynegi pryder am ei 'gyflwr'/'iechyd', gan ystyried bod teuluoedd 'iach' yn beth da i gymdeithas. Maent yn teimlo yn weddol hyderus eu bod yn gwybod beth ydi 'teulu iach'. Yr hyn a ystyrir yn 'ddelfrydol' yw teulu sy'n cynnwys dau riant o wahanol ryw ac un neu fwy o blant - eu

© CBAC / WJEC 2015

plant eu hunain os yn bosib. Mae'r model hwn o'r teulu delfrydol yn cael ei rannu gyda rhai cymdeithasegwyr.

Mae eraill yn tueddu i'w ddisgrifio fel y 'cereal packet family' - breuddwyd sy'n cael ei hyrwyddo gan hysbysebwyr i werthu pethau, neu ideoleg wedi ei gynllunio i gynhyrchu'r cysyniad sefydlog o gymdeithas - gan anwybyddu'r amrywiaeth o fywyd teuluol ar hyd ac ar lêd y byd ac yn ein cymdeithas ni heddiw.

Mae'n amlwg bod angen rhyw fath o rwydwaith cymdeithasol i gyflwyno plant i'w diwylliant eu hunain. Mae pobl yn cymryd amser hir i ddatblygu ac mae rhaid iddynt ddysgu diwylliant eu cymdeithas eu hunain os ydynt am fodoli / byw yn y gymdeithas honno mewn ffordd dderbyniol - yr enw ar y broses yma yw cymdeithasoli.

Mae tystiolaeth o blant 'feral' a'r rhai hynny sydd ddim yn cael eu cymdeithasoli gan eu rhieni yn dangos bod plant angen cael eu dysgu am normau e.e. dweud diolch a gwerthoedd e.e. goddefgarwch. Mae cymdeithasegwyr yn galw y broses yma yn cymdeithasoli. Mae'n ein dysgu am normau (ymddygiad disgwyliedig) a gwerthoedd sy'n gysylltiedig a rôlau arbennig neu safle mewn cymdeithas e.e. sut i fod yn ffrind neu yn riant.

Mae'r teulu yn aml yn cael ei ddisgrifio fel 'asiant cymdeithasoli cynradd'. Dyma'r sefydliad cyntaf fel arfer ble yr ydym yn dysgu agweddau o'n diwylliant. Er hynny, rydym yn parhau i ddysgu rôlau newydd, normau a gwerthoedd drwy gydol ein bywyd. Rydym hefyd yn dysgu drwy asiantaethau cymdeithasoli eilradd fel ysgol, cyfoedion, gwaith, a'r cyfryngau.

### Cwestiynau

1. Pam fod Cymdeithasegwyr yn cwestiynu delweddau traddodiadol o'r 'teulu'?
2. Beth yw plant feral? Beth maent yn dangos am y broses cymdeithasoli?
3. Pam fod y broses o gymdeithasoli yn bwysig?

### Allweddeiriau

- Diwylliant - ffordd o fyw cymdeithas; credoau, normau a gwerthoedd grŵp o bobl.
- Rolau - ffordd o ymddwyn sy'n ddisgwyliedig mewn sefyllfaoedd arbennig.
- Cymdeithasoli - proses o drosglwyddo a dysgu 'normau' a gwerthoedd.
- Cymdeithasoli cynradd - y cymdeithasoli sy'n digwydd yn yr uned deuluol.
- Cymdeithasoli eilradd - cymdeithasoli gan asiantaethau heblaw'r teulu e.e. yn yr ysgol, y gwaith.
- Plant feral - plant 'gwyllt' sydd heb eu cymdeithasoli.
- Normau - ymddygiad disgwyliedig.
- Gwerthoedd - credoau sy'n adlewyrchu yr hyn sy'n cael ei ystyried yn bwysig neu'n ddymunol.

## Diffinio'r teulu niwclear

### Bwledi

- Gelwir y strwythur teulu traddodiadol yn 'deulu niwclear'.
- Cred ffwythiannwyr mai'r teulu niwclear yw'r ffurf sylfaenol o deulu ymhob cymdeithas a'i fod yn hanfodol i gadw trefn gymdeithasol.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Testun

Mae'r teulu niwclear yn cynnwys gŵr, gwraig a'u plant. Yn aml pan mae Cymdeithasegwyr (yn enwedig hyd at y 1960'au) yn cyfeirio at y teulu maent yn golygu'r teulu niwclear. Mae'r Ffwythiannwyr traddodiadol yn gweld y fframwaith deuluol draddodiadol yn hanfodol i gynhaliaeth cymdeithas ac yn hanfodol i drosglwyddo diwylliant unrhyw grŵp cymdeithasol i'r genhedlaeth nesaf. Maent yn cynnig diffiniad eithaf cul o deulu e.e. Murdock (1949):

"The family is a social group characterised by common residence, economic co-operation and reproduction. It includes adults of both sexes, at least two of whom maintain a socially approved sexual relationship, and one or more children, own or adopted, of the sexually co-habiting adults"

Roedd Murdock yn credu bod y teulu niwclear yn 'universal social grouping' - mewn geiriau eraill, mae'r teulu niwclear yn ffurf hollgyffredinol (universal) o'r teulu a welir mewn pob math o gymdeithas ledled y byw. Dywedodd Murdock fod y teulu niwclear hwn yn rhannu'r nodweddion canlynol:

1. Teuluoedd yn byw gyda'i gilydd - yn rhannu yr un cartref.
2. Maent yn cyd-weithio ac yn rhannu adnoddau - i ryw raddau maent yn rhannu tasgau domestig ac incwm.
3. Maent yn atgenhedlu - cael plant.
4. Maent yn cynnwys oedolyn gwrywaidd a benywaidd sydd yn cael perthynas rywiol gyda'i gilydd a dderbynnir gan gymdeithas - e.e. perthynas briodasol.
5. Mae gan y cwpwl heterorywiol hwn o leiaf un plentyn - biolegol neu wedi ei fabwysiadu.

O ystyried y newidiadau diweddar i 'deuluoedd' Prydain ystyrir diffiniad Murdock bellach yn ddyddiedig a di-sail i egluro strwythur teuluoedd cyfoes Prydeinig, mae diffiniad Giddens (1993) yn fwy hyblyg ac felly defnyddiol:

"A family is a group of persons directly linked by kin connections, the adult members of which assume responsibility for caring for children."

Er bod y problemau hyn o ddiffiniad yn bodoli mae'r term 'teulu' yn parhau i gael ei ddefnyddio, gan ei fod yn sefydliad cymdeithasol mor bwysig - hyd yn oed os ydi'r fframwaith yn amrywiol, yn hyblyg a gwahanol.

## Cwestiynau

1. Eglurwch ystyr teulu niwclear.
2. Sut mae Murdock yn diffinio'r teulu?
3. Beth yw swyddogaetau'r teulu yn ôl Murdock?
4. Trafodwch y gwahaniaethau rhwng diffiniad Murdock a Giddens o'r teulu.

## Allweddeiriau

- Teulu Niwclear - teulu sy'n cynnwys dau riant ac un neu mwy o blant.

© CBAC / WJEC 2015

- Ffwythiannwyr - cymdeithasegwyr sy'n egluro sefydliadau cymdeithasol o safbwynt eu swyddogaeth i'r gymdeithas.

## Diffinio'r Teulu Estynedig

### Bwledi

- Gelwir yr estyniadau ar y teulu niwclear yn deulu estynedig.
- Gall yn estyniad fod yn fertigol neu'n llorweddol.
- Mae'r teulu polynffa yn ffurf gymharol newydd o'r teulu estynedig.
- Defnyddir y term teulu estynedig addasedig ar gyfer teuluoedd sy'n dod at ei gilydd ym aml ac sy'n cynnal ei gilydd.

### Testun

Roedd Murdock yn gweld ffurfiau teuluol eraill fel estyniad o'r teulu niwclear. Mae'r teuluoedd estynedig hyn yn cynnwys perthnasau-carennydd yn seiliedig ar 'waed' neu briodas - yn ychwanegol i'r teulu niwclear. Gall y teulu niwclear gael ei ymestyn mewn sawl ffordd. Heblaw am bartneriaid priodasol, gall teuluoedd fod yn estynedig mewn nifer o wahanol ffyrdd e.e.gall teulu estynedig tair - cenhedlaeth gynnwys nain a taid o fewn yr uned deuluol. Hefyd, fe allai yncl ac anti ( brodyr a chwiorydd y cwpl priod ) ffurfio rhan o'r uned deuluol.

Mae'r cymdeithasegwyr ffwythiannol, Bell a Vogel yn diffinio'r teulu estynedig fel -
"any grouping broader than the nuclear family which is related by descent, marriage or adoption."
Felly mae teulu estynedig yn enw ar uned sydd yn fwy na'r teulu niwclear. Gellir edrych ar y teuluoedd hyn fel estyniadau ar yr uned niwclear sylfaenol. Mae'r cysylltiad 'estynedig' yn gallu digwydd yn llorweddol neu'n fertigol.

Estyniad llorweddol:sy'n cynnwys aelodau o'r un genhedlaeth fel modrybedd ac ewythrod (brodyr a chwiorydd y gwr a'r gwraig).

Estyniad fertigol:sy'n cynnwys aelodau o'r drydedd genhedlaeth, (neiniau a theidiau) ;a/neu hen ewythrod/modrybedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd wedi bod mewn teuluoedd 4 cenhedlaeth. Mae llawer o'r teuluoedd hyn yn hir ac yn gul (Brannen 2003). Defnyddir y term teulu polynffa i'w disgrifio. Mae'r teuluoedd hyn yn ffurfio wrth i gysylltiau llorweddol leihau ac ar yr un pryd mae'r cysylltiadau fertigol yn cynyddu. Cyfeirir at ffactorau megis cyfraddau ysgaru uchel, cyfraddau ffrwythlondeb yn lleihau, teuluoedd un rhiant a cynnydd mewn disgwyliad oes i egluro y cynnydd mewn teuluoedd polynffa.

Mae ymchwil hanesyddol gan Michael Anderson yn awgrymu fod camau cynnar diwydiannaeth wedi annog datblygiad teuluoedd estynedig. Cymerodd Anderson sampl o 10% o gartrefi o ardal Preston gan ddefnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad 1851. Gwelodd fod 23% o'r cartrefi yn cynnwys teuluoedd tu allan i'r teulu niwclear. Roedd y rhan fwyaf o'r cartrefi o'r dosbarth gweithiol. Roedd hyn yn gyfnod o dlodi eang gyda chyfradd genedigaethau a marwolaethau uchel. Heb y Wladwriaeth Les roedd pobl yn tueddu i ddibynnu ar eu teuluoedd estynedig am ofal a chefnogaeth yn emosiynol ac yn ymarferol.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

Mae ymchwil Anderson yn awgrymu fod teuluoedd estynedig o fewn y dosbarth gweithiol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth mewn amseroedd anodd.

Mae tystiolaeth fod yr uniad rhwng teuluoedd estynedig o fewn y dosbarth gweithiol wedi parhau i'r ugeinfed ganrif.

Er fod nifer y teuluoedd estynedig wedi lleihau yn ystod ail hanner yr ungeinfed ganrif mae ymchwil gan gymdeithas adeiladu 'Skipton' (2004) yn rhagweld cynnydd yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r ymchwil yn rhagweld cynnydd o tua 70,000 i tua 200,000 o deuluoedd estynedig. Maent yn egluro y cynnydd yn nhermau cost uchel gofal preswyl i'r genhedlaeth hŷn, disgwyliad oes yn codi a chost uchel prynu ty am y tro cyntaf.

Mae'r term teulu estynedig addasedig yn cael ei ddefnyddio weithiau i ddisgrifio aelodau teuluol yn dod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau pwysig ac yn darparu cefnogaeth pan mae angen. Mae cysylltiadau gwell fel e-bost, ffonau symudol, ceir ac awyrennau, yn golygu bod cadw cysylltiad o bell yn haws nag o'r blaen.

Roedd ymchwil Janet Finch a Jennifer Mason yn ardal Manceinion yn dangos fod 90% o'r sampl wedi rhoi neu dderbyn cymorth ariannol gan berthynas. Roedd tua 60% wedi rhannu cartref gyda pherthynas sydd yn oedolyn ar wahân i'w rhieni ar un cyfnod o'u bywydau. Yn ychwanegol mae llawer wedi rhoi neu dderbyn cymorth ymarferol, cefnogaeth emosiynol ac wedi helpu gyda plant ar gyfer aelod o'r teulu. Er eu bod yn pwysleisio fod perthnasau teuluol wedi eu sylfaenu ar yr agwedd fod yn rhaid ei wneud, mae Finch a Mason wedi darganfod nad oedd y cymorth yn cael ei roi yn awtomatig.

Mae yna dystiolaeth fod cysylltiad rhwng perthnasau yn gostwng. Mae arolygon yn 1986 ac 1995 wedi dangos gostyngiad sylweddol. Mae'r ffigyrau yn awgrymu fod pobl yn llai tebygol i ymweld neu gael ymweliad gan deuluoedd neu ffrindiau. Mae'r pellter rhwng teuluoedd wedi cynyddu ychydig ers 1986. Yr eglurhad mwyaf tebygol yw'r cynnydd yn y gyfradd o ferched sydd yn gweithio tu allan i'r cartref ac felly a llai o amser rhydd i dreulio gyda'u teulu. Mae'r gostyngiad mwyaf mewn cyswllt wedi ei weld gyda merched sydd mewn swyddi llawn amser er enghraifft mae gostyngiad o 20% yn y niferoedd o ferched sydd yn gweld eu mam yn wythnosol.

## Cwestiynau

1. Beth yw teulu estynedig?
2. Mae teuluoedd polyn ffa yn aml yn cynnwys llawer o fenywod. Pam?
3. Pam fod niferoedd y teuluoedd estynedig wedi lleihau yn ystod yr ungeinfed ganrif?
4. Eglurwch resymau posib am gynnydd teuluoedd estynedig heddiw?

## Allweddeiriau

- Teulu estynedig - uned sy'n fwy na'r teulu niwclear.
- Estyniad fertigol - estyniad o'r uned niwclear sy'n cynnwys aelodau'r drydedd genhedlaeth e.e. nain a thaid.
- Estyniad llorweddol - estyniad o'r uned niwclear sy'n cynnwys aelodau o'r un genhedlaeth, megis modryb ac ewythr.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Diffiniadau o Gartrefi a Charennydd

### Bwledi

- Gall cartrefi gynnwys aelodau o'r un carenydd.
- Gallant hefyd gynnwys pobl sydd ddim yn perthyn i'w gilydd.

### Testun

Rhaid i bobl sydd yn ffurfio cartref fyw o dan yr un tô a rhannu nifer o weithgareddau domestig. Er enghraifft, maent yn rhannu prydau bwyd, gwaith tŷ a gwariant y tŷ. Mae gan nifer o bobl sydd yn rhannu tŷ gwlwm carennydd sef pobl sy'n perthyn i'w gilydd drwy waed neu briodas Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn cynnwys aelodau o deulu yn byw gyda'i gilydd. Ond mae rhai cartrefi yn cynnwys pobl sydd ddim yn perthyn i'w gilydd - er enghraifft myfyrwyr. Ac, hefyd, yn ddiweddar, mae yna gynnydd wedi bod mewn cartrefi un person - unigolion yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r cynnydd hwn i'w weld fwyaf ymhlith pobl ifanc yr henoed a dynion.

Mae carennydd yn cyfeirio at bobl sydd yn perthyn i'w gilydd drwy 'waed' neu briodas. Perthnasau 'gwaed' yw pobl sydd gyda perthnas genetig neu fiolegol. Mae'r syniad o garennydd yn anodd i'w ddiffinio ac mae'n codi cwestiynau amrywiol e.e Ble mae carennydd yn dechrau a gorffen? Pa mor agos sydd rhaid i'r berthynas genetig fod er mwyn i bobl gael eu hystyried yn garennydd - cefnder/cyfnither cyntaf, ail, neu tu hwnt? Ydy ysgariad yn rhoi terfyn ar ambell gwlwm carennydd, ac ydy ail-briodas yn creu cwlwm carennydd newydd? Oes gan bobl sydd yn cyd-fyw - byw fel cwpwl ond heb briodi - berthynas garennydd?Mae'r cwestiynau hyn yn awgrymu, i ryw raddau, bod carennydd yn dibynnu ar ddewis personol.

Mae ymchwil gan Brifysgol Cymru, Abertawe (a fu'n archwilio newidiadau mewn bywyd teuluol yn Abertawe ers y 1960au yn awgrymu'r canlynol:
'Support and contact are key to who is counted as 'family'. Kin can lose the status of family members if they do not provide support and there is little contact. By the same token, friends can become 'family' and distant relatives become 'close' if they are seen often and help each other out.'

Dadleua Robert Chester bod cymryd cipolwg o fathau o gartrefi yn gamarweiniol. Dros gylch bywyd ( 'Life-Cycle'), mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn teuluoedd ac yn dibynnu ar gysylltiadau carennydd. Fodd bynnag, dadlea ôl-fodernwyr na ellir galw'r un fath o deulu yn 'norm'. Mae'r teulu niwclear yn un o nifer o wahanol fathau o deuluoedd mewn cymdeithas fodern ac o ganlyniad mae'n amhosib cyflwyno un theori o'r 'teulu'.

### Cwestiynau

1. Beth yw carennydd?
2. Beth yw'r ddadl ôl-fodernaidd?
3. Beth yw dadl Robert Chester?

### Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Carennydd - pobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w gilydd drwy 'waed' neu briodas.

# Pa newidiadau demograffig allweddol sy'n effeithio ar deuluoedd ym Mhrydain?

## Ffrwythlondeb

### Bwledi

- Mae gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae mwy o ferched yn aros yn ddi-blant.
- Mae merched yn cael plant yn hwyrach mewn bywyd.
- Mae mwy o enedigaethau tu allan i briodas.

### Testun

Mae ystadegau diweddar yn dangos fod merched yn cael llai o blant ac mae mwy o ferched sydd ddim yn cael plant o gwbl.

Cyfradd ffrwythlondeb: y nifer o enedigaethau i bob 1,000 o ferched 15-44 oed. Yn 1900, roedd cyfradd ffrwythlondeb y DU yn 115, yn 1961 roedd yn 91, ac yn 2001 roedd wedi syrthio i 54.5. Dyma'r gyfradd isaf ers cychwyn cadw cofnod. (Annual Abstract of Statistics 2003).

Merched di-blant: Mae rhan o'r gostyngiad yn y gyfradd ffrwythondeb y ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd mewn merched di-blant. Yn ôl ffigurau'r Joseph Rountree Foundation roedd tua 9% o ferched a gafodd eu geni yn 1946 yn Lloegr a Chymru yn ddi-blant erbyn 45 oed, cynyddodd hyn i 16% i'r rhai a anwyd yn 1952, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd 25% o ferched a anwyd yn 1973 yn ddi-blant yn 45 oed. Mae'n debyg bod y cynnydd mewn merched di-blant ers y 1950au yn wirfoddol - dewis ydy o.

Mae bod yn ddi-blant yn anwirfoddol yn effeithio ar tua rhwng 5% a 8% o gyplau - nid oes rheswm i feddwl bod hyn yn cynyddu.

Oed a ffrwythlondeb: Mae merched yn cael plant yn hwyrach yn eu bywyd. Yn Lloegr a Chymru cynyddodd cyfartaledd oed genedigaeth o 26.1 oed yn yr 1970au cynnar i 29. 1 oed yn 2000.
Tra bod cyfraddau ffrwythlondeb merched o dan 30 oed wedi gostwng, mae'r graddfeydd i'r rhai 30 oed a hŷn wedi codi ers canol yr 1970au (Ghee 2001).

Genedigaethau tu allan i briodas: Mae mwy a mwy o enedigaethau yn digwydd tu allan i briodas. Yn 1900, roedd 4% o'i gymharu a bron deg gwaith hynny canrif yn ddiweddarach. Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf - o 8% yn Lloegr a Chymru yn 1971 i 39% yn 2000.
Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn mewn genedigaethau tu allan i briodas wedi bod i gyplau sy'n cyd-fyw - i rieni yn byw yn yr un cyfeiriad. Yn 2000, roedd 80% o

enedigaethau y tu allan i briodas wedi eu cofrestru ar y cyd gan y ddau riant - roedd75% o'r genedigaethau hyn i rieni yn byw yn yr un cyfeiriad.

Mae'r nifer o enedigaethau y tu allan i briodas a gofrestrwyd gan y fam yn unig wedi aros mwy neu lai yr un fath, sef tua 7% i 8% ers diwedd yr 1980au.

### Cwestiynau

1. Awgrymwch resymau am y gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb.

### Allweddeiriau

- Cyfradd ffrwythlondeb: y nifer o enedigaethau i bob 1,000 o ferched 15-44 oed.

## Esboniadau am ostyngiadau mewn genediaethau

### Bwledi

- Mae newidiadau mewn agwedd tuag at eni plant tu allan i briodas.
- Mae mwy o ddulliau atalgenhedlu.
- Mae mwy o gyfleodd addysgol i ferched.
- Mae gan unigolion fwy o ryddid.

### Testun

Un esboniad sydd wedi cael ei awgrymu yw newid mewn agweddau a gwerthoedd. Mae'r gymdeithas yn llawer mwy goddefgar o enedigaeth tu allan i briodas nac mae wedi bod yn y gorffennol. Yn y 50au cynnar roedd mamau di-briod yn cael eu gweld yn 'psychologically disturbed'. Roedd genedigaethau tu allan i briodas yn cael eu difrïo yn 'anghyfreithlon'. Mae agweddau tuag at ferched di-blant hefyd wedi newid. Heddiw mae merched yn dewis peidio cael plant, maent yn gweld eu hunain yn rhydd, yn hytrach na'u bod wedi dioddef colled.

Mae dulliau atgenhedlu dibynadwy ar gael gan y Gwasanaeth Iechyd ers 1967 i ferched priod neu ddi-briod. Oherwydd hyn roedd yn bosibl i'r merched reoli pryd a faint blant oeddent am gael.

Mae ymchwilwyr yn aml yn pwyntio at ehangu cyfleoedd addysg fel rheswm dros y gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb. Mae'r niferoedd o is-raddedigion benywiaidd wedi cynyddu mwy na teirgwaith rhwng 1970/71 a 2000/01. Yn ystod y blynyddoedd hynny cynyddodd y niferoedd o ferched sydd yn gweithio'n gyflogedig o 10 i 14.1 miliwn. Rhoddodd hyn gyfleoedd gwahanol i ferched yn wahanol i'r rôl draddodiadol fel mamau a magwyr plant.

Mae rhai ymchwilwyr yn honni fod pwyslais mwy wedi ei roi ar unigolyddiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r meddylfryd hyn yn cael ei adlewyrchu gyda chyplau yn dewis byw gyda'i gilydd heb briodi a dewis cael llai neu dim plant o gwbl.

### Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Cynigiwch resymau dros newid mewn agwedd tuag at enedigaethau tu allan i briodas.

### Allweddeiriau

- Goddefgar: Derbyn rhywbeth.
- Is-raddedigion: Pobl sydd yn y brifysgol yn dilyn cwrs gradd.
- Unigolyddiaeth: unigolion yn gwrthod derbyn pwysau traddodiadol cymdeithasol i gydymffurfio.

## Patrymau Priodi

### Bwledi

- Mae nifer o resymau pam fod llai o bobl yn dewis priodi heddiw.
- Mae nifer cynyddol yn cyd-fyw yn lle priodi.
- Mae mwy o bobl yn cael plant cyn priodi.
- Eto, newid mewn agweddau a gwerthoedd cymdeithasol yw'r prif resymau dros gynnydd mewn cyd-fyw.

### Testun

Hyd yn ddiweddar roedd y rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain yn cymryd yn ganiataol bod priodas yn sail ar gyfer bywyd teuluol. Erbyn hyn mae arwyddion bod hyn yn newid. Mae nifer cynyddol o barau yn ystyried nad yw priodas yn angenrheidiol mewn perthynas rywiol tymor hir, nac ychwaith pan fyddant yn ystyried cael plant.

Yn gyffredinol ers 1838 pan gofrestrwyd priodasau am y tro cyntaf, hyd at ddechrau'r 1970au mae cynnydd wedi bod yn y nifer o briodasau yn y DU. Ers hynny, mae dirywiad wedi bod yn y nifer o briodasau, o 480,000 yn 1972 i 306,000 yn 2000. Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at briodasau cyntaf ac at ail briodasau, lle mae un neu'r ddau bartner wedi priodi o'r blaen.

Gwelwyd dirywiad yn y nifer o briodasau cyntaf, o 390,000 yn 1970 i lawr i 180,000 yn 2000, ond fe welwyd cynnydd yn y nifer o ail briodasau o 57,000 yn 1961 (14%) i 126,000 yn 2000 (41%).
Roedd y rhan fwyaf o ail briodasau yn cynnwys pobl wedi ysgaru yn hytrach na gweddwon.
Gwelwyd y cynnydd mwyaf rhwng 1971 a 1972, yn dilyn Deddf Diwygio Ysgariad 1969.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf y duedd ydy i bobl briodi yn hwyrach yn eu bywydau. Yn 1971, oed cyfartalog ar gyfer priodas gyntaf oedd 24 i ddynion a 22 i ferched. Erbyn 2000, roedd wedi codi i 30 i ddynion a 28 i ferched.

Mae yna fwy o bobl erbyn hyn yn dewis peidio â phriodi, ac yn hytrach yn aros yn sengl neu'n cyd-fyw fel cwpl. Mae nifer o bobl yn dewis cyd-fyw cyn priodi a nifer cynyddol yn dewis cyd-fyw yn lle priodi.
Yn ôl McRae (1999) mae yna nifer o resymau pam bod rhai merched yn gwrthod y syniad o briodas.

© CBAC / WJEC 2015

Mae priodas yn cyfyngu ar ryddid personol ac annibyniaeth. Wrth gyd-fyw nid ydynt yn teimlo eu bod wedi eu clymu.

Nid oes mantais i ferched o fod yn briod.

Mae rhai yn gwrthod priodas oherwydd yr ofn o ysgariad. Maent wedi bod trwy ysgariad o'r blaen, neu wedi gweld rhywun arall yn mynd trwy ysgariad, ac mae'r profiad wedi gwneud iddynt wrthod priodas.

Hefyd, yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf mae agweddau tuag at y dewisiadau eraill wedi newid. Mae aros yn sengl neu gyd-fyw yn apelio'n fawr at nifer o bobl, ac wrth gwrs yn dderbyniol gan gymdeithas.

Tra bod y nifer sy'n priodi wedi lleihau, y mae'r nifer sy'n cyd-fyw heb briodi wedi cynyddu. Rhwng 1979 ac 1991 cynyddodd y ganran o ferched oedd yn cyd-fyw o 11% i 23%. Yn ôl Haskey (2001) mae cyplau sydd yn cyd-fyw yn dueddol o fod yn ifanc - roedd bron i 40% o ferched 25-29oed yn cyd-fyw yn 1998, ac mae'r patrwm yn debyg i ddynion. Mae cynnydd wedi bod hefyd yn y nifer o barau sy'n cyd-fyw cyn priodi.

Rhwng 1900 ac 1960 roedd tua un o bob ugain o blant yn cael eu geni y tu allan i briodas. Cynyddodd hyn i 8% yn 1971, ac i 31% yn 1992. Serch hynny, roedd 75% o'r plant a gafodd eu geni y tu allan i briodas yn 1992 yn cael eu cofrestru fel plant i'r ddau riant (45% yn 1971). Mae hyn yn dangos bod y plant sy'n cael eu geni y tu allan i briodas yn cael eu magu mewn perthynas sefydlog rhwng dau bartner. Mewn dros 70% o achosion pan oedd y rhieni yn cofrestru eu plant, roeddent yn rhoi'r un cyfeiriad ar y ffurflen gofrestru.

I rai parau mae cyd-fyw a geni plant yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n cymryd lle priodas, i eraill, mae'n gam naturiol sy'n digwydd cyn eu bod yn priodi. Er mai lleiafrif o bobl ydyn nhw, mae'r nifer o bobl sy'n credu nad oes angen priodi yn cynyddu. Cynyddu hefyd mae'r nifer o ferched sy'n gweld nad oes angen dyn arnyn nhw i fagu eu plentyn, na pherthynas sefydlog gydag un partner chwaith.

Mae cyd-fyw yn cael ei weld fel cyfle i brofi'r berthynas cyn ei wneud yn gyfreithiol. Roedd tua 40% yn edrych ar gyd-fyw fel dewis arall yn lle priodas, ac yn gweld y rhyddid oddi wrth y cwlwm cyfreithiol yn ffordd haws o ddiweddu perthynas.

Mae cyd-fyw wedi cynyddu yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf am nifer o resymau.

1.Mae agweddau cymdeithas tuag at berthynas rywiol y tu allan i briodas wedi newid. Nid yw yn rhywbeth pechadurus ym marn nifer o bobl erbyn hyn. Mae hyn yn cael ei gysylltu gyda'r ffaith bod y gymdeithas yn llai crefyddol. Yr enw ar y broses lle mae crefydd yn colli arwyddocâd yw seciwlareiddio.

2. Dywed Allan a Crow (2001) bod gwneud dulliau atal cenhedlu ar gael i ferched di-briod yn 1967 yn cael gwared ar yr ofn o fod yn feichiog a di-briod, ac felly nid oedd cael perthynas rywiol cyn priodi yn gymaint o broblem ag yr arferai fod.

3. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd bod mwy o bobl ifanc yn gadael cartref i fynd i ddilyn cwrs addysg bellach mewn colegau. Mae hyn wedi hwyluso'r ffordd i bobl

© CBAC / WJEC 2015

ifanc gyd-fyw. Yn ogystal â hyn, mae cymdeithasau adeiladu yn fwy parod erbyn hyn i roi benthyg arian i gyplau dibriod.

4. Yn olaf, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd ysgariad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cyplau sydd wedi bod trwy ysgariad yn fwy tebygol o gyd-fyw'r ail dro. Yn ôl Mc Crae (1999) ac Allan a Crow (2001), mae nifer o bobl yn dewis cyd-fyw oherwydd eu bod ofn y syniad o ysgariad.

Mae'r ffordd yr ydych yn dadansoddi'r ffigyrau yn dibynnu ar eich safbwynt. Mae ffeministiaid yn dueddol o edrych arnyn nhw fel prawf nad yw priodasau patriarchaidd traddodiadol yn ateb anghenion merched. Mae pobl ar asgell dde gwleidyddiaeth, fel y Dde Newydd, yn credu eu bod yn dangos bod gwerthoedd teuluol traddodiadol yn torri i lawr.

Dadl arall yw un y ffwythianwyr, pobl fel Ronald Fletcher, sy'n dadlau mai teuluoedd niwclear yw'r parau sy'n cyd-fyw mewn gwirionedd, teuluoedd sy'n seiliedig ar berthynas sefydlog.

### Cwestiynau

1. Cynigiwch resymau pellach dros y cynnyddd mewn cyd-fyw.
2. Ydy'r cynydd mewn cyd-fyw yn arwydd fod y teulu yn llai pwysig?

### Allweddeiriau

- Gwerthoedd: yr egwyddorion neu'r credoau. arweiniol sy'n effeithio ar sut mae pobl yn ymddwyn.
- Teulu niwclear: teulu sydd â dau riant ac un plentyn neu fwy.
- Y Dde Newydd: cysylltir â Margaret Thatcher- Credu mewn unigoliaeth neu hawliau'r unigolyn dros hawliau'r gymdeithas.
- Ffwythiannwyr: math o gymdeithaseg ble astudir sefydliadau cymdeithasol o safbwynt pa mor ddefnyddiol ydynt i gymdeithas.
- Addysg Bellach: Addysg ôl-16 mewn coleg sy'n arwain at ragor o gymwysterau.
- Patriarchaidd: dynion yn rheoli.
- Seciwlareiddio: proses lle mae crefydd yn colli arwyddocâd.

## Ysgariad

### Bwledi

- Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y gyfradd ysgaru ers y 1970'au.
- Mae'n anodd casglu ffigurau dibynadwy ar dor-priodas.

### Testun

Mae priodas yn gytundeb cyfreithiol rhwng dau berson. Drwy ysgariad, mae'r cytundeb hwnnw yn dod i ben yn gyfreithiol.

Un o'r newidiadau mwyaf dramatig sydd wedi bod ym mywyd teuluol yn ystod y ganrif ddiwethaf yw'r cynnydd aruthrol yn y gyfradd ysgaru. Yn 1911 cafwyd 859 o geisiadau am

© CBAC / WJEC 2015

ysgariad, gyda chaniatâd yn cael ei roi i dua thri chwarter o'r rhain. Yn 1987 cafwyd cais am 183,000 ysgariad, a rhoddwyd caniatâd i dros 165,000 o'r rhain.

Y ffordd orau o fesur faint yw'r cynnydd sydd wedi bod yw edrych ar y gyfradd ysgaru. Mae'r gyfradd ysgaru yn cyfeirio at y nifer o ysgariadau am bob mil o barau priod. Yn 1993 roedd ysgariad ar ei uchaf, yn cyrraedd 180,000 ac yna yn gostwng i 155,000 erbyn 2000. Cododd eto i 157,000 yn 2001. (Social Trends 2003).

Dywed Joan Chandler (1993) os bydd y patrymau hyn yn parhau, bydd tua 40% o briodasau presennol yn diweddu mewn ysgariad. Drwy gydol y 1990au mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cofnodi gostyngiad yn y nifer o ysgariadau ac yn y gyfradd ysgariad. Dywedant fod hyn yn digwydd oherwydd gostyngiad yn y nifer o briodasau cyntaf. Rhaid cofio hefyd bod nifer o gyplau yn gwahanu, ond heb gael ysgariad, ac mae'n anodd iawn i gasglu ystadegau cywir o'r duedd hyn.

Yn ogystal â hyn fe geir nifer o briodasau cragen wag('empty-shell marriage'), lle mae cwpwl yn parhau i fyw gyda'i gilydd, yn briod yn gyfreithiol, ond lle mae cariad, rhyw a chwmnïaeth wedi diflannu. I bob pwrpas, maent yn byw bywydau ar wahân, ond yn dal yn byw yn briod dan yr un tô. Wrth gwrs gan ei bod yn haws cael ysgariad erbyn hyn, mae'n debyg bod y cyplau hynny a oedd yn goddef priodasau cragen wag neu'r cyplau hynny a oedd wedi gwahanu yn y gorfennl, yn fwy tebygol o ysgaru'r dyddiau hyn.

Mae'r cynnydd mewn ysgariad yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi bod yn syfrdanol. Y cwestiwn mawr i ni fel cymdeithasegwyr yw pam bod y cynnydd hwn wedi digwydd? Mae cynnydd mewn ysgariad wedi digwydd yn y rhan fwyaf o gymdeithasau modern, nid problem i Brydain yn unig yw hwn. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu ato.

### Cwestiynau

1. Pam ei fod yn anodd casglu ffigurau dibynadwy ar dor-priodas?

### Allweddeiriau

- Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ystadegau o ddata cenedlaethol swyddogol a gesglir gan asiantaethau y llywodraeth.
- Priodas cragen wag: priodas lle nad oes unrhyw gariad rhwng y cwpl ond maent yn aros gyda'i gilydd, yn aml rhag achosi loes i'w plant.

## Egluro'r Cynnydd Mewn Ysgariad

### Bwledi

- Mae newidiadau cyfreithiol wedi gwneud ysgariad yn haws i'w gael.
- Cred rhai fod y cynnyddd mewn ysgariad yn adlewyrchu'r gwerth cynyddol a rodda pobl ar briodas.
- Mae newid yn safle'r ferch yn golygu nad oes angen i ferched aros yn 'gaeth' mewn priodas anhapus.
- Eto, mae newidiadau mewn agweddau a gwerthoedd cymdeithasol yn gwneud ysgariad yn fwy derbyniol.
- Golyga newidiadau demograffig fod mwy o bobl yn ysgaru yn y DU gyfoes.

© CBAC / WJEC 2015

## Testun

1. Newidiadau yn y gyfraith

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag ysgaru wedi newid yn fawr iawn, ac wedi cyfrannu at y cynnydd yn y nifer o ysgariadau sy'n digwydd.

Daeth y newid mawr yn 1971, er bod newidiadau llai pwysig wedi bod cyn hynny a gyfrannodd at y cynnydd yn y gyfradd ysgaru. Yn 1971 pasiwyd Deddf oedd yn dweud bod modd cael ysgariad os oedd parau yn medru dangos bod y briodas wedi torri lawr.Golygai hyn, mewn gwirionedd, bod modd cael ysgariad ar ôl byw ar wahân am ddwy flynedd, neu am bum mlynedd, os oedd un partner yn gwrthwynebu. Yn 1985 pasiwyd Deddf arall oedd yn dweud bod hawl cael ysgariad ar ôl blwyddyn o briodas yn unig - roedd yn rhaid aros tan eich bod wedi bod yn briod am dair blynedd cyn hynny. Yn dilyn pasio'r ddeddf hon, cododd y gyfradd ysgaru eto.

Er bod y newid yn y gyfraith wedi arwain at gynnydd yn y gyfradd ysgaru, nid dyma'r unig eglurhad. Mae newidiadau yn y gyfraith yn dueddol o adlewyrchu newidiadau mwy eang o fewn cymdeithas.

Mae'r gyfradd ysgaru wedi codi ar adegau pan nad yw'r gyfraith wedi newid e.e. yn ystod y 1960au. Mae newidiadau cyfreithiol yn galluogi mwy o hawliau wrth gael ysgariad. Ond dydyn nhw ddim yn esbonio pam bod mwy o bobl yn dewis ysgaru.

2. Disgwyliadau pobl am briodas

Mae Ronald Fletcher yn dadlau bod pobl yn disgwyl mwy allan o briodas a bywyd teuluol nag yr oedden nhw'n arfer gwneud. Dydy parau ddim yn fodlon rhagor i fyw yn rhan o briodasau cragen wag - 'empty shell marriages' ac felly mae ysgariad yn fwy cyffredin. Ar yr un pryd, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael ysgariad yn ailbriodi, ac felly dydyn nhw ddim yn gwrthod priodas fel ffordd o fyw, dim ond y briodas maent yn digwydd bod yn rhan ohoni.

Mae William Goode yn dadlau bod priodas wedi dod yn rhywbeth sy'n digwydd am resymau mwy emosiynol. Yn y gorffennol roedd pobl yn priodi am resymau ymarferol, ac felly doedd y ffaith bod partneriaid ddim yn caru ei gilydd ddim yn broblem. Mae N Dennis (1984) yn dweud rhywbeth tebyg. Dywed bod priodasau modern yn cael eu cynnal gan deimladau emosiynol y ddau berson at ei gilydd. Os yw'r rhain yn torri lawr, yna does dim llawer o bwynt i'r briodas.

Yn fwy diweddar mae'r cymdeithasegwr Anthony Giddens (1992) yn gweld patrwm tuag at yr hyn a elwir ganddo yn 'gariad sy'n cydredeg' ('confluent love'). Mae'r cariad hwn yn golygu agosatrwydd, emosiwn a boddhad yn hytrach na theimladau o ddyletswydd a gorfodaeth fel ag oedd yn cael ei adlewyrchu mewn addunedau priodas traddodiadol - "Er gwell, er gwaeth, … er cyfoethocach, er tlotach, …tra byddwn ni'n dau fyw". Dywed Giddens bod y penderfyniad i briodi heddiw yn aml yn seiliedig ar y math hwn o gariad. Pan mae'r emosiwn a'r agosatrwydd hwn yn diflannu o briodas, mae'n debygol o ddod i ben. Os yw Giddens yn gywir, yna gall priodas fod yn sefydliad ansefydlog iawn heddiw, ac o'r herwydd bydd ysgariad yn debygol o ddigwydd yn amlach.

© CBAC / WJEC 2015

3. Newidiadau i rolau merched

Erbyn heddiw mae tri chwarter o'r ceisiadau am ysgariad yn dod oddi wrth y ferch.Mae Fletcher yn dadlau bod hyn oherwydd bod merched yn dueddol o ddisgwyl mwy allan o briodas na dynion, ac erbyn hyn, mae merched yn fwy annibynnol yn ariannol, ac mae mwy o gyfle ganddyn nhw i fedru llwyddo heb eu gwŷr.

Mae gwella safle'r ferch o fewn cymdeithas hefyd wedi cyfrannu felly at gynnydd yn y gyfradd ysgaru. Dadlea rhai ffeministiaid bod llai gan ferched i'w ennill allan o briodi na dynion, ac felly dydyn nhw ddim yn gweld pwynt i briodas. Mae llai o ferched yn ailbriodi ar ôl ysgaru na dynion.

Dywed Nicky Hart (1976) bod y cynnydd yn nifer y merched sy'n gweithio wedi rhoi mwy o straen ar ferched. Mae gwrthdaro rhwng rôl y ferch yn y tŷ a'i rôl yn y lle gwaith. Mae'r cynnydd yn y gyfradd ysgaru felly'n adlewyrchu bod merched eisiau gwell bargen allan o briodi, ac nad ydyn nhw'n hapus gyda'u rôl draddodiadol yn gwneud y gwaith tŷ. Yn y gorffennol roedd merch yn 'gaeth' i briodas anhapus am nad oedd yn gallu cynnal ei hun a'i phlant yn ariannol heb gyflog ei gŵr. Dywed Kurz (1995) os nad oedd merched yn gallu bod yn annibynnol yn economaidd, roedd eu cyfleoedd o allu cael ysgariad yn gyfyngedig.

Yn ôl Allan a Crow (2001), dros yr hanner can mlynedd diwethaf, mae cyfleoedd merched wedi gwella. Mae mwy o ferched yn gweithio, mae ysgariad yn rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion ariannol y ferch, ac mae budd-daliadau i ferched a phlant wedi gwella. Er bod y rhan fwyaf o ferched yn waeth yn ariannol ar ôl cael ysgariad, maent yn llwyddo i fyw yn annibynnol o'u gwŷr.

Dywed ffeministiaid bod cynnydd mewn cyfradd ysgariad yn adlewyrchiad o'r hyn sydd o'i le ar y briodas batriarchaidd draddodiadol - awdurdod dynion a rhaniad llafur domestig anghyfartal, gyda'r merched yn gyfrifol am ofal plant a gwaith tŷ hyd yn oed os oes ganddynt swydd eu hunain.

Mae peth tystiolaeth i gefnogi hyn. Mae dynion sydd wedi ysgaru yn fwy tebygol o ailbriodi na merched sydd wedi ysgaru. Yn ôl Diana Gittins (1993) mae hyn oherwydd bod merched wedi eu dadrithio gyda phriodas. Yn y 1940au roedd 66% o ddeisebau ysgariad yn dod oddi wrth y gwŷr. Erbyn 2000 roedd 70% o'r deisebau ysgariad yn dod oddi wrth y gwragedd. Mae hyn yn awgrymu bod merched yn fwy anfodlon gyda phriodas na dynion.

4. Newidiadau yn agwedd a gwerthoedd cymdeithas

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd ysgariad yn cael ei ystyried yn rhywbeth gwarthus, ac roedd person oedd yn cael ysgariad yn aml yn cael ei wrthod gan gymdeithas. Mae hyn yn arbennig o wir am ferched. Mae agweddau wedi newid yn raddol yn ystod y ganrif ddiwethaf, ac mae ysgariad wedi dod yn llawer mwy cyffredin a derbyniol ac felly mae hyn, ynddo'i hun, wedi gwneud ysgaru yn haws.

Mae cymdeithasegwyr fel Bryan Wilson (1966) yn gweld bod cysylltiad rhwng dirywiad crefydd a'r cynnydd mewn ysgariad. Mae cymdeithas wedi dod yn fwy seciwlar, ac mae hyn wedi cyfrannu at fwy o ysgaru. Erbyn heddiw mae llai na hanner priodasau modern yn

rhai crefyddol. O'r bobl sy'n priodi mewn capel neu eglwys, canran bach iawn sy'n mynd yno i addoli'n gyson. Efallai bod y syniad Cristnogol o aros gyda rhywun am oes yn dechrau diflannu.

Yn ôl Colin Gibson (1994) mae moderniaeth yn gallu creu gwrthdaro rhwng gŵr a gwraig. Mae moderniaeth yn rhoi pwyslais ar gyflawniad unigolyn ac felly mae rhai cyplau yn disgwyl boddhad personol uwch o briodas.Gwelir hyn yn fwy tebygol o ddigwydd mewn ail briodas. Ceir safbwynt tebyg gan Allan a Crow (2001). Dadleuant fod priodas erbyn hyn yn fwy o berthynas na chytundeb. Mae cwpwl yn chwilio am gariad, boddhad ac ymrwymiad personol ac nid oes raid i briodas fod yn berthynas sy'n parhau am byth.

Mae syniadau am ysgariad, a'i effaith ar blant hefyd yn newid. Yn y gorffennol roedd parau yn aros gyda'i gilydd 'er mwyn y plant'. Erbyn heddiw mae mwy a mwy o bobl yn gweld nad yw priodas sydd ddim yn gweithio yn helpu'r plant, gan ddadlau bod y plant yn well eu byd mewn awyrgylch hapus gyda rhiant sengl, na gyda dau riant sy'n dadlau.

Yn ôl Cockett a Tripp (1994) mae cynnydd yn y gyfradd ysgariad wedi arwain at wneud ysgariad yn 'normal'. Mae hyn yn gwneud ysgariad yn fwy derbyniol.

5. Newidiadau demograffig

Yn y gorffennol doedd priodi am oes ddim yn golygu gorfod byw gyda'r person arall am amser hir beth bynnag. Roedd disgwyliadau bywyd mor fyr, a llawer o bobl yn marw'n ifanc, fel bod cyfnod y briodas yn gymharol fyr. Roedd pobl yn aml yn priodi'n hwyr yn eu bywydau hefyd, ac roedd ailbriodi ar ôl i'ch partner farw hefyd yn gyffredin.

Mae haneswyr cymdeithasol fel Michael Anderson (1983) yn dadlau bod y ffaith bod pobl yn priodi'n gynt, ac yn byw'n hirach hefyd wedi cyfrannu at gynnydd yn y gyfradd ysgaru. Yn ôl 'Population Trends' (1976) roedd priodas ble roedd y briodferch dan 21oed dwywaith yn fwy tebygol o chwalu na phriodas ble roedd hi dros 21oed.

Yn ystod yr 1980au mae parau'n fwy tebygol o fyw gyda'i gilydd cyn priodi. Yn ôl y 'General Household Survey' (1993) roedd parau oedd wedi cyd-fyw cyn priodi yn fwy tebygol o ysgaru na rhai oedd heb. O'r parau fu'n cyd-fyw roedd 50% wedi ysgaru ar ôl pum mlynedd o briodas a 60% ar ôl wyth mlynedd o briodas.

Er bod pobl yn cysylltu priodi'n ifanc gydag ysgaru, mae rhai cymdeithasegwyr yn dadlau nad oherwydd eu bod wedi priodi'n ifanc mae'r parau'n ysgaru.

Yn ôl astudiaeth Ineichen o briodasau ym Mryste (1977), roedd ysgariad ymhlith yr ifanc yn gysylltiedig â ffactorau eraill fel tai gwael, swyddi llaw a rhannu cartref gyda rhieni neu berthnasau. Mae pobl sy'n priodi'n ifanc yn fwy tebygol o ddod o'r dosbarth gweithiol, yn fwy tebygol o fod yn disgwyl plentyn cyn priodi, yn fwy tebygol o fyw mewn tai gwael, neu o fyw gyda'u rhieni. Efallai mai'r ffactorau hyn sy'n cyfrannu at y lefel uchel mewn ysgariad, ac nid y ffaith eu bod wedi priodi'n ifanc.

## Cwestiynau

1. Crynhowch y newidiadau cyfreithiol sydd wedi arwain at y cynnyddd mewn ysgariad.

© CBAC / WJEC 2015

2. Pam fyddai graddfa ysgaru wedi codi yn y 1960'au?
3. Pa esboniad am y cynnyddd mewn ysgariad sydd orau yn eich barn chi?

### Allweddeiriau

- Budd-daliadau: arian a delir gan y llywodraeth i bobl mewn angen e.e diweithdra, pensiwn.
- Llafur Domestig: gwaith di-dal sy'n cynnal y cartref e.e. gwaith tŷ, gofal plant.
- Patriarchaeth: dominyddiaeth gan ddynion.

## Pwy sy'n Ysgaru?

### Bwledi

- Mae pobl sy'n priodi yn ifanc yn fwy tebygol o ysgaru.
- Mae pobl o'r dosbarth gweithiol yn fwy tebygol o ysgaru.
- Mae plant sydd â rhieni wedi ysgaru yn fwy tebygol o ysgaru eu hunain.
- Mae ail-briodasau yn fwy tebygol o ddiweddu mewn ysgariad na phriodasau cyntaf.

### Testun

Mae cwpwl sydd yn priodi'n ifanc yn fwy tebygol o gael ysgariad. Mae yna nifer o resymau am hyn. Efallai bod y ferch yn feichiog yn barod a gall hyn roi straen ar y briodas. Mae problemau ariannol yn fwy tebygol ymhlith yr ifanc oherwydd cyflog isel neu ddiweithdra. Dadlea rhai o feddylwyr yr Adain Dde nad ydynt yn sylweddoli beth yw gofynion priodas neu nad oes ganddynt brofiad o ddewis partner addas. Mae eu credoau a'u hagweddau yn dal i ddatblygu ac fe all hyn greu bwlch rhyngddynt.

Yn gyffredinol, yr isaf yw dosbarth cymdeithasol y gŵr, y mwyaf tebygol yw i'r cwpwl ysgaru. Yn ôl Kiernan a Mueller (1999) mae problemau ariannol yn ganolog i bopeth. Mae diweithdra, dibyniaeth ar fudd-daliadau ac incwm isel yn cael eu cysylltu â chyfraddau ysgariad uchel.

Rhai ffactorau eraill sy'n cael eu cysylltu â chyfraddau ysgariad uchel yw profiad o rieni yn ysgaru - gall hyn wneud ysgariad yn fwy derbyniol. Y mae ail briodasau yn fwy tebygol o ddiweddu mewn ysgariad na phriodasau cyntaf.

Mae gwahaniaethau o safbwynt dosbarth, ethnigrwydd a chrefydd yn gallu achosi problemau. Efallai bod ganddynt lai yn gyffredin neu efallai bod ganddynt ddisgwyliadau gwahanol am briodas a allai arwain at wrthdaro. Efallai bydd ysgaru yn fwy cymhleth i pobl gyfoethog oherwydd ystyriaethau ariannol.

### Cwestiynau

1. Pwy sydd fwyaf tebygol o ysgaru?

### Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Dosbarth cymdeithasol: rhaniad pobl yn y strwythur yn dibynnu ar eu swydd.
- Ethnigrwydd: hunaniaeth wedi'i rannu wedi seilio ar ffactorau crefyddol a diwylliannol.
- Gwrthdaro: tenswin neu anghytundeb.

## Ysgariad a phlant

### Bwledi

- Mae gwahaniaethau barn ynglŷn ag effeithiau ysgariad ar blant.
- Mae'r ffactorau sy'n dod yn sgîl ysgariad yn achosi problemau pellach i blant.
- Yn ôl Y Dde Newydd mae ysgariad yn fygythiad difrifol i gymdeithas.

### Testun

Y mae yna nifer o ganlyniadau i ysgariad, i'r cwpwl, i'w plant, eu perthnasau a'u ffrindiau. Y mae gwahaniaeth barn ynglŷn â'r effaith ar blant. Mae rhai yn ei weld yn niweidiol, ac y dylai'r cwpl aros gyda'i gilydd er lles y plant. Mae eraill yn dadlau bod y plant yn hapusach y tu allan i awyrgylch anhapus, chwerw a chwerylgar y teulu.

Yn ôl astudiaeth Rodgers a Pryor (1998), 'Divorce and Separation: The Outcomes for Children', mae gan blant o rieni sydd wedi ysgaru neu wahanu fwy o siawns o brofi tlodi, tai gwael, problemau ymddygiad, beichiogrwydd ifanc, a than-gyrhaeddiad addysgol. Wedi dweud hynny, dim ond lleiafrif ohonynt sydd yn cael y problemau hyn.

Pam, felly, bod ysgariad yn cael effaith niweidiol ar rai, ond nid ar eraill?

Yn ôl Rodgers a Pryor nid yr ysgariad yn unig sy'n achosi'r problemau hyn, ond y ffactorau eraill sydd yn dod yn ei sgil:
Problemau ariannol - a all effeithio ar gyflawniad addysgol.

Gwrthdaro teuluol - a allai greu problemau ymddygiad i'r plant.

Gallu rhieni i ymdopi â sefyllfa newydd - os na all y rhieni ymdopi â'r newidiadau yn sgil ysgariad, yna mae'r plant hefyd yn llai tebygol o wneud.

Newid yn strwythur y teulu - os ydy ysgariad yn arwain at newidiadau eraill, fel symud i mewn gyda llys-deulu, gall hyn achosi problemau.

Cyswllt â rhieni - os nad yw plant yn cael cyswllt ag un rhiant, mae'n anoddach ymdopi.

Ar ôl cwblhau astudiaeth yn America, daeth Mavis Hetherington (2002) i'r un canlyniad. Dywed hi mai dim ond rhai plant oedd yn profi effeithiau tymor hir. Roedd gan 25% broblemau emosiynol neu gymdeithasol difrifol, a hynny o'i gymharu â 10% oedd yn dod o deuluoedd heb wahanu. Yn ôl Hetherington mae'r effeithiau negyddol ar blant wedi eu gorliwio, ac y dylem dderbyn bod ysgariad yn gallu bod yn ddatrysiad rhesymol i berthynas briodasol anhapus a dinistriol.

2. Ysgariad a Chymdeithas

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

Yn ôl y Dde Newydd, mae cyfraddau ysgariad uchel, a theuluoedd un rhiant sydd yn aml yn ganlyniad i ysgariad, yn fygythiad difrifol i gymdeithas. Dadleant gan fod y mwyafrif o deuluoedd un rhiant yn cael eu rhedeg gan y ferch mae yna ddiffyg rôl dadol yno i gynnal disgyblaeth a bod yn esiampl ar gyfer y dyfodol. Gall hyn arwain at ddiffyg cymdeithasoli digonol, yn arbennig i fechgyn, a allai arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae rhai o feddylwyr y Dde Newydd, fel Patricia Morgan (1999) yn gweld cysylltiad uniongyrchol rhwng cynnydd yn y cyfraddau ysgariad â chynnydd yn y cyfraddau trosedd. Dywed hi fod angen dychwelyd at werthoedd traddodiadol y teulu er mwyn cryfhau priodas a chael deddfau newydd i wneud ysgariad yn fwy anodd ei gael. Dylai hyn ostwng y gyfradd ysgariad a gostwng y bygythiad i sefydlogrwydd cymdeithasol.

Mae'r ffeministiaid yn gwrthwynebu unrhyw rwystrau i ysgariad, oherwydd mae'r cyfreithiau presennol yn rhoi rhyddid a dewis, yn arbennig i ferched. Fe allai rhoi cyfyngiadau ar ysgariad orfodi merched i ddioddef priodasau anhapus ac mewn rhai achosion ddioddef creulondeb a thrais.

Mae cyfreithiau ysgariad rhyddfrydol yn cynnig mwy o annibyniaeth i ferched ac yn gam positif tuag at gydraddoldeb gender.

### Cwestiynau

1. Ymchwiliwch i effeithiau ysgariad ar blant.
2. Sut mae barn theoriwyr ar effeithiau ysgariad yn amrywio?
3. Beth yw'r problemau wrth ymchwilio dylanwad ysgariad ar blant?

### Allweddeiriau

- Y Dde Newydd: safbwynt gwleidyddol a gysylltir â Margaret Thatcher a Llywodraeth Geidwadol yr 1980au. Credid bod cystadleuaeth yn beth iach i gymdeithas a chefnogid y teulu niwclear traddodiadol.
- Ffeministiaeth: cred bod dynion yn rheoli merched neu fod patriarchaeth mewn cymdeithas.
- Rôl dadol: disgwyliadau o fod yn 'dad'.
-

## Poblogaeth hŷn

### Bwledi

- Mae gan y DU boblogaeth sy'n heneiddio
- Y ddau brif reswm am hyn yw :

dirywiad yn y gyfradd ffrwythlondeb
cynnyddd mewn disgwyliad oes.

- Mae poblogaeth oedrannus yn aml yn cael ei weld fel problem.

© CBAC / WJEC  2015

# Caffael diwylliant

## Testun

Mae gan y Deyrnas Unedig, fel y rhan fwyaf o gymdeithasau diwydiannol, boblogaeth hŷn neu sy'n heneiddio. Mae hyn yn golygu bod cyfran gynyddol o'r boblogaeth yn oedrannus - 65 oed neu drosodd.

Yn 1961,12% o'r boblogaeth oedd yn 65 oed a throsodd, erbyn 2001 roedd hyn wedi codi i 16%. Ar yr llaw arall, yn 1961 roedd 23% o'r boblogaeth yn y DU yn blant o dan 16 oed, o'i gymharu a 20% yn 2001. (Social Trends 2003)

Mae dau brif reswm dros y boblogaeth hŷn - dirywiad yn y gyfradd ffrwythlondeb a chynnydd mewn disgwyliad bywyd.

Gwelwyd lleihad yn y gyfradd ffrwythlondeb yn y DU, recordiwyd y raddfa isaf yn 2001 ers cychwyn cadw cofnodion. Mae'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu yn y raddfa genedigaethau. Yn 1900 roedd y raddfa genedigaethau yn y DU yn 29, erbyn 1961 roedd yn 18, ac erbyn 2001 roedd yn 11.4. Eto, dyma'r raddfa isaf ers cychwyn cadw cofnodion. ( Annual Abstract of Statistics 2003 ).

Dyma'r ail reswm dros boblogaeth sy'n heneiddio. Mae disgwyliad oes yn cyfeirio at gyfartaledd y nifer o flynyddoedd mae disgwyl i berson fyw. Erbyn 2001, fe allai dynion a merched ddisgwyl byw 30 mlynedd yn hirach na'r hyn ddisgwylid yn 1901.

Yn 1901 y disgwyliad oes oedd 55 oed. Yn 1971 roedd disgwyl i ddynion fyw hyd 77 oed ac 81 erbyn 2001. Yn 1971 y disgwyliad oes ar gyfer merched oedd 81 oed ac roedd yn 84 erbyn 2001.

Pam mae pobl yn byw yn hirach?

Dyma'r rhesymau a awgrymir am y cynnydd mewn disgwyliad bywyd a'r lleihad mewn cyfraddau marwolaethau:

- Gwelliant mewn deiet, glendid a iechyd.
- Cynnydd mewn meddygaeth, technoleg a chyffuriau
- Budd-daliadau cymdeithasol uwch - e.e. taliadau ariannol uniongyrchol a phensiynau
- Safonau byw uwch yn gyffredinol - e.e. gwell tai a gwell cynhesrwydd. Gwell hylendid cyhoeddus - dwr glan a draeniau effeithiol.
- Cyfleusterau gofal gwell - y gwasanaethau cymdeithasol yn darparu cartrefi hen bobl a gwelliannau tai er mwyn helpu'r henoed
- Strwythur galwedigaethol yn newid - llai o swyddi peryglus a chorfforol galed

Cymhareb dibynnol

Mae plant o dan 16 oed a phobl hŷn 65 oed a throsodd yn cael eu hadnabod fel grwpiau oedran dibynnol, gan nad ydynt yn gweithio i gynnal eu hunain.
Mae'r rhai 16-64 oed yn cael eu hadnabod fel poblogaeth sy'n gweithio, er nad yw bob un ohonynt yn gweithio e.e. myfyrwyr a'r di-waith.
Felly un canlyniad poblogaeth sy'n fwy fwy oedrannus yw cynnydd yn y gymhareb dibynnol
(dependancy ratio)

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Pam fod gan y DU boblogaeth sy'n heneiddio?
2. Beth yw manteision ac anfanteision poblogaeth sy'n heneiddio?

### Allweddeiriau

- Cyfradd ffrwythlondeb: y nifer o enedigaethau i bob 1,000 o ferched 15-44 oed.
- Cyfradd enedigaeth: y nifer o enedigaethau byw i bob mil o'r boblogaeth bob Blwyddyn.
- Disgwyliad oes: y nifer o flynyddodd mae disgwyl i bobl fyw.
- Budd-daliadau: cefnogaeth ariannol mewn cyfnod o angen a delir gan y llywodraeth.
- Strwythur galwedigaethol: sut mae swyddi wedi eu rhannu ar hyd y boblogaeth. Caiff effaith ar ddosbarth cymdeithasol.

## Beth yw oblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio?

### Bwledi

- Mae poblogaeth oedrannus yn aml yn cael ei weld fel problem.
- Mae'r mwyafrif o bobl oedrannus yn iach a heini.
- Mae llawer o bobl oedrannus yn annibynnol ac yn cynnal eu hunain.
- Mae'r mwyafrif mewn cysylltiad cyson â'u teuluoedd.
- Mae teuluoedd yn mynd yn hirach i cynnwys tair neu bedair cenhedlaeth.

### Testun

Mae poblogaeth oedrannus yn aml yn cael ei weld fel problem. Mae mwy o bobl oedrannus yn golygu mwy o bwysau ar y rhai sydd yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag gellir ddweud fod y farn hon yn unochrog gan fod mwyafrif o bobl oedrannus yn iach ac yn heini. Mae arolwg o bobl oedrannus yn yr Undeb Ewropeaidd wedi darganfod fod gan y rhan fwyaf fywyd eithaf llawn. Ond yn ôl Social Trends (2003) 'the increase in the number of pensioners places greater demands on health, social services and social security arrangements. As a response to this, the state pension age will be increased between 2010 and 2020 to 65 for both sexes'.

Yr hynaf mae pobl yn mynd, y mwyaf tebygol ydy eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn fel arfer oherwydd marwolaeth eu partner. Mae merched dros 65 yn fwy tebygol o fyw ar eu pennau eu hunain na ddynion Oherwydd ar gyfartaledd mae merched yn byw yn hirach na dynion ac maent fel arfer yn priodi dynion sydd yn hyn na nhw.

Hyd yn oed wrth fyw ar eu pen eu hunain, mae'r mwyafrif o bobl oedrannus mewn cysylltiad cyson a'u teuluoedd yn enwedig eu plant. Mae genedigaeth wyrion a wyresau yn cynyddu'r nifer o weithiau maent mewn cysylltiad â'i gilydd. Mae pobl oedrannus sydd wedi eu halltudio o'u teuluoedd fel arfer heb blant.

Dengys ymchwil fod llawer o bobl oedrannus yn annibynnol ac yn benderfynol o gynnal eu hunain. Er hyn maent yn mynd yn wan ac mae eu partner neu blant yn rhoi cefnogaeth iddynt. Mae rhan fwyaf o bobl dal i fyw yn eithaf agos at o leiaf un o'u plant.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

Mewn blynyddoedd diweddar, mae ychydig o dystiolaeth fod gostyngiad mewn cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng pobl oedrannus a'u plant sydd yn oedolion. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn pellter rhwng teuluoedd. Er hynny mae llawer dal i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd drwy gyfathrebu dros y ffôn a drwy e-bost.

Strwythur teuluol poblogaeth oedrannus.

Gyda phoblogaeth oedrannus mae teuluoedd yn tueddu i fynd yn hirach ac yn deneuach. Gyda llai o blant yn cael eu geni, mae llai o frodyr, chwiorydd a chyfnitherod neu gefndryd. Yn yr ystyr hwn, mae teuluoedd yn deneuach, nid ydynt wedi eu lledaenu cymaint yn llorweddol. Gyda oes bywyd yn cynyddu mae teuluoedd yn mynd yn hirach maent yn cynnwys tair neu bedair cenhedlaeth. Y canlyniad i hyn yw teulu a elwir yn deulu polynffa.

Mae ymchwil yn yr Iseldiroedd wedi darganfod fod 54.6% o bobl oedrannus yn deidiau neu neiniau, ac yn perthyn i deuluoedd tair cenhedlaeth. Roedd 17.8% yn hen neiniau a theidiau ac yn perthyn i deuluoedd pedair cenhedlaeth. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y genedigaethau a'r cynnydd mewn disgwyliad oes yn arwain at gynnydd yn y teuluoedd polynffa. Mae hyn yn enghraifft bellach o amrywiaeth teuluol.

### Cwestiynau

1. Beth mae ymchwil yn ei ddangos am fywydau pobl oedrannus?
2. Sut mae bywydau pobl oedrannus yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau?

### Allweddeiriau

- oedrannus hen - pobl hen iawn sy'n dibynnu ar eraill er mwyn cael bywyd o safon foddhaol.
- oedrannus - pobl dros 65. Efallai bod ganddynt iechyd da, yn cynnal eu teuloedd neu mewn gwaith.

## Teuluoedd ôl-fodern

### Bwledi

- Mae nifer o gymdeithasegwyr yn dadlau dros fodolaeth y 'teulu ôl-fodern'.
- Mae pobl sydd yn gwrthod patrymau bywyd traddodiadol yn ail-addasu perthnasau i siwtio eu hanghenion personol eu hunain.
- Mae mwy o bobl yn aros yn sengl.
- Mae nifer cynyddol o bobl yn byw ar eu pennau eu hunain.
- Mae mwy o ferched yn ddi-blant.
- Mae mwy o gyplau hoyw.

### Testun

Mae mwy a mwy o bobl yn gohirio cael eu teuluoedd eu hunain; mae rhai yn dewis aros yn sengl neu yn ddi-blant. Mae hyn wedi arwain rhai cymdeithasegwyr ( e.e. Stacey 1990 ) i ddadlau dros fodolaeth y 'teulu ôl-fodern' ('post-modern family'). Mae hyn oherwydd nad yw teuluoedd na gender yn dilyn patrymau disgybledig a disgwyliedig cymdeithas. Mae

© CBAC / WJEC 2015

patrymau bywyd traddodiadol yn cael eu gwrthod a perthnasau yn cael eu ail-addasu i siwtio anghenion personol.

Mae rhai pobl nad ydynt byth yn priodi. Maent yn dewis aros yn sengl neu yn methu darganfod partner addas. Mae niferoedd y bobl sydd heb briodi yn cynyddu e.e. o'r merched a gafodd eu geni yn Lloegr a Chymru rhwng 1946 a 1950, dim ond 7% oedd heb briodi yn 32 oed, o'u cymharu a 28% o'r rhai a gafodd eu geni rhwng 1961 a 1965. Mae patrwm tebyg i ddynion hefyd. Fel y gwyddwch yn barod mae nifer o bobl sydd heb briodi yn cyd-fyw - maent yn byw gyda phartner fel cwpwl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae yna gynnydd cyson wedi bod yn nifer y bobl sydd yn cyd-fyw, fel y gwelwn yn y rhan nesaf Mae cynnydd cyson wdi bod mewn sengldod hefyd - byw heb bartner.

Mae nifer cynyddol o bobl yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r cynnydd mwyaf yn y grwp oedran
25 - 29 yn nosbarth cymdeithasol 1 - pobl mewn galwedigaethau proffesiynol, yn arbennig merched.
Yn Lloegr a Chymru yn 1971, 6% o'r grwp hyn oedd yn byw ar eu pennau eu hunain, erbyn 1991 roedd bron i 20%. Yn 1991, roedd 90% o'r grwp oedran dan 30 oedd yn byw ar eu pennau eu hunain, heb briodi, dros 50% o'r grwp oedran 30 - 39, a 30% o'r grwp oedran 40 - 59. Mewn nifer o achosion, dewis personol oedd hyn ( Hall et al 1999 ).

Mae merched yn dewis byw ar eu pennau eu hunain oherwydd eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae cyfleoedd newydd mewn addysg a chyflogaeth yn ystod y degawdau diwethaf yn golygu bod yna drydydd dewis i ferched heblaw priodi neu gofalu am eu rhieni hŷn. Mae gan ferched sengl mwy o rwydweithiau cymdeithasol ac maent yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cymdeithasol. Fodd bynnag nid yw tystiolaeth yn awgrymu fod profiad ddynion yn debyg, maent yn tueddu i fod yn unig ac ynysig. (Scase 2000).

Yn y gorffennol roedd bod yn sengl yn statws negyddol, yn arbennig i ferched. Heddiw mae pethau'n newid, defnyddir y term 'sengldod creadigol' i ddisgrifio sengldod fel rhywbeth positif, lle mae pobl yn dewis aros yn sengl, maent yn pwysleisio pwysigrwydd annibynniaeth a rhyddid.

Mae agweddau tuag at ferched di-blant hefyd wedi newid.Mae merched sydd yn dewis peidio cael plant yn gweld eu hunain yn 'rhydd o blant' - maent yn pwysleisio rhyddid oddi wrth blant yn hytrach na cholled.

Rhan o'r eglurhad am ostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw oherwydd y cynnydd mewn merched di-blant. Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn merched di-blant ers y 1950au yn ddewisol. Mae bod yn anwirfoddol ddi-blant yn effeithio ar rhwng 5% a 8% o gyplau - nid oes rheswm i feddwl bod hyn yn cynyddu ( Coleman a Chandola 1999 ).

Mae ymchwilwyr yn aml yn cyfeirio at gyfleoedd addysgol a chyfraniad cynyddol merched ym myd gwaith fel rhesymau dros y dirywiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb. Mae rhai ymchwilwyr yn honni bod cynnydd wedi bod yn y pwyslais ar ryddid unigolyn yn y blynyddoedd diwethaf, ar hawl yr unigolyn i ddewis, ac ar foddhad personol. Canlyniad hyn yw bod pobl yn fwy awyddus i greu eu patrwm bywyd eu hunain.
Yn 1967 daeth yn gyfreithiol i gyplau hoyw gyd-fyw gyda'i gilydd. Erbyn 2005 daeth

© CBAC / WJEC 2015

Partneriaeth Sifil yn gyfreithlon gan gynnig llawer o hawliau pobl priod i gyplau o'r un rhyw.

Yn y strwythur cymdeithasol a gwleidyddol presennol, mae yn fwy derbyniol i gyplau hoyw fyw gyda'i gilydd yn agored, ac mae nifer yn gwneud hynny, fel cyplau neu fel teuluoedd. Fe welir oddiwrth nifer o gyfweliadau manwl a gynhaliwyd yng nghanol y 1990au, bod nifer o hoywon a lesbiaid yn datblygu ffyrdd newydd o ddeall y syniad o deulu ( Weeks et al 1999 ). Mae nifer yn credu eu bod yn dewis aelodau eu teulu eu hunain ac yn creu eu teuluoedd eu hunain. Mae'r teuluoedd hyn yn seiliedig ar bartneriaethau, ffrindiau agos a'u teuluoedd eu hunain. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnig cefnogaeth,cariad a synnwyr hunaniaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae yna nifer cynyddol o hoywon a lesbiaid wedi ffurfio cartrefi yn seiliedig ar bartneriaeth o'r un rhyw. Mewn gwirionedd mae partneriaethau o'r un rhyw yn dueddol o fod yn fwy democrataidd na phartneriaethau heterorywiol. Mae cyplau hoyw a lesbaidd yn tueddu i gael perthynas sydd yn fwy seiliedig ar drafodaethau a chyfartaledd. ( Weeks et al 1999a).

Yn y DU, roedd y llwybr mabwysiadu wedi cau tan 2002 pan basiwyd Deddf yn y Senedd yn ei wneud yn gyfreithlon i hoywon a lesbiaid fabwysiadu plant.

### Cwestiynau

1. Beth yw ystyr teulu ôl-fodern?
2. Pa fathau o batrymau teuluol a ellir eu galw'n ôl-fodern?

### Allweddeiriau

- ôl-foderniaeth: yn ôl rhai cymdeithasegwyr rydym yn byw mewn cymdeithas ôl fodern. Cymdeithas sy'n cael ei ddylanwadu gan y cyfryngau, delweddau, cyfle a dewis.
- Gender: disgwyliadau ymddygiad a osoda cymdeithas ar ddynion a merched.
- Sengldod Creadigol: dewis bod yn sengl
- Cyfradd ffrwythlondeb: y nifer o enedigaethau i bob 1,000 o ferched 15-44 oed.
- Democratiaeth: tegwch a chyfartaledd.
- Mabwysiadu: rhieni cyfreithiol yn hytrach na naturiol plentyn.

## Pam y mae newidiadau'n digwydd o fewn teuluoedd?

### Cyflwyniad

### Bwledi

- Mae cymdeithas yn newid yn gyson.
- Er mwyn deall pam mae ein cymdeithas ni heddiw fel y mae, mae angen i ni ddeall sut roedd pethau yn y gorffennol.
- Mae rhai pobl yn credu bod newidiadau mewn teuluoedd wedi creu newidiadau cymdeithasol.

- Mae'n debygol fod newidiadau mewn cymdeithas hefyd wedi effeithio ar sut mae pobl yn creu teuluoedd.
- Nid oes unrhyw bwynt mewn amser lle gallwn ddweud i sicrwydd bod hanes yn diweddu a chymdeithaseg yn cychwyn, ond mae yna rai dyddiadau sy'n nodi newidiadau cymdeithasol pwysig.

## Testun

O ganlyniad i'r holl astudiaethau a wnaed ym maes cymdeithaseg, mae'n amlwg bod newidiadau'n digwydd o fewn teuluoedd. Mae llai o blant yn cael eu geni, a mwy o bobl yn dewis peidio â phriodi - a phan maent yn priodi nid ydynt bob amser yn dilyn y patrwm traddodiadol o ŵr yn mynd allan i weithio a gwraig yn aros gartref. Mae pobl yn byw'n hirach, ac yn mwynhau gwell iechyd yn eu henaint. Bydd y newidiadau hyn yn sicr o gael effaith ar ein cymdeithas ac ar ein dulliau o drefnu ein bywydau. Mae'n bwysig deall y gall rhai newidiadau yn y teulu fod o ganlyniad i newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas. Gall newidiadau cymdeithasol effeithio ar fywyd teuluol.

Mae'r ddadl hon yn bwysicach nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf; mae cymdeithasegwyr ac ysgrifenwyr y Dde Newydd/New Right yn honni bod y cynnydd yn y gyfradd droseddu i'w briodoli i newidiadau teuluol ac, o'r herwydd, mai newidiadau teuluol sy'n achosi newidiadau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhywbeth mwy cymhleth na hynny'n digwydd. Beth petai newidiadau teuluol a newidiadau yn y gyfradd droseddu'n cael eu hachosi gan ryw ffactor gymdeithasol arall nad ydym eto wedi ei deall? Dylai cymdeithasegwyr fod yn agored i'r posibilrwydd y gall newidiadau i gymdeithas gael effaith fwy pellgyrhaeddol ar ein bywydau nag yr ydym yn ei deall.

Nid oes unrhyw bwynt mewn amser lle gallwn ddweud "mae cymdeithaseg yn cychwyn yn y fan yma". Mae yna, fodd bynnag, rai dyddiadau neu gyfnodau allweddol sy'n bwysig oherwydd eu bod yn nodi man cychwyn newidiadau diwylliannol mawr ym Mhrydain. I bwrpas manyleb Lefel A, y cyntaf o'r rhain yw 1945. Dyma pryd y daeth yr Ail Ryfel Byd i ben ac y gwelwyd sefydlu system y Wladwriaeth Les oedd yn cynnwys gofal iechyd rhad ac am ddim, taliadau nawdd cymdeithasol, a datblygu'r systemau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Yr ail ddyddiad pwysig yw 1979, pan etholwyd Margaret Thatcher yn brif weinidog Ceidwadol ar Brydain. Dyma pryd y daeth polisïau'r Dde Newydd yn bwysig. Etholwyd Llafur Newydd yn 1997, ond gwelwyd llai o effaith ar gymdeithas.

## Cwestiynau

1. Awgrymwch ddau ddyddiad allweddol pan ddechreuwyd gweld newidiadau mawr mewn cymdeithas.
2. Pam y byddai cymdeithas yn newid yn sylweddol ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd?
3. Pam y dylem ni astudio newidiadau cymdeithasol?

## Allweddeiriau

- Y Dde Newydd/New Right - safbwynt gwleidyddol a gysylltir â Margaret Thatcher a Llywodraethau Ceidwadol yr 1980au. Roedd yn credu bod cystadleuaeth yn beth da i gymdeithas, ac mai budd-daliadau lles oedd yn gwneud pobl yn dlawd.

© CBAC / WJEC 2015

- Y Wladwriaeth Les - y system sy'n bodoli ym Mhrydain i ofalu am bobl: y Gwasanaeth Iechyd, y System Budd-daliadau, y Gwasanaeth Addysg, y gwasanaethau Argyfwng, ac yn y blaen.

## Y Wladwriaeth Les

### Bwledi

- Roedd gwasanaethau iechyd cyn 1945 yn wael iawn.
- Mae disgwyliad oes ac iechyd wedi gwella er 1945.
- Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r wladwriaeth les.

### Testun

Er bod yna wasanaethau iechyd ar gael cyn yr Ail Ryfel Byd, telid amdanynt yn breifat neu drwy gynlluniau yswiriant preifat. Nid oedd gan y bobl dlotaf hawl awtomatig i weld meddyg neu ddeintydd, a byddai pobl yn marw o ddiffyg gofal meddygol sylfaenol. Yn ystod yr 1920au a'r 1930au cafwyd dadleuon maith ynghylch yr annhegwch hwn. Yn ystod yr 1940au cynnar, cymerodd Prydain ran mewn rhyfel y bu bron iddi ei golli. Addawodd y Blaid Lafur, pan ddeuai'r rhyfel i ben, y byddent yn creu gwell cymdeithas i bawb - un a fyddai'n gwneud synnwyr o'r holl frwydro. Byddai'r milwyr yn dod adref i swyddi, cartrefi, cyfleoedd mewn addysg, gwasanaeth iechyd a safon byw da.

Arweiniodd yr addewid hon at fuddugoliaeth ysgubol i'r Blaid Lafur yn etholiad 1945, ar waetha'r ffaith mai Winston Churchill, Prif Weinidog poblogaidd cyfnod y rhyfel, oedd arweinydd y Blaid Geidwadol. Gwelir y flwyddyn1945, felly, fel trobwynt yn hanes cymdeithas ym Mhrydain oherwydd mai dyna pryd y daeth llawer o'r pethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol heddiw i fodolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gofal iechyd yn rhad ac am ddim, budd-daliadau lles, addysg uwchradd a chymorth gan y wladwriaeth i hybu swyddi.

Yn 1945, pan dalwyd pensiynau henoed am y tro cyntaf i bobl dros 65 oed, y disgwyliad oes cyfartalog bryd hynny oedd 65.9. Yn 2000, y disgwyliad oes cyfartalog i ddynion oedd dros 75, ac i ferched roedd yn nes at 80. Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol, felly mae pobl gyfoethog yn byw 7 mlynedd yn hwy, ar gyfartaledd, na phobl dlawd. Mae rhai o'r rhesymau dros y cynnydd mewn disgwyliad oes yn cynnwys: brechu plant yn erbyn clefydau marwol, sgrinio ar gyfer rhai mathau o gancr a chlefydau marwol, a gofal iechyd yn ystod beichiogrwydd ac yn union ar ôl geni plentyn. Er nad datblygiad y wladwriaeth les yw'r unig ffactor i newid bywydau pobl Prydain oddi ar yr Ail Ryfel Byd, does dim amheuaeth ei fod wedi cael effaith fawr.

Arweiniodd y safbwynt y dylai'r llywodraeth ofalu am y boblogaeth - safbwynt sy'n rhan o athroniaeth y wladwriaeth les - at chwalu hen gartrefi anaddas, ac adeiladwyd tai cyngor i'w gosod ar rent i bobl dlawd. Adeiladwyd y tai hyn i gynnwys cyfleusterau megis dŵr tap a thoiled dan dô. Gwelwyd gwelliant yn iechyd y boblogaeth o ganlyniad i fyw mewn tai gwell. Cyn y rhyfel, byddai pobl dlawd yn cael eu hanfon i lefydd annymunol o'r enw tlotai. Caewyd y rhain, neu eu hadnewyddu a'u hailagor fel ysbytai, a thalwyd pensiynau i'r henoed. Cafodd yr holl newidiadau hyn effaith bellgyrhaeddol ar gymdeithas a bywyd teuluol ym Mhrydain.

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Beth yw'r wladwriaeth les?
2. Pam bod y wladwriaeth les yn bwysig i'r ymdrech ryfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd?
3. Pa effeithiau pwysig a gafodd y wladwriaeth les ar iechyd pobl ym Mhrydain?

### Allweddeiriau

- Disgwyliad oes - oedran marw cyfartalog pobl, yn ôl pob mil o'r boblogaeth, yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad geni.

## Technoleg feddygol a'r teulu

### Bwledi

- Mae newidiadau meddygol wedi effeithio ar ein disgwyliad oes. Caiff pobl eu diogelu rhag dal clefydau marwol yn ystod eu plentyndod, ac mae oedolion yn goroesi clefydau marwol.
- Mae merched bellach yn rheoli dulliau atal cenhedlu.
- Mae merched yn defnyddio dulliau atal cenhedlu, felly mae teuluoedd yn llai ac mae llawer yn dewis bod yn ddi-blant.
- Mae atal cenhedlu wedi dileu'r cysylltiad rhwng priodas a rhywioldeb, felly mae agweddau tuag at y teulu a phlant wedi newid.

### Testun

Un o effeithiau mwyaf positif y wladwriaeth les yw'r ffaith bod iechyd pobl Prydain bellach yn well o lawer. Fodd bynnag, mae yna oblygiadau eilaidd hefyd. Mae poblogaeth Prydain bellach yn byw yn hŷn; tynnodd Age Concern (2005) sylw at y ffaith bod yna bellach fwy nag 11 miliwn o bobl o oedran derbyn pensiwn ym Mhrydain. Mae hyn yn cyfrif am bron i 20% o'r boblogaeth. Erbyn canol y ganrif hon, bydd mwy nag 11,000 o bobl dros 100 oed. Mae Hoff, o Brifysgol Rhydychen, wedi nodi y gellid edrych ar hyn mewn ffordd bositif neu negyddol. Mae llawer o bobl sydd mewn gwth o oedran yn fusgrell, ac angen gofal gan berthnasau sydd, o bosib, yn hen eu hunain. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o ferched yn gallu mynd allan i weithio oherwydd eu bod yn cael help gan eu rhieni eu hunain i ofalu am y plant.

Mae un newid pwysig arall mewn teuluoedd, a grëwyd yn sgil newidiadau mewn gofal meddygol a thechnoleg feddygol, yn gysylltiedig â'r bilsen atal cenhedlu. Roedd y bilsen ar gael am y tro cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol yn 1961, a bu ei heffaith ar deuluoedd yn aruthrol. Mae condomau wedi bod ar gael ers canrifoedd. Byddai dynion yn eu defnyddio i'w hamddiffyn rhag clefydau rhywiol yn hytrach nag i reoli beichiogrwydd. Y bilsen roddodd y gallu i ferched reoli eu teuluoedd. Gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau, a chododd cyfartaledd oedran y beichiogrwydd cyntaf i 27.4 yn 2004 o gyfartaledd o 25 oed yn yr 1950au. Mae Nwandison a Bewley (2006) yn nodi bod cyfartaledd oedran merched beichiog wedi codi, a'r nifer o blant a enir i bob merch wedi disgyn. Mae'n anodd gorbwysleisio effaith dull da o atal cenhedlu ar rôl merched yn y teulu neu mewn cymdeithas.

Tynnodd Anthony Giddens sylw at y ffaith fod diffyg cydraddoldeb rhwng dynion a

© CBAC / WJEC 2015

merched, ym mhob diwylliant bron iawn, yn rhan hanfodol o'r teulu traddodiadol. I ferched, roedd cyfathrach rywiol yn gysylltiedig â beichiogrwydd. Erbyn hyn, mae cyfathrach rywiol wedi'i gwahanu oddi wrth genhedlu plant, a gall merched ymddwyn yn rhywiol dan yr un amodau â dynion. Erbyn hyn, mae llawer o ferched yn gallu dewis pa un i genhedlu plant ai peidio, ac nid yw priodas bellach yn hanfodol. Caiff mwy na 33% o blant eu geni y tu allan i briodas gyfreithlon, ac yn y Gorllewin mae 25% o ferched yn parhau'n ddi-blant. O ganlyniad, mae natur priodas ei hun wedi newid, ac mae ein hagweddau tuag at blant wedi newid yn ogystal. Wrth i ni gael llai o blant, rydym yn buddsoddi mwy yn eu gofal a'u magwraeth.

### Cwestiynau

1. Beth yw manteision ac anfanteision poblogaeth sy'n heneiddio?
2. Pa nodweddion sy'n perthyn i deuluoedd traddodiadol all achosi diffyg cydraddoldeb rhwng y ddau ryw?
3. Pa effaith mae atal cenhedlu wedi'i gael ar strwythur teuluol a bywyd teuluol?

### Allweddeiriau

- Atal cenhedlu - dulliau a ddefnyddir i rwystro beichiogrwydd a geni plant.

## Y newid yn rôl merched mewn cymdeithas

### Bwledi

- Yn yr 1850au, ychydig iawn o hawliau cyfreithiol oedd gan ferched. Caent eu hystyried fel eiddo dynion.
- Mae merched wedi bod yn herio'r safbwyntiau hyn drwy gyfrwng ffeministiaeth.
- Cafwyd llawer o newidiadau cyfreithiol i amddiffyn merched, ac erbyn hyn cynhwysir dynion a phobl drawsrywiol.
- Gellid cwestiynu effeithiolrwydd y deddfau hyn; mae merched yn parhau i ennill llai na dynion. Mae yna beth ffordd i fynd eto ar hyd y llwybr i sicrhau cydraddoldeb llawn.

### Testun

Mae yna resymau eraill, heblaw am eu gallu i reoli eu ffrwythlondeb eu hunain, pam y mae rôl merched yn y teulu wedi newid. Mae a wnelo'r rhain â symudiadau cymdeithasol a gwleidyddol tymor-hir sydd wedi bod yn digwydd mewn cymdeithas; yn fwyaf arbennig y ffaith bod ffeministiaeth a chydraddoldeb i ferched bellach yn dderbyniol. Mae'n bwysig nodi bod newidiadau o ran rôl merched mewn cymdeithas wedi cael effaith ar rôl dynion, felly efallai ei bod yn bwysicach i feddwl yn nhermau newidiadau rhyw.

Lai na 150 o flynyddoedd yn ôl ym Mhrydain, ychydig iawn o hawliau oedd gan ferched. Ni allent bleidleisio, bod yn berchen ar eiddo na chael gorchymyn gwarchodaeth gyfreithiol dros eu plant pe bai'r teulu'n chwalu. Roedd yn anodd iawn i ferched ysgaru eu gwŷr, hyd yn oed pe baent yn cael eu cam-drin yn barhaus ac yn gyhoeddus. Nid châi merched dderbyn addysg, a'r gred gyffredinol oedd y byddai gormod o addysg yn eu gwneud yn anffrwythlon. Mae rhai o'r agweddau hyn yn parhau hyd heddiw ym Mhrydain ac felly, yn 1954, dywedir i Gadlywydd Hatherill o Scotland Yard ddatgan, 'Mae tua 20 llofruddiaeth y

© CBAC / WJEC 2015

flwyddyn yn digwydd yn Llundain, a llawer ohonynt heb fod yn ddifrifol o gwbl. Dim ond gwŷr yn lladd eu gwragedd yw rhai ohonynt.' Roedd trais rhywiol o fewn priodas yn gyfreithlon hyd yr 1990au! Nid oedd modd i ferched priod agor cyfrif banc neu gael credyd yn eu henwau eu hunain tan yr 1970au hwyr.

Fodd bynnag, gwelwyd newidiadau dramatig ym mywyd merched o ganlyniad i weithredu egnïol yn y meysydd gwleidyddol a chymdeithasol. Cyn troad yr G20 roedd merched yn hawlio cydraddoldeb â dynion ac yn gweithio tuag at newid eu statws dan y gyfraith. Gelwid hyn 'y don gyntaf o ffeministiaeth', a'r prif gonsýrn oedd yr hawl i bleidleisio. Digwyddodd yr ail don o ffeministiaeth yn yr 1960au a'r 1970au, ac erbyn hynny roedd y maes yn ehangach. Roedd merched yn mynnu nid yn unig cydraddoldeb gwleidyddol, ond cydraddoldeb cymdeithasol yn ogystal. Bu peth adwaith yn erbyn ffeministiaeth yn yr 1980au, felly cafwyd trydedd don yn yr 1990au; roedd honno'n ymwneud â gwleidyddiaeth rhyw a chenedligrwydd. Er bod llawer o ferched, o bosib, yn gwrthod y term 'ffeminydd' i'w disgrifio'u hunain, mae'n amlwg eu bod hefyd yn derbyn rhai o'r delfrydau sy'n perthyn i ffeministiaeth.

Ym Mhrydain, mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail rhyw gan gyfres o ddeddfau a ddechreuodd gyda deddfau cydraddoldeb rhywiol yn yr 1970au ym meysydd cyflog ac amodau gwaith. O 2007 ymlaen, ehangwyd y syniad o gydraddoldeb rhwng y rhywiau i gynnwys dynion a phobl trawsrywiol. Heriwyd effeithiolrwydd y deddfau cydraddoldeb; ar gyfartaledd, mae merched yn parhau i ennill dim ond 80% o gyflogau dynion. Er hynny, rhoddwyd cefnogaeth i'r deddfau gan wahanol ymgyrchoedd, comisiynau'r llywodraeth a newid cyffredinol yn agwedd llawer o bobl, yn cynnwys merched eu hunain, tuag at alluoedd a dyheadau merched. Mae'n llawer llai derbyniol nawr nag yr oedd yn yr 1950au i fynegi agweddau negyddol tuag at ferched. Mae hyn wedi peri i lawer o ferched deimlo'n ddigon hyderus i herio'r safbwynt mai yn y cartref y mae eu lle hwy, nid yn y gweithlu neu mewn gwleidyddiaeth.

### Cwestiynau

1. Beth oedd y tair ton o ffeministiaeth?
2. Pa mor effeithiol y bu ymgyrchoedd ffeministiaeth yn y dasg o newid rôl merched?

### Allweddeiriau

- Trawsrywiol - pobl a enir i un rhyw fiolegol ond sy'n dewis byw eu bywydau fel rhan o'r rhyw fiolegol arall.
- Ffeministiaeth - y safbwynt bod cymdeithas yn cael ei dominyddu gan ddynion, ac y dylid herio hynny.
- Adwaith - ymateb negyddol a beirniadol yn erbyn rhywbeth.

## Strwythurau teuluol ôl-ddiwydiannol

### Bwledi

- Cymdeithas ôl-ddiwydiannol yw Prydain. Mae ei heconomi'n dibynnu ar waith yn y sector gwasanaeth.
- Gwelwyd y boblogaeth yn symud i ffwrdd o ardaloedd diwydiannol yng nghanol y dinasoedd i stadau tai newydd ar y cyrion.

- Gwelwyd chwalu'r hen gymunedau dosbarth gweithiol, a datblygu teuluoedd newydd arwahanol.
- Mae'r symudiad hwn wedi arwain at ragor o newidiadau teuluol.

## Testun

Mae'r newidiadau i gymdeithas y soniwyd amdanynt eisoes wedi bod yn digwydd yng nghyd-destun cyfres o newidiadau llawer mwy sydd wedi effeithio ar bawb. Mae economi Prydain wedi bod yn newid o fod yn gymdeithas ddiwydiannol i fod yn gymdeithas ôl-ddiwydiannol. Hyd at yr Ail Ryfel Byd, neu ychydig cyn hynny, cyflogid y rhan fwyaf o bobl yn y gwaith o wneud a chynhyrchu nwyddau i'w hallforio. Disgrifir cymdeithas o'r math yma fel un ddiwydiannol. Roedd y math hwn o waith yn dibynnu ar nerth corfforol, felly cyflogid dynion i'w wneud. Cafwyd trawsnewidiad yn y dull o weithio, o weithgynhyrchu i waith yn y sector gwasanaeth. Bellach nid yw pobl yn gwneud neu'n creu nwyddau, ond yn hytrach yn gwerthu gwasanaethau i bobl eraill. Mae'r math yma o waith yn tueddu i ddibynnu ar dechnoleg a sgiliau.

Cafodd y symudiad hwn o weithgynhyrchu i wasanaeth effaith bellgyrhaeddol ar ble rydym yn byw, ac ar ein systemau trafnidiaeth. Roedd pobl yn arfer byw yn agos at y ffatrïoedd, y dociau, y gorsafoedd trên, y pyllau glo a'r gweithfeydd dur lle roeddent yn gweithio. Dinistriwyd llawer o'r ardaloedd hyn yn y bomio adeg y rhyfel, ond cafodd eraill eu clirio oherwydd bod yr amodau byw yno mor wael. Mae'r ardaloedd hyn yng nghanol y dinasoedd yn parhau i fod yn llefydd lle mae'r bobl dlawd yn byw. Fel rhan o'r wladwriaeth les, adeiladwyd stadau o dai cyngor ar gyrion trefi newydd i bobl fyw ynddynt. Cafodd y broses hon effaith ar fywyd teuluol. Young a Willmott oedd awduron cyfres o astudiaethau - sef astudiaethau Bethnal Green - a wnaed yn yr 1950au a'r 1960au i astudio effaith y broses hon ar deuluoedd dosbarth gweithiol yn Llundain. Darganfuwyd fod teuluoedd estynedig, dosbarth gweithiol, yn cael eu chwalu a theuluoedd cnewyllol yn cymryd eu lle. Tynnodd ffeministiaid megis Gavron ac Oakley yn yr 1960au a'r 1970au sylw at ba mor unig ac ar wahân roedd merched yn teimlo yn yr unedau teuluol newydd hyn, ac nad oedd gwaith tŷ yn eu bodloni.

Arweiniodd hyn at fath newydd o deulu a ddynodwyd gan Goldthorpe a Lockwood yn eu hastudiaethau Gweithwyr Cefnog, - sef y teulu wedi ei breifateiddio. Roedd y patrwm newydd hwn o fywyd teuluol wedi'i ganoli ar y cartref. Gwelwyd newidiadau yn neinameg y berthynas rhwng parau priod, ac felly roedd dynion a merched yn disgwyl mwy o'u perthynas bersonol ag eraill. Gyda dyfodiad y teledu, cafwyd adloniant yn y cartref. Roedd cartrefi'n fwy cyfforddus ac yn llai gorlawn wrth i lai o blant gael eu geni ac i ragor o dai gael eu hadeiladu. Roedd dynion yn fwy tebygol o gynnig help gyda'r gwaith tŷ - neu, yn hytrach, roeddynt yn llai tebygol o deimlo cywilydd wrth gael eu gweld yn helpu. Tra bod yr holl bethau hyn yn digwydd o ganlyniad i newid cymdeithasol, daethant hefyd yn rhan o'r broses a arweiniodd at fwy o newid mewn teuluoedd a bywyd teuluol. Ymunodd llawer o'r merched - a ddynodwyd fel rhai a deimlai'n unig, ac wedi'u cadwyno i'r cartref, yn yr 1960au a'r 1970au cynnar - â'r farchnad swyddi fel ateb i'w problemau yn yr 1970au a'r 1980au.

## Cwestiynau

1. Pam y mae ar gymdeithasau diwydiannol angen dynion i weithio?

© CBAC / WJEC 2015

2. Pam y symudodd teuluoedd i ffwrdd o'r ardaloedd dinesig?
3. Beth ddysgodd ffeministiaid ynghylch effaith y newid hwn ar ferched?
4. Pa effaith gafodd y newidiadau ar berthnasau o fewn teuluoedd?

### Allweddeiriau

- Cymdeithas ddiwydiannol - wedi'i seilio ar weithgynhyrchu.
- Cymdeithas ôl-ddiwydiannol - wedi'i seilio ar ddarparu neu werthu gwasanaeth.
- Teulu wedi ei breifateiddio - teulu nad yw'n rhan o gymuned.
- Llafur domestig - gwaith tŷ.
- Gweithwyr cefnog - gweithwyr ar gyflogau uchel yn y diwydiant ceir, ffenomen oedd yn nodwedd o'r 1960au a'r 1970u cyn mecaneiddio'r diwydiant.

## Ffemineiddio gwaith

### Bwledi

- Mae yna ragor o ferched yn y gweithlu.
- Maent yn cymryd gwaith sy'n talu llai, a gwaith sy'n cynnig oriau hyblyg.
- Mae'r gallu i ennill arian ac i reoli eu ffrwythlondeb wedi rhoi rhyddid i ferched wneud penderfyniadau nad oeddynt yn agored iddynt flynyddoedd lawer yn ôl.
- Hyd yn hyn, nid yw merched yn gyfartal â dynion yn y farchnad gyflogaeth.
- Mae dynion heb sgiliau yn ei chael yn anodd iawn i ddod o hyd i waith.
- Mae hyn yn effeithio ar deuluoedd, gan nad yw merched bellach yn gorfod dibynnu ar ddynion am incwm.

### Testun

Awgrymir weithiau nad oedd merched dosbarth gweithiol yn gweithio y tu allan i'r cartref cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n bosibl mai myth yw hyn. Byddai merched dosbarth gweithiol yn dal swyddi fel glanhawyr, golchwyr dillad a chogyddion. Nid oeddynt yn rhan o'r gweithlu oedd yn talu treth incwm, felly ni wyddom i sicrwydd faint o ferched oedd yn gweithio, na pha fath o waith roeddent yn ei wneud. Byddai eu swyddi'n estyniad o'r mathau o bethau roeddent yn ei wneud yn y cartref. Ni châi ei ystyried yn dderbyniol i ferched dosbarth canol weithio ar ôl priodi. Disgwylid i ferched a addysgwyd fel athrawon neu nyrsys roi'r gorau i'w swyddi ar ôl priodi, hyd yn oed mor ddiweddar â'r 1960au.

Yn yr 1970au, roedd merched yn cael llai o blant, teimlent yn unig yn eu cartrefi, a gallent reoli eu ffrwythlondeb. Roedd syniadau ffeministiaeth yn dechrau cydio yn nychymyg y cyhoedd. Aeth llawer o ferched yn ôl i weithio. Y gwahaniaeth yn yr 1960au a'r 1970au oedd y nifer o ferched a gymerodd swyddi trethadwy mewn ffatrïoedd, swyddfeydd a siopau. Noder bod hyn yn digwydd ar yr un pryd â gostyngiad sydyn mewn swyddi i ddynion ym myd diwydiant, a chynnydd yn y nifer o ddynion di-waith. Arweiniodd hyn at broses a ddisgrifir fel ffemineiddio gwaith. Gellir cymryd hyn i olygu dau beth: mae yna ragor o ferched yn y gweithlu, a'r sgiliau mae ar gyflogwyr eu hangen yw'r sgiliau a gysylltir yn draddodiadol â merched.

Dangosodd Arolwg y Gweithlu yn 1971 mai merched oedd 37% o'r gweithlu, tra bod y ffigur yn yr 1990au hwyr yn nes at 46% o'r gweithlu. Tra bod 59% o ferched yn gweithio yn 1980, y ffigur yn 2000 oedd 70%. Fodd bynnag, mae dynion a merched yn tueddu i ddilyn

© CBAC / WJEC 2015

patrymau gwahanol yn eu gyrfaoedd. Mae nifer fawr o ferched yn gweithio mewn swyddi ysgrifenyddol, tra bod dynion yn fwy tebygol o fod yn rheolwyr neu'n fasnachwyr crefftus. Mae merched hefyd yn dewis swyddi sy'n cynnig oriau hyblyg, megis gofalu am eraill, neu waith rhan-amser a min nos. O'u cymharu â sefyllfa dynion di-grefft, mae mwy o bosibiliadau i ferched di-grefft mewn gwaith ysbeidiol megis llenwi silffoedd a gweithio ar y tiliau mewn siopau. Dengys yr Arolwg Cydraddoldeb (2007) mai'r Deyrnas Gyfunol yw'r trydydd uchaf o ran cyfradd cyflogi merched, ond yma hefyd y mae'r bwlch mwyaf yn Ewrop rhwng enillion dynion a merched. Mae'n bosib nad yw hyn i'w briodoli'n gyfan gwbl i ragfarn ac ecsploetiaeth. Cynigiodd Catherine Hakim (1995) y syniad o 'theori dewis rhesymol', gan ddweud bod merched yn gwneud dewisiadau o ran eu ffordd o fyw. Mae merched yn dewis swyddi sy'n talu llai ond sy'n cymryd eu ffordd o fyw i ystyriaeth.

Mae'n amlwg bod y newidiadau hyn mewn cyflogaeth i ferched wedi cael effaith ar deuluoedd, a'r patrwm cyflogaeth i rieni yn yr 1990au a'r 2000au yw naill ai teuluoedd dau-gyflog neu deuluoedd digyflog. Os yw merched yn mynd allan i weithio, nid oes arnynt angen dynion i ofalu amdanynt a thalu drostynt. Nid oes angen iddynt ystyried priodas fel gyrfa, yn yr un modd ag y gwnâi eu neiniau. Maent yn rhydd i ddewis sut i fyw eu bywydau ac mae llawer ohonynt yn dewis peidio â chael plant, i ysgaru partneriaid anfoddhaol, neu i beidio â phriodi o gwbl. Mae hyn yn digwydd ar yr un adeg ag y mae gwaith i ddynion yn prinhau; mae'r farchnad waith i ddynion di-grefft yn gyfyng iawn.

### Cwestiynau

1. Pam bod cyfraddau cyflogaeth i ferched yn isel yn yr 1950au a'r 1960au o'u cymharu â heddiw?
2. Pam nad oes llawer o gyfleoedd am waith i ddynion heb sgiliau?
3. Pa effaith mae merched yn gweithio wedi'i gael ar fywyd teuluol?

### Allweddeiriau

- Heb sgiliau - heb unrhyw gymwysterau addysgol ffurfiol.
- Ffemineiddio - dod yn fwy benywaidd.

## Newidiadau mewn agweddau cymdeithasol

### Bwledi

- Mae yna newidiadau enfawr mewn agweddau cymdeithasol sy'n effeithio ar deuluoedd.
- Mae yna newidiadau mewn moesoldeb rhywiol sy'n golygu nad yw geni plentyn y tu allan i briodas bellach yn anarferol.
- Mae yna newidiadau mewn patrymau gender traddodiadol.
- Ai'r newidiadau mewn agwedd oedd yn gyfrifol am ysgogi'r newidiadau mewn teuluoedd, neu ai dilyn ymlaen y maent oherwydd mai dyna mae pobl yn dewis ei wneud?

### Testun

Mae newidiadau yn strwythur a threfniadaeth teuluoedd ym Mhrydain wedi digwydd law yn llaw â newidiadau enfawr mewn agweddau cymdeithasol. Yn yr 1970au cafwyd

© CBAC / WJEC 2015

deddfwriaeth cydraddoldeb oedd yn gwneud gwahaniaethu yn erbyn merched a phobl o wahanol ethnigrwydd yn drosedd. Er bod llawer o bobl bellach yn dadlau bod y deddfau hyn yn wan, roeddynt yn cynrychioli dechrau newidiadau enfawr mewn agweddau cymdeithasol.

Un o'r newidiadau mwyaf hynod mewn moesoldeb cyhoeddus fu'r newid agwedd tuag at gael rhyw y tu allan i briodas. Er bod llawer o blant yn y gorffennol yn cael eu cenhedlu y tu allan i briodas, roedd llai yn cael eu geni i barau di-briod. Bellach mae'n gwbl dderbyniol i lawer o bobl bod cyplau'n cyd-fyw heb briodi. Mae hyn wedi ysgogi dadleuon cyhoeddus, ac mae gwleidyddion y Dde Newydd yn feirniadol o'r cynnydd yn y nifer o blant a enir i gyplau di-briod. Mae Hawkes (1996) yn nodi bod yna bellach foesoldeb rhywiol deuol, lle y disgwylir i ddynion fod yn weithredol yn rhywiol, tra disgwylir i ferched fod yn oddefol. Mae Giddens yn nodi bod patrymau teuluol traddodiadol yn ymwneud â rheoli merched a rhywioldeb benywaidd. Mae yna bryderon yn y gymdeithas fodern oherwydd bod rhai merched yn cael eu gweld fel bod yn barod i goleddu agweddau ymosodol traddodiadol dynion tuag at rywioldeb. Nid yr agweddau eu hunain sy'n cael eu gweld fel rhywbeth annerbyniol; yr hyn sydd wedi ysgogi dadleuon yw parodrwydd merched i fabwysiadu'r agweddau hynny.

Mae agweddau at rywedd yn faes arall o newid cymdeithasol. Mae syniadau traddodiadol am rywedd yn awgrymu bod dynion a merched yn wrthwynebus i'w gilydd. Awgrymodd Germaine Greer (1970) yn The Female Eunuch ei bod yn anodd i ferched wybod i sicrwydd beth oedd bod yn fenywaidd gan mai dynion sy'n diffinio benyweidd-dra. Aeth ymhellach trwy ddadlau bod dynion yn casáu merched ac, o'r herwydd, bod merched yn cael eu dysgu i'w casáu eu hunain. Roedd hwn yn llyfr hynod ddylanwadol, a gwerthwyd dau argraffiad ohono o fewn y flwyddyn gyntaf. Roedd yn rhan o duedd oedd yn annog dynion a merched i herio stereoteipiau rhywedd traddodiadol. Mae Judith Butler (1995) wedi bod yn feirniadol o ffeministiaeth. Heriodd y farn bod y ddau ryw yn gyferbyniol, ac awgrymu y gallwn bellach ddewis ble rydyn ni ar gontinwwm, fel bod rhywedd yn rhywbeth rydych yn ei wneud, nid pwy ydych chi. Yn sicr mae rhai achosion o herio patrymau rhywedd traddodiadol yn cael eu goddef, er ei bod yn parhau'n ansicr faint o sialens sy'n dderbyniol. Er enghraifft, mae cyfunrhywiaeth bellach yn gyfreithiol, ac yn dderbyniol yn y cyfryngau; mae modd i bâr o'r un rhyw briodi, ond mae 'hoyw' yn derm dilornus.

Mae yna gwestiwn sy'n codi o hyn y bydd yn rhaid i gymdeithasegwyr ei ateb. A wnaeth y newid mewn agweddau achosi newidiadau mewn teuluoedd, neu a wnaeth newidiadau mewn teuluoedd ganiatáu i newidiadau mewn agweddau ddilyn ymlaen? Er enghraifft, mae dynion heddiw fel arfer yn fwy parod i helpu gyda'r gwaith tŷ o'u cymharu â dynion 50 mlynedd yn ôl. Ai'r rheswm dros hyn yw eu bod yn credu mewn delfrydau ffeministaidd a chydraddoldeb i ferched, neu oherwydd bod eu partneriaid neu eu gwragedd bellach yn mynd allan i weithio, a'i bod yn bwysig i'r dynion wneud eu rhan?

## Cwestiynau

1. Beth oedd pwysigrwydd deddfwriaeth cydraddoldeb yr 1970au?
2. Pam fod agweddau tuag at gael rhyw y tu allan i briodas wedi newid?
3. Pa mor dderbyniol yw hi bellach i bobl herio patrymau rhywedd traddodiadol yn ein cymdeithas?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Eunuch - dyn sydd wedi cael tynnu ei organau rhywiol.
- Continwwm - newid graddol o un peth i'r llall.

# Pa fathau 'newydd' o deuluoedd a chartrefi sydd ym Mhrydain heddiw?

## Teuluoedd Un-Rhiant

### Bwledi

- Mae rhieni sengl wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf
- Mae y Mwyfafrif o deuluoedd un rhiant yn ffurfio oherwydd perthynas yn chwalu neu merched yn cael plant ond heb fod mewn perthynas sefydlog
- Mae dros 90% o rieni sengl yn ferched.

### Testun

Y diffiniad swyddogol o deulu un rhiant ydy - mam neu dad yn byw heb bartner, gyda'u plentyn neu blant dibynnol. Mae'r plentyn yn ddi-briod, o dan 16 oed, neu rhwng 16-19 oed ac mewn addysg llawn amser. (Haskey 2002 ). Ym Mhrydain, ers yr 1970au cynnar, mae teuluoedd un-rhiant wedi cynyddu,fel rhan o deuluoedd gyda phlant dibynnol, o 8% yn 1971 i 22% yn 2001.

Mae rhieni sengl yn grŵp eang. Gellir gweld hyn o'r ffordd maent yn dod yn rieni sengl. Mae sawl llwybr tuag at ddod yn riant sengl:

- Diwedd priodas un ai drwy wahanu neu drwy ysgariad (rhieni sengl wedi gwahanu neu wedi ysgaru)
- Diwedd cyd-fyw lle mae'r partneriaid yn gwahanu
- Genedigaeth i ferch sydd heb briodi na chyd-fyw
- Marwolaeth partner - e.e. gŵr yn marw gan adael gwraig gyda phlant dibynnol

Mae nifer o gyplau sydd wedi gwahanu neu wedi cael ysgariad yn ceisio rhannu'r cyfrifoldeb o fagu'r plant. Dyma yw cyd-fagu neu rhieni ar y cyd. Mae'n anodd gweld trefniadau o'r fath fel teuluoedd un-rhiant ( Neale & Smart 1997 ). Oherwydd y broblem hon mae rhai cymdeithasegwyr yn dadlau y byddai defnyddio'r term cartref un rhiant yn fwy addas. Mae hynny yn dweud yn syml nad yw'r 'rhiant absennol' yn rhan o'r cartref - h.y. ddim yn byw dan yr un tô (Crow & Hardy 1992).

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd un-rhiant yn cael eu rhedeg gan ferched - dros 90% yn 2001.
Mae teuluoedd un rhiant wedi cynnyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf o ganlyniad i:

- Mae rhan fawr o'r cynnydd rhwng 1971 a 1991 oherwydd ysgariad. Mae'r gyfradd ysgaru wedi cynyddu'n gyflym wedi 1971.
- Yn ystod yr un adeg roedd cyfradd priodasau yn gostwng yn raddol.
- Mae cyplau di-briod gyda phlant yn ddwywaith mwy tebygol o orffen eu perthynas na chyplau priod gyda phlant.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae mwy o ferched yn cael plant tu allan i berthynas sefydlog (priodi neu cyd-fyw).

Mae merched yn dewis yr opsiwn yma yn hytrach na chael erthyliad, mabwysiadu'r plentyn neu fyw gyda'r tad.

Nid yw bod yn riant sengl fel arfer yn ddewis cyntaf i fam neu tad sengl. Fe fyddai'r mwyafrif yn dewis magu eu plant gyda partner mewn perthynas sefydlog. Os ydy hyn yn methu, mae'r rhan fwyaf yn dewis bod yn rieni sengl. Mae ymchwil yn awgrymu fod bod yn riant sengl yn sefyllfa dros dro i nifer o rieni sengl (gweler nodiadau teuluoedd ail gyfansoddedig).

### Cwestiynau

1. Beth yw'r gwanhanol resymau dros ddod yn deulu un rhiant?
2. Pam fod teuluoedd un rhiant wedi cynnyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf.

### Allweddeiriau

- Teulu un rhiant - uned deuluol lle mae plant yn byw gyda un rhiant.
- Cyd-fagu - y ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb o fagu plant, ond ddim yn byw gyda'i gilydd.
- Ysgariad - diwedd gyfreithlon priodas.
- Cyd-fyw - cwpwl di-briod sy'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig.

## Safbwyntiau am Rieni Sengl

### Bwledi

- Mae'r Dde Newydd yn feirniadol iawn o deuluoedd un rhiant.
- Yn ôl ffeministiaid maent yn adlewyrchu annibynniaeth cynyddol merched.
- Mae Marcsiaid yn credu eu bod yn cael eu defnyddio fel bwch dihangol.

### Testun

Yn ôl y Dde Newydd, nid yw teuluoedd un rhiant yn darparu cymdeithasoli addas. Mewn teuluoedd mamau sengl, nid oes yna dad yn bresennol i ddisgyblu'r plant a bod yn fodel rôl gwrywaidd iddynt. Gall hyn arwain at dangyflawni yn yr ysgol, ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, o anghwrteisi i droseddu. Mae bechgyn yn tyfu i fyny heb ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau traddodiadol a dyletswyddau tad. Mae mamau sengl yn dod yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Nid oes gan eu plant esiamplau o ddisgyblaeth a chyfrifoldebau byd gwaith.

Ond os oes gan blant un-rhiant fwy o broblemau, efallai nad y ffaith eu bod o deulu un-rhiant sydd yn bennaf gyfrifol, ond yn hytrach oherwydd y tlodi mae llawer o rieni sengl yn cael profiad ohono ( Allan & Crow 2001 ). Mae'r Dde Newydd yn aml yn feirniadol iawn o famau yn eu harddegau. Ond dim ond tua 5% o rieni sengl sy'n arddegwyr.

O safbwynt ffeministaidd mae'r cynydd mewn mamau sengl yn dangos bod gan ferched y

© CBAC / WJEC 2015

rhyddid i ddewis.Yn hytrach nag edrych ar y teulu un-rhiant fel uned sy'n methu, mae rhai yn edrych arno fel ffurf arall i'r teulu lle mae merched yn rhydd oddi wrth ddominyddiad dyn, ac mae tystiolaeth i ddangos bod nifer o famau sengl yn croesawu yr annibynniaeth hwn a'r cyfle i gael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. (Graham 1987).

Yn ôl rhai Marcswyr mae rhieni sengl yn cael eu defnyddio fel bwch dihangol i gymryd y cyfrifoldeb am lawer o broblemau cymdeithasol e.e. trosedd.

### Cwestiynau

1. Nodwch ac eglurwch y prif wahaniaethau rhwng y prif safbwyntiau ar rieni sengl (unai ar ffurf tabl neu ar ffurf traethawd byr).

### Allweddeiriau

- Budd-daliadau - arian sy'n cael ei dderbyn gan y wladwriaeth i gynnal pobl sydd ddim yn gallu gynnal eu hunain.
- Ffeministiaeth - y farn fod cymdeithas yn batriarchaidd ac yn cael ei reoli gan ddynion.
- Marcsiaeth - y farn fod y drefn gymdeithasol yn bodoli eu mwyn cynnal cyfalafiaeth.
- Bwch Dihangol - rhoi y bai ar gam

## Teuluoedd Ail-Gyfansoddedig

### Bwledi

- Mae yna gynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o deuluoedd ail-gyfansoddedig. Yn 1998-99, roeddent yn ffurfio 6% o holl deuluoedd gyda phlant dibynnol ym Mhrydain. Yn ôl un amcangyfrif, erbyn 2010, byddent yn fwy o ran nifer na theuluoedd gyda dau riant biolegol. (Bedell 2002).
- Mae teuluoedd ail-gyfansoddedig yn grwp eang. Mae Parentline Plus,( sef y National Stepfamily Association gynt), wedi adnabod 72 gwahanol ffordd mae llys-deuluoedd yn cael eu ffurfio e.e. mae rhai yn cael eu ffurfio drwy briodas gyntaf, rhai drwy ail-briodas, a rhai drwy gyd-fyw. Ac unwaith maent wedi ffurfio, mae'r amrywiaeth hwn yn parhau e.e. mae gan rai plant berthynas agos a chyson gyda'u rhiant biolegol absennol, ond nid yw eraill yn eu gweld o gwbl.
- Mae plant yn dueddol o aros gyda'u mam ar ôl i bartneriaeth dorri i fyny. Mae bron i 9 allan o 10 o lys-deuluoedd yn cynnwys o leiaf un plentyn o berthynas flaenorol y partner benywaidd.

(Living in Britain 2002)

### Testun

Mae nifer uchel o rieni sengl yn ail-briodi ac yn ffurfio teuluoedd dau riant newydd. Yn ôl y 'General Household Survey' 1991, mae 80% o'r ddynion a 75% o'r merched sydd yn ysgaru cyn 35 oed yn ail briodi o fewn 10 mlynedd.

Yn 1991 roedd dros 33% o holl briodasau yn ail-briodasau lle oedd un neu y ddau bartner wedi cael ysgariad. Mewn priodasau o'r fath, roedd gan un neu y ddau riant blant yn barod. Ac mae nifer o gyplau sydd yn ail-briodi yn dymuno cael plant yn y briodas newydd. Mae'r teulu ail-gyfansoddedig (neu'r teulu wedi ei flendio) - teulu wedi ei greu o

rannau o gyn-deuluoedd - yn amrywiaeth arall o deulu sydd yn dod yn fwy cyffredin ym Mhrydain. Fe amcangyfrifir bod o leiaf chwech miliwn o bobl yn byw mewn teuluoedd o'r fath, gan gynnwys tua 10% o holl blant.

Fel teuluoedd un-rhiant, nid yw teuluoedd ail-gyfansoddedig yn rhywbeth newydd. Credai Peter Laslett (1965) bod tua 25% o holl briodasau yn Lloegr yn yr 17eg Ganrif yn ail-briodasau,er bod rhain oherwydd marwolaeth y gŵr neu'r wraig yn hytrach nag ysgariad.

Er ei bod hi'n anodd cyffredinoli am y rhai sy'n ail-briodi, mae nifer yn dadlau bod poblogrwydd ail-briodi yn dangos pwysigrwydd gwerthoedd teuluol ( neu o leiaf ideoleg teuluol ) i'r rhan fwyaf o bobl. Mae Gittins yn dadlau, i ferched gyda plant, mae ail-briodas yn ystyriaeth ariannol pwysig, ond mae Fletcher a Murdock yn dweud bod ail-briodi yn dystiolaeth o'r gwerth uchel rydym yn ei roi ar briodas a bywyd teuluol traddodiadol.

Mae'r patrwm hwn o'r cylch priodas, ysgariad ac ail-briodas weithiau yn cael ei ddisgrifio fel monogami cyfresol ('serial monogamy'), a dyma'r patrwm mae rhai fel Fletcher (1965) yn dweud sy'n dystiolaeth o ein ymrwymiad i'r teulu niwclear. Mae'r farn hon yn awgrymu er bod mwy o briodasau yn diweddu mewn ysgariad, mae'r teulu yn parhau i fod yn sefydliad pwysig.

Mae ail-briodas fel arfer yn cael ei ystyried y dewis gorau i blant rhieni sydd wedi ysgaru, dadleuir bod llys-rieni yn gallu cynnig teulu 'newydd' (ac o bosib estynedig) i'r plant hyn.

Serch hynny, mae adroddiad a gynhyrchwyd yn 1995 gan yr astudiaeth 'National Child Development Survey' yn awgrymu nad yw merched yn elwa o lys-rieni, bod mwy o blant o lys-deulu yn gadael ysgol yn 16 oed , yn gadael cartref yn 18 oed ar ôl ffrae deuluol, yn cael cymwysterau addysgol gwanach ac yn priodi yn ieuengach na rai o aelwydydd un-rhiant.

Mae astudiaeth Burgoyne a Clark (1984) o deuluoedd ail-gyfansoddedig yn awgrymu eu bod yn gwynebu nifer o broblemau nad yw teuluoedd eraill yn eu gwynebu. Er enghraifft nid oes gan deuluoedd ail-gyfansoddedig yr un ffiniau a theuluoedd eraill. Mae'r plant yn parhau i gael cysylltiad gyda'u rhieni gwaed a'u teuluoedd, ac mae rhieni yn gorfod trafod gyda cyn ŵr neu gyn wraig am wyliau, hawl i weld y plant ayyb.

Yn yr ystyr hwn nid yw'r teuluoedd hyn yn annibynnol fel teuluoedd eraill. Mae nifer o broblemau sydd gan deuluoedd ail-gyfansoddedig yn broblemau nad ydynt yn ffitio i deulu 'normal', ac felly mae nifer yn cael anawsterau i ffitio i ffyrdd ymddygiad teuluoedd niwclear confensiynol.

Efallai oherwydd pwysau o'r fath, mae'r raddfa ysgariad ymhlith y rhai sydd wedi cael ysgariad yn barod yn uwch nag ymhlith priodas gyntaf. Mae'n bosib nad yw cymdeithas eto wedi addasu i dderbyn bod ysgariad, rhieni sengl ac ail briodas yn rhan normal o'r cylch.

O'u cymharu â theuluoedd un-rhiant, ychydig yn unig o ymchwil, trafodaeth gyhoeddus neu bolisi llywodraeth sydd wedi bod tuag at deuluoedd ail-gyfansoddedig. Efallai bod hyn oherwydd eu bod yn tueddu i ddangos eu hunain fel teulu 'normal'. Neu efallai oherwydd eu bod yn cael eu gweld fel 'datrysiad' i'r 'broblem' o rieni sengl. ( Allan & Crow 2001 )

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Beth yw barn Fletcher am ail briodi?
2. Pa broblemau sy'n gwynebu rhai teuluoedd ail gyfansoddedig?

### Allweddeiriau

- Teulu ail gyfansoddedig - teulu sy'n cynnwys gweddwon neu rieni sydd wedi ysgaru sy'n ail-briodi a sydd â phlant o'r briodas flaenorol.
- Monogami cyfresol - proses o priodi, ysgaru ac yna ail briodi. Gall y broses ddigwydd sawl gwaith.

## Cartrefi Un-Person

### Bwledi

- Mae mwy a mwy o bobl yn byw ar ben eu hunain.
- Mae cartrefi un person yn amrywio yn ôl oed, gender, statws priodasol, lleoliad a galwedigaeth.
- Heddiw mae byw ar ben eich hun yn cael ei weld fel peth positif.

### Testun

Mae mwy a mwy o bobl yn byw ar eu pennau eu hunain mewn cartrefi un-person. Mae pobl o dan oed pensiwn yn ffurfio'r mwyafrif o gartrefi un-person. Pobl ifanc broffesiynol sydd yn ffurfio'r cartrefi un-person yn y dinasoedd mawr
Mae nifer cynyddol o bobl yn dewis byw ar eu pennau eu hunain.

Oed: mae'r rhan fwyaf o bobl yn dychmygu cartref un-person fel pobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain. Erbyn 2001, roedd pobl o dan oed pensiwn yn ffurfio'r mwyafrif o gartrefi un-person.
Mae'r cynnydd mwyaf yn y grwp oedran 25-29oed yn nosbarth cymdeithasol 1. Yn Lloegr a Chymru yn 1971, roedd 6% o'r grwp hwn yn byw eu hunain, yn 1991, roedd wedi cynyddu i ychydig o dan 20%.
(Hall et al 1999)

Gender: mae'r rhan fwyaf o bobl yn dychmygu aelwydydd un-person fel merched hyn yn byw ar eu pennau eu hunain. Fel gyda oedran, mae tystiolaeth o 1971 yn cefnogi hŷn. Ond erbyn 2000, dynion o dan 65 oed oedd yn ffurfio'r grŵp mwyaf o cartrefi un-person.

Statws Briodasol: O'r grŵp oedran dan 30 oed yn byw eu hunain, mae 90% heb briodi. O'r grŵp oedran dan 60 oed, mae nifer cynyddol o'r rhai sy'n byw eu hunain wedi cael ysgariad - 23% o'r grŵp oedran 30-39 a 36% o'r grŵp oedran 50-59. I'r grŵp oedran dros 60+, marwolaeth gwr/gwraig - fel arfer y gŵr - sydd yn gyfrifol am iddynt fod eu hunain - mae 73% o'r rhain yn weddwon.
(Hall et al. 1999).

Lleoliad a Galwedigaeth: Mae cartrefi un-person ieuengach fel arfer yn y dinasoedd mawr. Mae nifer ohonynt yn bobl ifanc proffesiynol sydd yn symud i'r dinasoedd i chwilio am

© CBAC / WJEC 2015

waith. O'r rhai ifanc proffesiynol sydd yn symud i Llundain, mae 62% o ddynion a 53% o ferched yn byw eu hunain. (Hall et al 1999)

Mae tri rheswm posibl pam fod pobl yn byw ar eu pennau eu hunain:

- I rai mae'n benderfyniad bwriadol lle maent eisiau byw ar eu pennau eu hunain.
- I eraill mae byw ar eu pennau eu hunain yn cael ei weld fel trefniant dros dro oherwydd amgylchiadau penodol.
- Ar gyfer eraill nid oes ganddynt ddewis.

Mae yna ostyngiad mewn priodasau a chynnydd yn y niferoedd o bobl sengl. Mae'r oedran y mae pobl yn priodi gyntaf wedi codi. Mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cartrefi un person. Dros y 30 mlynedd diwethaf mae yna gynnydd graddol wedi bod mewn swyddi proffesiynol a rheolaeth a hyn felly yn aml yn golygu fod yn rhaid i unigolyn newid lleoliad ac felly maent yn byw ar eu pennau eu hunain mewn ardal wahanol.

Mewn grwpiau oedran ifanc mae dynion yn fwy tebygol na merched o fyw ar eu pennau eu hunain. Yn gyffredinol mae dynion yn ennill mwy o arian na merched ac felly yn fwy tebygol o allu fforddio hyn. Wedi ysgariad mae merched yn fwy tebygol o fyw gyda'r plant. Gyda grwpiau oedran hŷn mae merched yn fwy tebygol o fyw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn bennaf fel canlyniad i farwolaeth eu partner.

Ar un cyfnod roedd pobl yn cydymdeimlo gyda'r rhai oedd yn byw ar eu pennau eu hunain. Heddiw, mae agweddau wedi newid mae llawer yn ei weld fel penderfyniad cadarnhaol. Mae llawer o bobl yn dewis yr opsiwn hwn gan eu bod yn gwerthfawrogi eu rhyddid a'u hannibyniaeth. Mae Jan Macvarish (2006) yn awgrymu 'there is an increasing acceptance of singleness ac an alternative lifestyle choice in which solo-living is viewed as an opportunity for self-development.'

Beth yw canlyniadau'r patrwm hwn?
Amcangyfrifir bod y cynnydd mewn cartrefi un person am barhau tan o leiaf 2021. Mae o amgylch 80% o gartrefi newydd sydd yn y Deyrnas Unedig yn gartrefi un person. Mae un amcangyfrif yn gosod y rhif hwn yn bedwar miliwn o gartrefi.

Gan gymharu â chartrefi gyda mwy nac un person, mae cartrefi un person yn defnyddio mwy o nwy, trydan a dŵr ar gyfer bob person. Maent yn cynhyrchu mwy o wastraff a mwy o nwyon tŷ gwydr. Ar yr ochr bositif, mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn dewis byw ar eu pennau eu hunain yn hapus ac yn teimlo eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir.

## Cwestiynau

1. Pwy sy mwyaf tebygol o fyw ar ben eu hunain?
2. Beth yw oblygiadau amgylcheddol y cynydd mewn cartrefi un person?

## Allweddeiriau

- Cartref un person - cartref gyda dim ond un person yn byw ynddo.
- Dosbarth cymdeithasol 1 - pobl mewn swyddi rheolaeth neu proffesiynol.

© CBAC / WJEC 2015

- Galwedigaeth - gwaith / proffesiwn.

## Teuluoedd Hoyw a Lesbaidd

### Bwledi

- Mae teuluoedd hoyw a lesbaidd wedi cynyddu yn ddiweddar.
- Maent wedi derbyn mwy o hawliau.
- Yn aml mae'r berthynas rhwng y cyplau yn gyfartal.

### Testun

Tan y 1990'au nid oedd llawer o ymchwil ar deuluoedd hoyw a lesbaidd. Dengys ymchwil Weeks et al (1990) o gyfweliadau manwl fod nifer o bobl hoyw a lesbaidd yn datblygu ffyrdd newydd o ddeall y syniad o deulu. Gwelodd y sampl fod ganddynt y rhyddid i ddewis aelodau eu teulu ac yn creu eu teuluoedd eu hunain. Mae'r teuluoedd hyn o ddewis yn seiliedig ar bartneriaethau, ffrindiau agos ac aelodau o'u teuluoedd gwreiddiol. Mae'r rhwydwaith hwn yn darparu cefnogaeth, perthnasau cariadlon a synnwyr hunaniaeth. Mae'n teimlo fel teulu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer cynyddol o hoywon a lesbiaid wedi ffurfio aelwydydd yn seiliedig ar bartneriaethau o'r un rhyw, ac mae nifer yn mynnu yr un hawliau a phartneriaethau heterorywiol. Dywed Weeks et al. Fod y partneriaethau o'r un rhyw yn tueddu i fod yn fwy cyfartal na phartneriaethau heterorywiol a fod hyn yn nodwedd bwysig wrth ffurfio perthynas o'r fath.

Rhieni O'r Un Rhyw

Mae nifer cynyddol o lesbiaid yn dewis cael plant a'u magu gyda phartner benywaidd. Mae nifer yn defnyddio semeniad artiffisial gyda sberm wedi ei roi gan ffrind neu roddwr anhysbys.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai'r hyn sydd yn bwysig yw'r berthynas rhiant-blentyn yn hytach na gogwydd rhywiol y rhieni.

Erbyn heddiw mae'r Gyfraith yn cydnabod perthynas dau berson o'r un rhyw.

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau o berthynas cwpl o'r un rhyw yn seiliedig ar gyfweliadau, ac felly o gofio nad yw pobl bob amser yn gwneud yr hyn maent yn dweud eu bod yn gwneud ac felly nid oes sicrwydd bod y dystiolaeth yn ddilys. Fodd bynnag, rhai o ganfyddiadau ymchwil o'r fath yw :

- Mae'r cyplau hyn yn pwysleisio cydraddoldeb, ac yn gweld materion fel rhaniad llafur domestig yn rhywbeth i'w drafod a negydu.
- Dywed un wraig mewn astudiaeth a wnaethpwyd gan Weeks et al. yn 1999 ei bod yn haws cael perthynas gyfartal os ydych o'r un rhyw. Mae'r pwyslais bob amser ar gydraddoldeb.
- Mewn astudiaeth a wnaethpwyd gan Gillian Dunne yn 1997 o 37 cwpl lesbiaid a oedd yn cyd-fyw, roedd y tasgau domestig yn cael eu rhannu'n gyfartal, ac os oedd

© CBAC / WJEC 2015

plant yn y berthynas, yna yn y rhan fwyaf o achosion roedd gofal plant yn cael ei rannu hefyd. Os oedd gan un ohonynt swydd lawn amser, roedd yn gwneud llai o waith tŷ na'i phartner.
- Dywed Gillian Dunne (1997) bod anghydraddoldebau gender yn y farchnad lafur yn dylanwadu ar anghydraddoldebau gender mewn perthnasau.Yn gyffredinol mae gan ddynion swyddi o statws uwch na'u partneriaid, ac mae hyn yn tueddu i ddylanwadu ar eu perthynas yn y cartref. Mae partneriaethau o'r un rhyw yn rhydd o gonfensiynau a normau cymdeithas, sydd fel arfer yn dylanwadu ar berthynas cwpl heterorywiol. Nid yw diwylliant yn dylanwadu cymaint arnynt. Mae ganddynt fwy o ryddid i greu eu patrwm teuluol eu hunain.

### Cwestiynau

1. Ymchwiliwch i hawliau teuluoedd hoyw a lesbaidd.
2. Beth a olygir gan deuluoedd o ddewis a sut mae'n berthnasol i deuluoedd hoyw a lesbiaidd?

### Allweddeiriau

- Hetrorywiol - perthynas rhwng dyn a menyw.
- Cydraddoldeb - rhannu cyfrifoldebau a dyletswyddau.

# Pa ffactorau sy’n effeithio ar ffurfio teuluoedd ac ar fywyd teuluol?

## Cyflwyniad

### Bwledi

- Mae teuluoedd yn unigryw i'r bobl sy'n eu ffurfio.
- Mae teuluoedd yn adlewyrchu patrymau cymdeithasol yn ymwneud â dosbarth, ethnigrwydd a lleoliad.

### Testun

Mae teuluoedd yn ein cymdeithas yn tueddu i ffurfio dros amser, ac am resymau sy'n berthnasol i'r unigolion sy'n ffurfio'r teuluoedd hynny. Maent yn unigryw i'r bobl sy'n ffurfio'r grwpiau.

Er hynny, mae'n amlwg hefyd bod patrymau o drefniadaeth gymdeithasol yn effeithio ar ffurfio teuluoedd yn ogystal, ac y mae a wnelo'r rhain â'r modd y caiff ein cymdeithas ei strwythuro a'i threfnu. Cyfeirir yn aml at y pwnc hwn fel amrywiaeth teuluol.

Gall ffurfiau teuluol gael eu heffeithio gan y canlynol:

- Dosbarth cymdeithasol
- Cefndir ethnig a diwylliannol

© CBAC / WJEC 2015

- Lleoliad (yr union fan daearyddol lle rydych chi'n byw).

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae pob teulu'n debyg i'w gilydd?

### Allweddeiriau

- Ethnig - ymdeimlad o'ch diwylliant a'ch hunaniaeth.
- Dosbarth - ymdeimlad o'ch safle mewn cymdeithas, yn seiliedig ar alwedigaeth, incwm a gwerthoedd.
- Lleoliad - yr union fan daearyddol lle rydych yn byw.

## Y teulu a dosbarth cymdeithasol

### Bwledi

- Mae dosbarth cymdeithasol yn cael dylanwad cryf ar gyfle mewn bywyd ac ar ffordd o fyw.
- Mae pobl ym Mhrydain fodern yn llai ymwybodol o ddosbarth cymdeithasol.
- Roedd astudiaethau cynnar ar deuluoedd yn awgrymu bod teuluoedd dosbarth canol yn gosod tueddiadau cymdeithasol i deuluoedd yn gyffredinol.
- Roeddent yn awgrymu bod dynion a merched yn dod yn fwy cyfartal mewn teuluoedd.

### Testun

Mae'r ffin rhwng dosbarthiadau cymdeithasol ym Mhrydain wedi pylu dros y blynyddoedd, ond mae yna wahaniaethau rhwng y dosbarthiadau ar sail eu cyfoeth a'r gwahaniaethau diwylliannol y gellir eu hadnabod. Mae yna hefyd wahaniaethau pwysig rhwng y dosbarthiadau yn nhermau eu heffaith ar addysg, iechyd a chyfle mewn bywyd.

Yn yr 1950au a'r 1960au roedd cymdeithasegwyr, wrth astudio teuluoedd ym Mhrydain, yn tueddu i edrych ar deuluoedd dosbarth gweithiol a'r modd roeddynt yn newid. Awgrymodd Elizabeth Bott (1957) bod dosbarth yn gysylltiedig â phennu perthnasau o fewn teuluoedd, gyda theuluoedd dosbarth gweithiol yn rhoi rolau gwahanol i wŷr a gwragedd. Honnodd fod teuluoedd dosbarth canol yn fwy tebygol o rannu rolau domestig. Bu Michael Young a Peter Willmott yn astudio teuluoedd dosbarth gweithiol yn Nwyrain Llundain cyn symud ymlaen i astudio teuluoedd ym maestrefi Llundain. Yn dilyn hynny, eu dadl oedd bod newidiadau mewn strwythurau teuluol yn digwydd mewn teuluoedd dosbarth canol, a bod y rhain yn gosod tueddiadau i deuluoedd dosbarth gweithiol eu dilyn.

Erbyn yr 1970au, roedd llawer o'r cymdeithasegwyr oedd yn astudio teuluoedd yn ffeministiaid; poenent am le merched o fewn y teulu o ran gwaith domestig a phŵer. Daeth dosbarth cymdeithasol yn llai pwysig wrth i bobl ganolbwyntio ar astudio'r perthnasau rhwng y ddau gender. Fodd bynnag, mae'n amlwg o ddata ystadegol fod yna wahaniaethau sylweddol ym mhatrymau beichiogrwydd, ysgariad, disgwyliad oes a

© CBAC / WJEC 2015

phatrymau ymddygiad. Nid yw hyn mewn gwirionedd wedi ffurfio rhan o unrhyw astudiaeth ddiweddar, yn rhannol oherwydd bod gan bobl lai o ymdeimlad o hunaniaeth dosbarth nag oedd ganddynt yn yr 1950au a'r 1960au.

### Cwestiynau

1. Pa ddosbarth cymdeithasol oedd ffocws astudiaeth gymdeithasegol yn yr 1950au a'r 1960au?
2. Beth oedd gan Bott a Young a Willmott i'w ddweud am newidiadau teuluol?
3. Pa effaith mae ffeministiaeth wedi'i gael ar yr astudiaeth o fywyd teuluol?
4. Pa feysydd allweddol mewn bywyd teuluol sy'n gallu cael eu heffeithio gan ddosbarth cymdeithasol?

### Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - ffordd o edrych ar gymdeithas o'r safbwynt nad yw dynion a merched yn gyfartal.

## Teuluoedd a dosbarth cymdeithasol yn y cyfnod modern

### Bwledi

- Mae dosbarth yn bwysig mewn teuluoedd ym Mhrydain.
- Mae teuluoedd dosbarth gweithiol yn fwy benywaidd-ganolog o'u cymharu â theuluoedd dosbarth canol.
- Mae teuluoedd dosbarth gweithiol dan bwysau am resymau'n ymwneud ag incwm isel.
- Mae teuluoedd dosbarth canol yn defnyddio'u cyfoeth a'u haddysg i fod yn gefn i'w plant drwy gydol eu bywydau.

### Testun

Mae dosbarth yn bwysig iawn mewn cymdeithas ym Mhrydain yn nhermau cyfleoedd a ffordd o fyw, ond mae nifer o bobl yn llawer llai ymwybodol o wahaniaethau dosbarth nag yr oeddynt yn y gorffennol. Er hynny, mae ystadegau ONS yn dangos bod rhwng 20 - 25% o blant yn dod o gartrefi incwm isel, a chartrefi lle nad oes neb mewn gwaith. Yn y cartrefi hyn, mae'r incwm yn debygol o fod yn llai na 60% o'r cyfartaledd incwm. Mae dosbarth cymdeithasol a thlodi'n parhau i effeithio ar deuluoedd ym Mhrydain.

Yn ddiweddar, ailadroddodd Nicola Charles astudiaeth deuluol enwog a gynhaliwyd yn Abertawe yn yr 1960au, a darganfu bod teuluoedd dosbarth gweithiol yn tueddu i fod yn fwy benywaidd-ganolog na theuluoedd dosbarth canol. Roedd newidiadau yn natur y swyddi oedd ar gael yn golygu bod merched dosbarth gweithiol yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na dynion dosbarth gweithiol.

Awgrymai astudiaeth Beverley Skeggs (1997) o ferched dosbarth gweithiol fod mwy na chwarter ei sampl wedi cael profiad o anfantais; canlyniad hyn oedd rhieni'n cam-drin plant, cartrefi'n chwalu a bywyd teuluol trwblus. Nid yw'r pethau hyn wedi'u cyfyngu i deuluoedd dosbarth gweithiol, ond mae Skeggs yn honni bod safle isel mewn cymdeithas yn achosi i bobl deimlo eu bod wedi'u cau allan o gymdeithas; yn achos nifer o ferched,

© CBAC / WJEC 2015

mae hyn yn achosi iddynt deimlo'n fethiant llwyr. Darganfu Sue Innes a Gill Scott fod merched dosbarth gweithiol yn teimlo dan bwysau oherwydd bod bywyd teuluol yn effeithio ar eu gallu i hyfforddi ar gyfer gwaith neu i gymryd swydd ran-amser. Yn wahanol i ferched dosbarth canol, ni allent fforddio talu i rywun ofalu am y plant, felly roedd bywyd teuluol yn golygu ceisio blaenoriaethu gwahanol gyfrifoldebau.

Awgrymodd Lareau (2002), cymdeithasegwr o Ogledd America, fod yna wahaniaethau cymdeithasol arwyddocaol yn y ffordd y mae rhieni dosbarth canol a rhieni dosbarth gweithiol yn rhyngweithio gyda'u plant; mae rhieni dosbarth canol yn ymyrryd ym mywydau eu plant, tra bod plant i rieni dosbarth gweithiol yn cael mwy o amser iddynt eu hunain. Roedd hyn yn rhoi mantais i'r plant dosbarth canol. Darganfu Gillies (2005) fod rhieni dosbarth canol yn weithredol wrth ddefnyddio'u dylanwad i gefnogi eu plant, tra bod angen i rieni dosbarth gweithiol hyfforddi eu plant i ymdopi â thlodi a methiant. Gall dosbarth effeithio hefyd ar berthnasau eraill o fewn y teulu; mae ymchwil gan Steve Fenton (2003) ym Mryste yn awgrymu bod rhieni dosbarth canol yn fwy tebygol o roi cefnogaeth ariannol i'w plant wrth ddilyn cwrs prifysgol, tra yn achos rhieni ymhellach i lawr y raddfa ddosbarth, roedd llai na thraean ohonynt yn cynnal eu plant.

### Cwestiynau

1. Beth sydd wedi digwydd i ymdeimlad pobl o hunaniaeth dosbarth ers yr 1950au?
2. Pa gyfran o blant ym Mhrydain sy'n dod o gartrefi tlawd?
3. Pa effaith mae dosbarth yn ei gael ar y dulliau o fagu plant?

### Allweddeiriau

- Cau allan - diffyg cydraddoldeb wedi'i seilio ar yr anallu i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas.

## Lleiafrifoedd ethnig a'r teulu

### Bwledi

- Mae Prydain yn gymdeithas amlddiwylliannol, wedi'i ffurfio o nifer o grwpiau ethnig.
- Mae gwerthoedd diwylliannol yn effeithio ar y syniadau sydd gan bobl am fywyd teuluol.
- Mae teuluoedd Asiaidd yn tueddu i goleddu ymdeimlad cryf iawn o anrhydedd teuluol.

### Testun

Mae ethnigrwydd yn gysyniad anodd ei gymhwyso i faes cymdeithaseg. Rydym yn tueddu i'w ddefnyddio i ddisgrifio pobl sy'n rhannu ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol neu ddiwylliannol. Defnyddiwn y term 'lleiafrif ethnig' i grwpio gyda'i gilydd y bobl hynny nad ydynt yn rhannu diwylliant y mwyafrif o'r boblogaeth mewn rhyw ardal. Weithiau, gall defnyddio'r term 'lleiafrif ethnig' grwpio gyda'i gilydd bobl nad oes ganddynt, mewn gwirionedd, lawer yn gyffredin yn ddiwylliannol nac yn ieithyddol. Mae'r term Asiaidd, er enghraifft, yn cynnwys ystod eang o ddiwylliannau, crefyddau, ieithoedd a

© CBAC / WJEC 2015

chenedligrwydd. Gall rhai o'r grwpiau diwylliannol hyn ystyried grwpiau eraill fel hen elynion traddodiadol, hyd yn oed.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod gan wahanol ddiwylliannau syniadau a thraddodiadau gwahanol o fewn eu diwylliannau ynghylch natur a phwrpas teulu a phriodas. Mae teuluoedd Asiaidd yn tueddu i roi gwerth ar izzat, sef eu hymdeimlad o anrhydedd teuluol. Mae'r llawer o'r diwylliannau y tu allan i Ewrop yn ymarfer rhyw ffurf ar drefnu priodasau ac mae rhai o ddiwylliannau'n oddefgar o aml-briodas, sydd fel arfer ar gyfer dynion y caniateir iddynt briodi mwy nag un wraig. Ar y llaw arall, mae teuluoedd Affricanwyr y Caribî yn aml â mam sengl yn bennaeth arnynt, gyda dynion yn cymryd rôl eilaidd mewn bywyd teuluol.

Mae'r Deyrnas Gyfunol fodern yn gymuned aml-ethnig. Yn ôl data Cyfrifiad 2001, roedd yna tua 59 miliwn o bobl yn byw yn y DG, ac o'r rhain roedd l4,600,000 (8%) yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (BME). Yn nhrefn eu maint, y poblogaethau hyn yw:

- Pobl o India
- Pobl o Bakistan
- Pobl o gefndiroedd ethnig cymysg
- Pobl dduon o'r Caribî
- Pobl dduon o Affrica
- Pobl o Fangladesh
- Mae gweddill y grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.4% arall o boblogaeth y DG.

### Cwestiynau

1. Pam y mae ethnigrwydd yn gysyniad anodd ei gymhwyso i faes cymdeithaseg?
2. Sawl grŵp ethnig gwahanol sydd yna yn eich dosbarth chi ac yn eich ysgol neu goleg?
3. Pa werthoedd diwylliannol gwahanol sy'n gallu effeithio ar strwythurau teuluol?
4. Pa gyfran o boblogaeth Prydain sy'n dod o gefndir lleiafrif ethnig?

### Allweddeiriau

- Ethnig - ymdeimlad o'ch diwylliant a'ch hunaniaeth.
- Izzat - ymdeimlad o anrhydedd teuluol.
- Priodas a drefnwyd - mae rhai teuluoedd yn dewis partneriaid priodas i'w plant.
- Aml-briodas - mae rhai pobl yn gallu cael mwy nag un partner priodas ar yr un pryd.

## Y gwahaniaethau rhwng teuluoedd o leiafrifoedd ethnig

### Bwledi

- Mae yna amrywiaeth o leiafrifoedd ethnig ym Mhrydain.
- Mae teuluoedd o leiafrifoedd ethnig yn tueddu i addasu eu bywyd teuluol i weddu i'r amodau ym Mhrydain.
- Mae teuluoedd o leiafrifoedd ethnig yn brwydro i gynnal eu hunaniaeth ddiwylliannol ac i wrthsefyll safonau Prydeinig, cryf.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae mwy o deuluoedd Affricanwyr y Caribî yn tueddu i fod yn rhai â rhiant sengl.
- Mae teuluoedd Asiaidd yn tueddu i fod yn fwy traddodiadol o ran eu strwythur na theuluoedd o Brydain.

## Testun

Mae lleoliad daearyddol gwahanol leiafrifoedd ethnig yn amrywio. Mae tua 2% o boblogaethau Cymru a'r Alban yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ond yn Lloegr mae 9% o'r boblogaeth yn dod o gefndiroedd 'BME', sef Lleiafrifoedd Ethnig Prydeinig neu Ddu.

Bydd gan bob un o'r grwpiau cymdeithasol hyn ddiwylliannau ychydig yn wahanol i'w gilydd, a chaiff hyn effaith ar fywyd teuluol, strwythur teuluol a'r modd y caiff y teulu ei ffurfio. Mae teuluoedd Asiaidd yn tueddu i fod yn fwy o ran nifer nag yn achos grwpiau ethnig eraill, ac mae teuluoedd estynedig yn fwy cyffredin. Maint cyfartalog teuluoedd yw 2.35, ond i deuluoedd o Fangladesh y ffigur yw 4.46, a 4.11 i deuluoedd o Bacistan.

Mae diwylliant Affricanwyr y Caribî yn golygu eu bod yn oddefgar yn eu hagwedd tuag at gyd-fyw, felly mae 12% o deuluoedd sydd â phlant yn disgyn i'r categori hwn. Nid yw hanner y mamau o dras Affricanwyr y Caribî wedi bod yn briod erioed. Mae Affricanwyr y Caribî a aned ym Mhrydain hefyd yn debygol o ffurfio partneriaethau cymysg o ran diwylliant a chenedligrwydd. Mae Berthoud yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond chwarter plant Affricanwyr y Caribî sy'n byw ar aelwydydd lle mae yna ddau riant Du. Mae'r gyfradd ysgaru'n uchel ymysg cymunedau Affricanwyr y Caribî - bron yn ddwywaith y cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae'n beryglus i gyffredinoli gormod ynghylch teuluoedd Affricanwyr y Caribî, gan fod Jocelyn Barrow wedi darganfod bod yna dri math pendant o deuluoedd o India'r Gorllewin:

- Teuluoedd cnewyllol, confensiynol, sy'n tueddu i fod ar aelwydydd crefyddol.
- Teuluoedd lle mae cyplau di-briod yn cyd-fyw mewn perthynas cyd-breswylio.
- Cartrefi matriarchaidd â'r fam yn bennaeth arnynt.

Mae teuluoedd o China ac Asia yn fwy tebygol o fod â phâr priod yn bennaeth arnynt, a'r teuluoedd hyn yw'r lleiaf tebygol o fod yn rhai un-rhiant. Yn ogystal, nid yw teuluoedd o bedwar plentyn neu ragor yn anghyffredin yn y cymunedau sy'n hanu o Bakistan neu Fangladesh; fodd bynnag, mae nifer y genedigaethau'n disgyn yn gyflym, yn enwedig gan fod rhagor o ferched bellach yn ennill cymwysterau addysgol da ac yn ymgymryd â gwaith proffesiynol. Mae'r gyfradd ysgaru yn y cymunedau hyn yn hanner y cyfartaledd am y boblogaeth yn gyffredinol.

Awgryma Berthoud (2000) y gall y tlodi sy'n aml yn cael ei gysylltu â theuluoedd o leiafrifoedd ethnig fod yn gysylltiedig â strwythur teuluol lawn cymaint ag â diweithdra. Mae teuluoedd Affricanwyr y Caribî yn aml yn deuluoedd un-rhiant, ac mae gan deuluoedd o Asia gyfartaledd uwch na'r cyffredin o blant ac o wragedd nad ydynt yn mynd allan i weithio.

Yn ogystal, mae teuluoedd 'BME' hefyd yn cael eu heffeithio gan bwysau cymdeithasol

© CBAC / WJEC 2015

nad ydynt yn berthnasol i'r mwyafrif o'r boblogaeth wyn. Mae llawer o'r teuluoedd hyn, er nad y cyfan, yn debygol o fod ag incwm isel ac o brofi hiliaeth.

### Cwestiynau

1. Beth yw ethnigrwydd?
2. Beth yw izzat?
3. Pa gyfran o boblogaeth Prydain sy'n hanu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig?
4. Pa batrymau sy'n nodweddiadol o deuluoedd Asiaidd?
5. Pa batrymau sy'n nodweddiadol o deuluoedd Affricanwyr y Caribî?

### Allweddeiriau

- 'BME' - Lleiafrifoedd Ethnig Prydeinig neu Ddu.
- Asiaidd - pobl y mae eu cyndeidiau'n hanu o is-gyfandir India.
- Affricanwyr y Caribî - pobl y mae eu teuluoedd yn hanu o ynysoedd y Caribî, ond sy'n ddisgynyddion i gaethweision o Affrica.

## Grwpiau sydd wedi mewnfudo'n ddiweddar i Brydain

### Bwledi

- Yn ddiweddar, gwelwyd mudo i Brydain o Ddwyrain Ewrop.
- Mae'r penderfyniad i fudo yn aml yn un teuluol.
- Mae llawer o fudwyr yn dymuno dychwelyd i'w mamwlad.
- Mae un aelod o'r teulu'n symud, ac eraill yn dilyn yn nes ymlaen.
- Mae mudwyr yn dioddef oherwydd hiliaeth a thlodi.

### Testun

Byth ers ehangu'r Undeb Economaidd Ewropeaidd ar 1 Mai 2004, bu'n gyfreithiol i lawer o bobl ddod i Brydain o Ddwyrain Ewrop i weithio. Mae yna, felly, gymunedau newydd wedi bod yn tyfu yn Swydd Efrog, ar lannau'r afon Humber, Dwyrain Lloegr a Llundain. Nid oes llawer o astudiaethau cymdeithasegol wedi'u cynnal ar y grwpiau yma hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae cymdeithasegwyr o Brifysgol Middlesex wedi darganfod bod barn y teulu'n aml yn ffactor bwysig yn y penderfyniad i fudo. Mae llawer o'r mudwyr yn ifanc, ac mae'n bosibl eu bod yn bwriadu dychwelyd adref ymhen ychydig flynyddoedd. Yn aml, mae un aelod o'r teulu - dyn fel arfer - yn symud, a'r teulu'n ei ddilyn yn nes ymlaen. Weithiau roedd teuluoedd yn ymfudo, felly byddai bachgen neu ferch ifanc yn arwain y ffordd a brodyr a chwiorydd yn dilyn. Mewn llawer o'r achosion y buont yn eu hastudio, y person cyntaf i fudo oedd y fenyw. Mae mudo'n rhoi llawer o straen ar deuluoedd oherwydd bod ganddynt berthnasau agos mewn dwy wlad. Er enghraifft, efallai bod pobl yn poeni'n fawr am berthnasau oedrannus gartref.

Darganfu Spencer ac eraill (2006) fod ethnigrwydd yn gallu effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymddwyn tuag atoch, ac mae llawer o fudwyr newydd wedi dioddef oherwydd hiliaeth ac anwybodaeth a ddangoswyd gan bobl ym Mhrydain, felly maent yn cael trafferth i wneud ffrindiau.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Cwestiynau

1. Ble ym Mhrydain y mae mudwyr newydd yn setlo?
2. Pa fath o dderbyniad mae mudwyr newydd yn ei gael gan bobl ym Mhrydain?
3. Pa wahanol fathau o straen y gall mudo ei roi ar fywyd teuluol?
4. Awgrymwch resymau pam bod mudwyr yn tueddu i fyw yn agos at ei gilydd yn eu gwledydd newydd.

## Allweddeiriau

- Mudo - symud o un ardal i'r llall.
- Mewnfudo - symud i mewn i ardal.
- Ymfudo - symud i ffwrdd o ardal.
- Sibling - brodyr a chwiorydd.
- Hiliaeth - rhagfarn ar sail hil.

## Lleoliad a gwybodaeth deuluol

### Bwledi

- Gall mathau o deuluoedd amrywio yn ôl ardal.
- Mae'r patrymau hyn yn gysylltiedig o bryd i'r gilydd â dosbarth.

### Testun

Byddwch eisoes wedi sylwi nad yw teuluoedd o leiafrifoedd ethnig wedi cael eu gwasgaru'n gyfartal dros wahanol ardaloedd ym Mhrydain. Mae mathau eraill o deuluoedd yn tueddu i fod mewn rhannau penodol o'r wlad. Darganfu Eversley a Bonnerjea (1982) fod mathau o deuluoedd yn amrywio rhwng gwahanol ranbarthau'r DG. Yn Ne Lloegr, sy'n tueddu i fod yn rhanbarth mwy cyfoethog na'r rhelyw, mae nifer y teuluoedd dau-riant yn uwch na'r cyfartaledd, tra bod niferoedd mawr o bobl sengl, hŷn, mewn ardaloedd arfordirol. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw bod yna draddodiad o bobl yn ymddeol i ardaloedd lle buont yn mwynhau gwyliau tra oeddynt yn gweithio. Yn yr hen ardaloedd diwydiannol, megis Cymru a Gogledd Lloegr, mae yna nifer fawr o deuluoedd estynedig, cryf; fodd bynnag, wrth i'r ardaloedd diwydiannol brofi dirywiad, gan ddod â thlodi yn ei sgil, mae patrwm o fathau gwahanol o deuluoedd yn ymddangos. Mae polareiddio'n tueddu i fod yn nodwedd o ardaloedd gwledig - mae yna dlodi enbyd ond, mewn ardaloedd yn nes at ganol dinasoedd, ceir dwysedd uchel o barau cefnog a busnesau teuluol. Yng nghanol y dinasoedd mae yna amrywiaeth o deipiau ethnig a llawer o rieni sengl. Y duedd yng Nghymru yw bod teuluoedd o leiafrifoedd ethnig wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain y wlad, ac mewn canolfannau poblogaeth eraill megis Abertawe, neu yn ardaloedd Wrecsam a Chaernarfon.

Hyd yn oed o fewn trefi, gellir gweld gwahaniaethau bach yn y patrymau teuluol. Mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol oherwydd, ym Mhrydain, mae dosbarthiadau cymdeithasol gwahanol yn tueddu i fyw mewn gwahanol rannau o'r trefi a'r dinasoedd. Darganfu Dale Southerton (2002), wrth astudio tref 'Yate', bod pobl mewn ardaloedd gwahanol yn coleddu gwerthoedd cymdeithasol gwahanol, a bod safbwyntiau ar fywyd teuluol wedi'u seilio ar y gallu i wario.

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Pa batrymau a ddarganfuwyd gan Eversley a Bonnerjea yn nhermau amrywiadau teuluol a lleoliad?
2. A oedd yr wybodaeth ar y mapiau y buoch yn eu hastudio yn cefnogi Eversley a Bonnerjea?
3. Amlinellwch y rhesymau dros yr amrywiadau mewn teuluoedd ym Mhrydain, a'u hasesu.
4. 'Mae teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn wahanol iawn i deuluoedd Prydeinig traddodiadol.' Trafodwch.
5. Gwerthuswch yr honiad nad oes y fath beth yn bod â theulu Prydeinig 'normal'.

### Allweddeiriau

- Polareiddiad - gwahaniaethau mawr, a chynyddol yn aml, rhwng grwpiau cymdeithasol.

## Beth mae cymdeithasegwyr yn ei ddweud wrthym am y newidiadau mewn perthynas o fewn teuluoedd?

## Gender, pŵer a llafur domestig

### Bwledi

- Mae Ymchwil yn dangos fod rhaniad gwaith domestig yn anghyfartal rhwng ddynion a merched.
- Mae'r farn ar y testun yn amrywio yn ôl perspectif y cymdeithasegydd.

### Testun

Mae'r uned hon yn edrych ar raniad pŵer rhwng dynion a merched o fewn y teulu. Mae'n edrych ar lafur domestig - gwaith sy'n cael ei wneud gan bobl fel aelodau o'r cartref. Mae'n edrych ar waith tŷ a gofal plant ac yn gofyn pwy sy'n gwneud beth.

Mae'r ymchwil yn y maes hwn yn ymwneud â chyfraniad y gŵr a'r wraig i dasgau domestig. Dyma rai o'r cwestiynau a ofynnir :

- I ba raddau y mae rhaniad llafur domestig yn seiliedig ar gender?
- Oes rhai tasgau yn y cartref yn cael eu gwneud gan ddynion ac eraill gan ferched?
- Ydy'r rhaniad llafur domestig yn gyfartal ac yn deg? Beth mae hyn yn ei ddangos am raniad pŵer o fewn y teulu?
- Ydy pŵer yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y gŵr a'r wraig, neu a ydy dynion yn rheoli? Oes yna newid wedi digwydd yn y maes hwn? Ydy pŵer yn cael ei rannu'n fwy teg erbyn hyn?

Mewn nifer o gymdeithasau y mae bywyd teuluol yn ddibynnol ar rolau'r ddau ryw - mae cyfrifoldebau gwahanol gan aelodau'r teulu, ac mae'r rhain yn ddibynnol ar ba ryw ydyn

© CBAC / WJEC 2015

nhw. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng rolau'r ddau ryw o fewn y teulu yn cael ei alw'n rhaniad llafur. Dadl rhai cymdeithasegwyr yw bod y rhaniad llafur hwn yn digwydd oherwydd gwahaniaethau biolegol rhwng y ddau ryw. Mae eraill, serch hynny, yn dadlau ei fod yn digwydd oherwydd diwylliant cymdeithas arbennig.

Dadl rhai cymdeithasegwyr yw ei bod yn iawn i' r ddau ryw gyflawni swyddogaethau gwahanol o fewn y teulu: mae'n rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol. Dywedodd Talcott Parsons bod teuluoedd niwclear modern yn rhannu rolau:

- Gyda'r tad yn chwarae rôl yr arweinydd, (rôl offerynol) a'r person sy'n darparu ar gyfer y teulu;
- A'r fam yn chwarae rôl fwy mynegiannol, gan roi cefnogaeth emosiynol, a cheisio cymdeithasoli'r plant. (rôl mynegianol)

Mae cymdeithasegwyr eraill wedi dadlau bod y system y mae Parsons yn sôn amdani wedi newid, neu wedi torri lawr, a bod y gwahaniaeth rhwng rôl y fam a'r tad wedi dod yn llai amlwg. Erbyn 1975 roedd Willmott a Young yn sôn am dwf y teulu cymesurol. Roedden nhw yn honni bod rolau priodasol neu rolau conjugal y gŵr a'r wraig yn dod yn debycach. Roedd y gwŷr yn helpu mwy gyda'r tasgau domestig fel golchi llestri a glanhau, ac roeddent yn helpu mwy gyda magu plant, er mai prif gyfrifoldeb y wraig oedd hyn. Yn ogystal fe rannwyd y penderfyniadau a oedd yn ymwneud â bywyd y teulu.

Mae'r farn hon wedi cael ei herio serch hynny gan ffeministiaid fel Ann Oakley (1974). Mae'n dadlau mai rhywbeth arwynebol yw rhannu dyletswyddau yn y rhan fwyaf o deuluoedd. Mae'r teulu yn dal yn sefydliad patriarchaidd, gyda'r dyn yn ennill y prif gyflog, a'r ferch yn gorfod delio gyda'r gwaith tŷ ac yn aml mewn gwaith cyflogedig hefyd. Byddwn yn edrych ar dystiolaeth y rhai sy'n cefnogi ac yn gwrthwynebu'r ddau safbwynt yma yn nes ymlaen.

## Cwestiynau

1. Beth mae ymchwil yn ei ddangos am raniad llafur domestig?
2. Sut mae barn Parsons a Oakley ar lafur domestig yn gwahaniaethu?

## Allweddeiriau

- Lafur Domestig: gwaith (llafur) di-dal sy'n cael ei wneud yn y cartref.
- Rolau: rhan a chwareir.
- Rolau conjugal: rolau parau priod neu paru sy'n cyd-fyw.
- Rhaniad llafur: sut mae gwaith domestig wedi ei rannu rhwng aelodau o deulu, fel arfer rhwng gŵr a gwraig.
- Rôl offerynol: person sy'n darparu (yn ariannol) ar gyfer y teulu (rôl a chwareir gan y tad fel arfer).
- Rôl mynegianol: cefnogaeth emosiynol, (rôl a gysylltir gyda'r wraig fel arfer).
- Teulu cymersurol: teulu lle mae'r rolau wedi eu rhannu'n gyfartal (Young a Wilmott).
- Ffeministiaeth: y gred fod merched yn ddarostynedig i awdurdod ddynion neu batriarchaeth mewn cymdeithas, a'r awydd am gydraddoldeb cymdeithasol, gwleidyddol a chymdeithasol rhwng ddynion.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Rhaniad Llafur Domestig

### Bwledi

- Mae swmp y gwaith ymchwil, pryd bynnag y cafodd ei wneud, yn dangos mai merched sy'n gwneud y mwyafrif o'r gwaith tŷ.
- Mae dynion yn cyfrannu at dasgau domestig ond yn aml caiff hyn ei weld fel "helpu'r wraig".
- Mae'r mwyafrif o'r gwaith ymchwil yn gwrthbrofi'r syniad o deulu cymersurol.

### Testun

Mae'n ymddangos fel pe bai dynion wedi dod i chwarae mwy o rôl wrth fagu teulu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn oherwydd oriau gwaith llai, a mwy o deuluoedd yn symud o un ardal i'r llall ac yn methu dibynnu ar deulu estynedig am gymorth.

Astudiodd Ann Oakley sampl o 40 o wragedd tŷ yn ei astudiaeth enwog, "The Sociology of Housework" (1974). Mae'r astudiaeth hon yn dangos rhaniad llafur amlwg rhwng y gŵr a'r wraig. Roedd y gwragedd yn gweld gwaith tŷ a gofal plant fel eu cyfrifoldeb nhw, heb dderbyn llawer o gymorth gan eu gŵyr.

Er mai sampl bychan iawn oedd gan Oakley, mae'r hyn sy'n cael ei ddweud ganddi wedi cael ei gadarnhau mewn astudiaethau ddiweddarach. Dywed Martin a Roberts yn "Women and Employment" (1984) bod 54% o'r merched oedd yn gweithio'n llawn amser, a 77% o ferched oedd yn gweithio'n rhan amser yn gwneud y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r gwaith tŷ. Roedd gan y rhain sampl o 6,000 o ferched.

Mae swmp y gwaith ymchwil wedi eu cwblhau ar gender a rhaniad llafur domestig, a'r rhain i gyd yn dangos bod y rhan fwyaf o ferched yn dal yn famau a gwragedd tŷ, eu bod dal yn profi cyfnod o waith tŷ llawn amser, er bod hyn yn lleihau, a'u bod yn dychwelyd i weithio rhan amser ar ôl i'r plentyn ieuengaf fynd i'r ysgol.

Mae ymchwil Fern a Smith (2003) a Calderwood (2005) yn cefnogi gwaith Oakley 30 mlynedd yn ddiweddarach. Dangosodd yr ymchwil fod tadau yn eu 30'au cynnar yn chwarae rolau llai yn gofalu am y plant na thadau yr un oed yn 1991. Roedd y ddynion yn ymchwil Gray (2006) yn gwrthwynebu gorfod ail-drefnu eu gwaith i helpu gyda'r gofal plant ac yn ei ddehongli fel "gwarchod"

Yn ôl Allan a Crow (2001), mae gan y rhan fwyaf o wragedd sy'n gweithio y baich dwbl o waith cyflogedig a llafur domestig. Mae casgliad tebyg gan Fiona Devine (1993.). Wedi astudio teuluoedd gweithwyr yn y diwydiant ceir yn Luton, gwelodd fod nifer cynyddol o'r merched yn gweithio rhan amser, a bod y dynion o'r herwydd yn gorfod gwneud mwy yn y cartref, a hynny nid am eu bod yn dymuno gwneud hynny. Dywed -'Yn y pendraw, merched sy'n gyfrifol am waith tŷ a magu plant, ac mae eu gwŷr yn rhoi cymorth iddyn nhw'.

Mae'r astudiaethau hyn yn rhoi darlun cwbl wahanol felly i'r un optimistaidd a gafwyd gan Young a Willmott. Darluniodd y rhain gymdeithas oedd yn cynnwys llawer iawn o deuluoedd cymesurol. Rhaid cofio bod Young a Wilmott wedi cyrraedd at eu casgliad ar

© CBAC / WJEC 2015

sail yr atebion a gafwyd i un cwestiwn: "Ydi eich gŵr yn helpu o leiaf un waith yr wythnos gyda thasgau fel golchi fyny, gwneud y gwelyau, helpu gyda'r plant, smwddio, coginio neu lanhau?" Felly, does dim rhyfedd fod Young a Wilmott wedi canfod bod dros 85% o'r atebion yn dangos bod y gwŷr yn helpu.

Beth sy'n syndod yw bod hyd yn oed astudiaethau sydd wedi edrych ar deuluoedd lle mae'r dyn yn ddi-waith wedi dangos nad yw hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol o helpu gyda'r gwaith tŷ. Dywed McKee a Bell (1986) bod dynion sy'n colli eu gwaith yn teimlo bod eu statws fel dynion dan fygythiad, ac nid oedd eu gwragedd eisiau eu gweld yn dioddef ymhellach drwy ofyn iddyn nhw rannu gyda'r tasgau o amgylch y tŷ.

Mae Ymchwil Innes a Scott (2004) o ferched yn Glasgow yn dangos fod y faich o wneud y gwaith domestig yn golygu eu bod yn cymryd mathau arbennig o waith cyflogedig, eu bod mewn swyddi tâl isel a bod eu swyddi yn aml yn rai rhan amser neu dros dro, a'r prif reswm an hyn oedd er mwyn ymdopi gyda gofynion eu cyfrifoldebau domestig.

Mae'r ymchwil yn dangos fod merched yn teimlo fod llawer o'u rolau domestig yn cael eu hanwybyddu, yn benodol y gwaith emosiynol, cefnogaeth, disgyblaeth ayyb. Nid yw hi'n bosib gwahanu tasgau domestig o ofal plant gan eu bod yn gorfod cael eu gwneud ar yr un pryd pan fod y plant yn fach. Roedd rhai o'r merched yn y sampl yn cydnabod cymorth gan eu mamau eu hunain ond nid oedd hyn yn bosib bob tro os oedd aelodau hen, sâl neu fethedig yn y teulu.

Y drafodaeth ynglyn â gender a rhaniad llafur domestig

Rhaid cofio bod mwy o dasgau o gwmpas y tŷ na choginio a glanhau, ac mae'r astudiaethau wedi tueddu i ganolbwyntio ar y rhain. Mae dynion yn treulio amser yn y cartref yn gwneud gwaith gwahanol e.e. torri'r lawnt neu drwsio'r car efallai, ond rhaid cofio nad yw'r tasgau hyn yn rhai dyddiol. Dywed Young a Willmott bod oriau gwaith dynion yn dueddol o fod yn hirach beth bynnag, a bod llai o amser ganddyn nhw i dreulio ar waith tŷ.

Mae'r rhan fwyaf o ymchwil i raniadau gender o lafur domestig yn seiliedig ar y defnydd o amser. Mae'n gofyn pwy sy'n gwneud beth, a faint o amser mae'n ei gymryd. Mae yna nifer o broblemau gyda'r dull hwn:
Mae merched yn tueddu i wneud mwy nag un dasg ar yr un pryd, er enghraifft gofal plant a glanhau neu baratoi bwyd gyda'i gilydd. Dywed Leonard (2000) fod merched felly yn treulio mwy o oriau nac sy'n cael ei gofnodi.

Nid yw'r astudiaethau yma chwaith yn dweud pa mor bwysig yw'r tasgau. Yn ôl McMahon (1999) mae tasgau domestig merched fel coginio a golchi dillad yn bwysicach na thasgau'r dynion, er enghraifft garddio a thrwsio pethau.

Nid yw'r astudiaethau hyn chwaith yn dweud llawer wrthym am y bodlonrwydd a gaiff merched a dynion o lafur domestig. Yn ôl Allan (1985) mae'r tasgau sy'n debygol o gael eu gwneud gan ferched yn aml yn ddiflas ac undonog, tra mae'r tasgau a wneir gan y dynion yn fwy diddorol a chreadigol. Er enghraifft, mae rhai dynion yn ystyried DIY a garddio yn fwy fel hobïau yn hytrach na thasg lafurus.

## Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Beth yw gwendidau ymchwil Ann Oakley?
2. Casglwch enghreifftiau pellach o ymchwil ar raniad llafur domestig.
3. Cynigiwch resymau pam fod ymchwil o'r 70'au a'r 00'au yn dangos canlyniadau tebyg.

### Allweddeiriau

- Sampl: grŵp bach o bobl a ddefnyddir gan ymchwilydd i gynrychioli'r boblogaeth dan sylw
- Baich Dwbl: gwragedd yn cymryd cyfrifoldeb dros rhanfwyaf o'r tadgau domestig yn ogystal â gwneud gwaith cyflogedig llawn amser.

## Teuluoedd incwm-ddeuol

### Bwledi

- Mewn teulu incwm-ddeuol mae'n fam a'r tad yn gweithio.
- Mae'r rhesymau dros weithio yn amrywio.
- Mae teuluoedd incwm-ddeuol yn aml yn arwain at shift ddwbwl i famau.
- Mae teuluoedd yn datblygu strategaethau er mwyn ymdopi â gwaith a gofal plant.

### Testun

Mae astudiaethau yn awgrymu bod teuluoedd incwm-ddeuol yn amrywio.

Ar un pegwn mae'r teulu gyfra-ddeuol. Yma, mae gan y ddau bartner lefel uchel o ymrwymiad i yrfa, maent fel arfer yn gweithio llawn amser ac mae eu gwaith yn elfen bwysig o'u hunaniaeth (Rapport & Rapport 1971 ). Ar y pegwn arall, mae un partner ( y wraig yn y rhan fwyaf o achosion ) yn gwneud ychydig o waith rhan amser sydd yn amharu gyn lleied ag sy'n bosib ar ei chyfrifoldebau teuluol. ( Gowler & Legge 1978 )

Beth yw'r tueddiadau mewn teuluoedd incwm-ddeuol?

Yn ôl arolwg y 'British Household Panel' yn 1973 roedd 43% o gyplau gyda plant a 61% heb blant gyda'r ddau yn gweithio. Erbyn 1996 roedd y ffigyrau wedi codi i 60% o gyplau gyda plant a 68% heb blant. Felly mae'r rhan fwyaf o gyplau yn cyfuno bywyd teuluol a'u swyddi.

Mae llawer o ferched mewn teuluoedd incwm ddeuol yn gweithio rhan amser, yn enwedig os oes ganddynt blant dibynnol. Mae 39% o ferched gyda plant dibynnol yn gweithio rhan amser o'i gymharu â 22% o ferched sydd heb blant dibynnol (Labour Force Survey 2005).

- Awgrymodd Hochschild (1990) bod hyn yn arwain at shift ddwbwl i'r merched; un shifft o waith cyfolgedig ac un shifft o waith domestig.
- Mae gyrfa'r ferch yn llawer mwy tebygol o gael ei amharu gan enedigaeth plentyn na gyrfa'r dyn. Anaml mae gwaith y dyn yn cael ei amharu. Ond mae hyn yn dod yn llai amlwg gyda mwy o ferched sydd â phlant yn aros mewn swyddi llawn amser.

© CBAC / WJEC 2015

Felly, yn aml, er mwyn cydbwyso gwaith a bywyd teuluol mae'r cyfrifoldeb mwyaf dros y gwaith tŷ a'r plant yn disgyn ar y fam.

Pa strategaethau sydd ganddynt i gadw'r cydbwysedd rhwng gofynion eu swydd ac anghenion eu teulu?

Mae teuluoedd incwm ddeuol yn wynebu problemau wrth gydbwyso gofynion eu swydd a'u teuluoedd. Mae David Cheal (2002) wedi adnabod chwech prif strategaeth sy'n galluogi rhieni i drefnu eu gwaith o gwmpas anghenion y plant. Mae'r strategaethau yn cynnwys : gweithio o'r cartref, gweithio oriau di-safonol ac ail drefnu cyfrifoldebau domestig fel bod y dyn neu aelodau eraill y teulu yn ymgymryd â mwy o'r gwaith.

Mae arolwg y gweithlu (2005) yn dangos bod 12% o famau yn gweithio oriau tymor ysgol o'i gymharu â 2% o dadau.

Yn 2005 cynhaliodd Caroline Gatrell astudiaeth ansoddol i astudio profiadau mamau sy'n gweithio. Cynhaliodd gyfweliadau gyda 20 o ferched a oedd a phlant o dan 5 mlwydd oedd.

- Roedd y mamau yn parhau i wneud y rhan helaeth o waith tŷ; beth bynnag eu cyflog neu oriau gwaith.
- Roedd y tadau yn gwneud mwy o'r gofal plant ac yn ystyried y plant yn elfen ganolog o'u bywydau
- Roedd yn holl famau yn 'deeply committed' i'w plant ifanc ond nid ar draul eu gyrfa.
- Roedd y mamau yn ystyried eu gwaith fel rhan bwysig o'u hunaniaeth ac er cymaint roeddynt yn caru eu plant nid oeddynt am roi'r gorau i'w gwaith.

Felly mae'r cynnydd mewn teuluoedd incwm-ddeuol yn debygol o barhau. Yn rhannol am fod merched yn awyddus i weithio a datblygu gyrfa. Hefyd mae'r ddau gyflog yn holl bwysig i nifer o deuluoedd er mwyn sicrhau safon byw derbyniol.

## Cwestiynau

1. Beth yw'r tueddiadau mewn teuluoedd incwm-ddeuol?
2. Pam fod teuluoedd incwn-ddeuol wedi cynyddu?
3. Pa fath o strategaethau gellid eu datblygu er mwyn ymdopi a gwaith cyflogedig a gofal plant?
4. Beth yw ystyr shift ddwbwl a pham mai mamau sydd fel arfer yn gorfod gwneud shift ddwbwl?

## Allweddeiriau

- Teulu imcwm ddeuol: - teulu lle mae'r fam a'r tad yn gweithio.
- Teuluoedd gyrfa-ddeuol - teuluoedd ble mae gyrfa yn bwysig ac yn rhan bwysig o hunaniaeth.
- Shift ddwbwl - sefyllfa lle mae mamau (fel arfer) yn gweithio ac yn gorfod cymryd y prif gyfrifoldeb am ofalu am y plant.

## Gender a Gwneud Penderfyniadau

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Bwledi

- Dynion sy'n gwneud y mwyafrif o'r penderfyniadau pwysig a'r wraig y rhai mwy dibwys.
- Mae rheoli arian yn amrywio o deulu i deulu ac yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.
- Yn ôl Vogler a Pahl mae mwy o gydraddoldeb yn ddiweddar.

## Testun

Mae'r rhan hon yn mesur pŵer wrth edrych ar bwy sydd yn gwneud y penderfyniadau mewn teuluoedd. Os mai'r wraig sydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cartref, yna hi felly ddylai gael y pŵer yn ôl ffeministiaid ond nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth pwysigrwydd y penderfyniadau.

Yn astudiaeth Stephen Edgell (Middle class couples 1980) o gyfweliadau gyda sampl o 38 o barau oedd mewn swyddi proffesiynol gwelodd yn gyntaf, y ferch oedd yn penderfynu ar bethau mewn nifer o feysydd - pethau fel prynu bwyd, dillad y plant, ac addurno'r tŷ. Nid oedd y penderfyniadau hyn yn cael eu hystyried yn bwysig gan y parau dan sylw. Yn ail, y dyn oedd yn penderfynu ar bethau 'difrifol' fel symud tŷ, prynu eitemau drud fel ceir ayyb.

Mae astudiaeth Edgell yn gwrth-ddweud beth sydd wedi cael ei ddweud eisoes gan bobl fel Young a Willmott am deuluoedd yn dod yn fwy cyfartal, ac mae hwn yn awgrymu bod gan y gwŷr fwy o bŵer na'u gwragedd. Ond fe ddylid cofio bod yr astudiaeth yma wedi ei chynnal dros ugain mlynedd yn ôl ac yn seiliedig ar 38 cwpl dosbarth canol yn unig ac felly nid yw'n gynrychioladol iawn.

Rhaid cofio hefyd bod yna nifer o benderfyniadau sydd yn cael eu gwneud yn reddfol e.e. merched yn gyfrifol am ofal plant. O safbwynt llafur domestig, mae yna nifer o dasgau sydd yn cael eu hystyried yn rhai traddodiadol i'r wraig, fel golchi, glanhau, smwddio, gofal plant a llafur emosiynol.

Yn "Money and Marriage" (1989) edrychodd Jan Pahl ar bwy oedd yn rheoli'r arian o fewn y teulu. Roedd yn amrywio'n fawr o un teulu i'r llall. Fe astudiodd hi 102 o gyplau, a darganfu sawl system wahanol e.e. y gŵr yn rhoi cyfraniad wythnosol i'r wraig i ofalu am y cartref a'r plant, neu mewn rhai teuluoedd, y gŵr a'r wraig yn cyfrannu'r un faint o arian yn wythnosol tuag at y cartref a'r plant. Dywed Pahl hefyd bod y ferch yn dueddol o reoli mewn teuluoedd oedd yn dibynnu ar fudd-daliadau. Yn aml, roedd y merched yn defnyddio'r arian er lles eu plant a'u gwŷr, ac yn mynd heb fwyd a dillad eu hunain.

Mewn astudiaeth ddiweddarach yn 1994 gan Carolyn Vogler a Jan Pahl, lle cafwyd cyfweliadau gyda dros 1200 o gyplau Prydeinig, darganfu nhw mai'r dynion oedd yn rheoli'n bennaf.

Dywed Vogler a Pahl bod 58% o'r cyplau yn rhannu arian gwario personol yn gyfartal, 12% yn dweud mai'r dynion oedd yn cael y mwyaf, 4% yn dweud y wraig, a'r gweddill yn anghytuno. Os oedd arian yn brin, y wraig oedd yn gwneud hebddo er mwyn i'w gŵr a'i phlant gael digon.

Mae Vogler a Pahl yn gweld cynnydd tuag at gydraddoldeb o ran rheolaeth ariannol. Ond

© CBAC / WJEC 2015

mae hyn yn dueddol o ddibynnu os yw'r wraig yn gweithio neu beidio. Mae rhai yn awgrymu mai'r partner sydd gyda'r incwm uchaf sydd yn rheoli'r penderfyniadau.

### Cwestiynau

1. Sut mae rheoli arian yn amrywio rhwng teuluoedd?
2. Beth fyddai ffeministiaid yn ei ddweud am sut y rheolir arian mewn teulu?

### Allweddeiriau

- Cynrychioldeb: sut mae canlyniadau gwaith ymchwil yn cynrychioli y grŵp dan sylw.
- Proffesiynol - gweithiwr syn gwneud gwaith proffesiynol ac fel arfer yn ennill cyflog da.

## Dibyniaeth

### Bwledi

- Mae ymchwil yn dangos fod llawer o ferched yn ddibynol ar eu gwŷr.
- Nid yw'r pwnc hwn yn hawdd i'w ymchwilio.
- Mae Marcswyr a ffeministiaid yn feirniadol o'r sefyllfa tra mae ffwythiannwyr yn ei weld yn beth naturiol.

### Testun

Mae dibyniaeth yn cyfeirio at sefyllfa lle mae merched yn ddibynnol ar eu gwyr / partner e.e. yn ariannol, yn emosiynol. Er bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y merched priod sy'n gweithio, mae 30% o ferched priod o dan 60 oed yn dal ddim yn cael eu cyflogi y tu allan i'r cartref. Mae'r rhain yn aml yn ddibynnol felly ar eu gwŷr am incwm. Mae bod yn ddibynnol ar ŵr yn dal yn un cam y mae llawer o ferched yn mynd trwyddo yn ystod eu bywydau.

Hyd yn oed pan bod merched yn gweithio, mae eu swyddi yn cael eu hystyried yn israddol i rai dynion. Yn gyffredinol maent yn ennill llai o arian na'u gwŷr. Mae disgwyl hefyd i lawer o ferched gefnogi eu gŵr yn ei swydd, er nad oes disgwyl i'r gŵr gefnogi ei wraig yn ei swydd. Mae llawer o wragedd yn gweithredu fel ysgrifenyddes neu negesydd i'w gŵr. Hefyd, mae disgwyl i wragedd aberthu eu gyrfa nhw cyn un eu gŵr. Os oes gobaith i'r gŵr gael dyrchafiad o fewn ei swydd, a bod yn rhaid i'r teulu symud, mae disgwyl bod y ferch yn aberthu ei swydd. Anaml iawn mae dyn yn rhoi'r gorau i'w swydd er mwyn gyrfa ei wraig.

Mae Graham Allan (1985) yn nodi bod merched hefyd yn ddibynnol ar eu gwŷr yn gymdeithasol yn aml. Yr unig ffrindiau sydd ganddyn nhw yw ffrindiau eu gwŷr. Mae'n anoddach hefyd i ferched gymdeithasu ar eu pennau eu hunain heb eu gwŷr. Mae'n haws o lawer i ddyn gerdded i mewn i'r dafarn neu glwb ar ei ben ei hun nag yw i ferch. Mae agweddau cymdeithas hefyd yn medru dylanwadu. Os yw dyn yn rhannu'r gwaith tŷ, mae'n cael ei ddisgrifio fel person sydd o dan y bawd. Os yw plant yn cael eu hanwybyddu gan eu rhieni, y fam sy'n cael y bai.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

Mae'n anodd iawn mesur faint o ferched sy'n ddibynnol ar eu gwŷr neu eu partneriaid. Mae'n hawdd dangos bod merch yn dibynnu ar ei gŵr am arian, ond mae'n anoddach o lawer dangos bod merch yn ddibynnol ar ei gŵr yn emosiynol. Dywed Charles(1990) bod merched bob amser yn rhoi anghenion eu gwŷr a'u plant yn gyntaf wrth siopa, a dywed Allan a Crow (2001) bod merch yn cael boddhad o hunan aberthu oherwydd bod hyn yn cadarnhau ei bod yn fam a gwraig dda.

Byddai'r ffwythianwyr yn dadlau bod hyn yn beth iawn. Mae rhaniad llafur yn rhoi cyfle i'r dyn arbenigo mewn rhai pethau, a'r ferch mewn rhai eraill. Mae Marcswyr a ffeministiaid yn feirniadol iawn o'r sefyllfa. Dydy rhaniad llafur ddim yn gwneud y ddau ryw yn gyfartal - y dyn sy'n elwa o'r sefyllfa.

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd mae gwragedd yn ddibynnol ar eu gwŷr?

### Allweddeiriau

- Dibyniaeth: sefyllfa lle mae merched yn ddibynnol ar eu gwŷr / partner e.e. yn ariannol, yn emosiynol.

## Sut mae plentyndod wedi newid ers y Canol Oesoedd?

### Bwledi

- Honna Aries bod plentyndod yn luniad cymdeithasol gymharol ddiweddar sydd wedi'i achosi gan ddiwydiannaeth.
- Roedd Shipman yn feirniadol o'r dulliau a ddefnyddiodd Aries
- Roedd Pollack yn feirniadol o'i ddulliau a rhai o'i gasgliadau.

### Testun

Nid yn unig y mae plentyndod wedi newid dros y blynyddoedd, ond mae ein dealltwriaeth o natur plentyndod wedi achosi cryn ddadlau. Dechreuodd y ddadl yn 1962 pan gyhoeddwyd cofnod hanesyddol Philippe Aries o blentyndod, sef 'Centuries of Childhood'. Yn y dadansoddiad hwn, honnai Aries bod plentyndod yn luniad cymdeithasol. Yn y gorffennol, ystyrid mai oedolion bach oedd plant oedd yn gweithio ochr yn ochr â'u rhieni. Ni allai rhieni fforddio bod yn sentimental am eu plant oherwydd bod cymaint yn marw a bod teuluoedd mor fawr. Fel y noda Shipman, nid oes tystiolaeth gref i gefnogi dadleuon Aries. Seiliodd ei gofnod ar gelf a chofebion, ac yn amlwg, dim ond ar gyfer pobl gyfoethog iawn y gwnaed y rhain. Serch hynny, gwnaeth Aries bwynt pwysig iawn nad yw plentyndod yn gysyniad cyffredinol, a bod gennym gysyniad cymdeithasol a diwylliannol o'r hyn yw plentyndod.

Yn ôl Aries, datblygodd plentyndod yn ystod G19 a G20 wrth i blant gael eu tynnu o'r gweithlu gan y Deddfau Ffatrïoedd ac wrth iddynt ddechrau mynd i'r ysgol yn eu heidiau. Er hynny, nododd hefyd bod plant tlawd a chyfoethog yn cael profiad gwahanol iawn o blentyndod. Drwy gydol Oes Fictoria, roedd meibion teuluoedd cefnog i'w gweld llai a llai

© CBAC / WJEC 2015

mewn cymdeithas oedolion, er enghraifft anfonwyd bechgyn i ysgolion preswyl a disgwylid iddynt galedu o'r profiad. Datblygodd cysyniadau o blentyndod fel cyfnod ar wahân mewn bywyd ymysg y dosbarthiadau canol, a dim ond yn ddiweddarach y derbyniwyd hyn gan y dosbarthiadau gweithiol. Dadleuodd hefyd bod merched mewn teuluoedd dosbarth gweithiol, wrth iddynt gael eu tynnu allan o'r gweithle, yn cael eu cysylltu fwyfwy â gofalu am blant o gymharu â'r Oesoedd Canol.

Mae Shipman wedi bod yn feirniadol o ffynonellau gwybodaeth Aries. Ond, er gwaetha'r ffaith fod y fethodoleg a'r dystiolaeth y seiliwyd y dadansoddiad hwn arni wedi'u beirniadu'n llym, mae llawer o'r pwyntiau yn dal yn ddilys. Mae Pollack wedi beirniadu gwaith Aries gan honni bod rhieni yn poeni am eu plant yn yr oes a fu ac yn galaru o waelod calon os roeddent yn marw. Mae hi hefyd yn nodi nad oedd hi'n anghyffredin i blant gael eu cosbi'n gorfforol. Honna bod y syniad o blentyndod yn amrywio'n fawr.

### Cwestiynau

1. Sut roedd plant yn cael eu trin yn yr Oesoedd Canol?
2. Pam fod Aries yn meddwl nad oedd rhieni mor gariadus gyda'u plant â rhieni modern?
3. Beth yw'r gwendidau yn ei ddadleuon?
4. Beth yw nodweddion plentyndod y cytunir arnynt yn gyffredinol yn ein cymdeithas?

### Allweddeiriau

- Plentyndod: cyfnod mewn bywyd pan wahaniaethir rhwng person ifanc ac oedolion.
- Lluniad cymdeithasol: syniad o realaeth gymdeithasol y cytunir arni yn gyffredinol.

## Beth mae adroddiadau am blentyndod yn ddiweddar wedi awgrymu am blant modern?

### Bwledi

- Mae plentyndod yn fwyfwy cyfyngedig.
- Mae gan blant fwy o nwyddau materol, ond llai o ryddid i chwarae.
- Mae llawer o blant yn cael eu caethiwo yn eu cartref.
- Mae damcaniaethwyr y Dde Newydd yn dadlau bod y cyfryngau yn cael dylanwad drwg ar blant.
- Honna ôl-fodernwyr nad oes yr un profiad cyffredin o blentyndod, mae plant yn cael llawer o brofiadau yn ôl eu teulu, eu rhyw, eu cynefin a'u cefndir ethnig.

### Testun

Mae'n debyg bod llawer o blant drwy gydol y 1940au a'r 1950au wedi cael cryn ryddid i grwydro a chwarae. Roedd llai o geir, a llai o ofn dieithriaid. Gallai rhai gwahaniaethau fod wedi bod rhwng y ddau ryw: byddai wedi bod disgwyl i ferched helpu yn y cartref, yn wahanol i fechgyn. Er hynny, awgrymodd Neil Postman (1983) bod y cyfnod plentyndod hwn yn diflannu tuag at ddiwedd y ganrif a honnodd bod plant yn debycach i'w rhieni ac yn fwy ymwybodol o ryw. Teimlai bod y cyfryngau yn cael dylanwad drwg ar blant. Hefyd,

© CBAC / WJEC 2015

gan fod gan blant deledu a fideo yn eu hystafelloedd eu hunain, heb oruchwyliaeth eu rhieni, roeddent yn dod yn ymwybodol o rywioldeb a thrais mewn ffordd a oedd yn ddigyfryngiad (neu ddiesboniad) h.y. heb i oedolion allu roi sylwadau ar yr hyn oedd ar y teledu. Honnodd fod cyfraddau beichiogi uwch ymysg merched yn eu harddegau a chyflawni troseddau oedolion yn ystod plentyndod yn dystiolaeth o'r broses hon.

Mae Lee (2001) yn gweld rhywfaint o werth yng ngwaith Postman ond dadleua ein bod yn byw mewn "cyfnod o ansicrwydd" - nid yw oedolaeth bellach yn sefydlog (diffyg swyddi am oes, cyfradd ysgariad uchel), felly mae oedolion yn ymddwyn fel plant (anghyflawn, ansicr). Mae oedolion yn ymddwyn yn fwyfwy anaeddfed a hunanol. Mae hyn wedi arwain at luniad cymdeithasol newydd o ran plentyndod: gwelir bod plant yn "bobl drwy eu hawl eu hunain". Mae ganddynt eu hawliau a'u diddordebau eu hunain, yn yr un modd ag oedolion mewn cymdeithas. Roedd Deddf Plant 1989 (lles y plentyn o'r pwys pennaf), yn rhoi llais i blant mewn materion oedd yn effeithio arnynt - rhieni yn ysgaru er enghraifft. Mae teuluoedd heddiw yn blentyn ganolog a hwy sy'n cael y flaenoriaeth.

Mae llawer o sylwebwyr yn bryderus iawn am ddiwylliant prynu a thargedu plant fel marchnad ar gyfer nwyddau arbenigol. Yn ei hastudiaeth 'Toxic Childhood' yn 2006, awgryma Sue Palmer bod rhieni, wrth iddynt fynd yn gyfoethocach yn faterol ac yn dlotach o ran amser, yn ildio i'w plant ac yn prynu nwyddau traul drud iddynt megis teledu a gemau cyfrifiadur. Mae'r nwyddau hyn wedyn yn warchodwr plant electronig - 'electronic babysitters'. Nid yw plant yn hapus; mewn gwirionedd, maent yn destun marchnata bwyd sothach a bwydydd peryglus gyda chemegau wedi'u hychwanegu atynt, sy'n cyfrannu at godi cyfraddau gorfywiogrwydd, dyslecsia, awtistiaeth a dyspracsia. Awgryma Palmer y dylid gwahardd y fath farchnata. Mae'n werth nodi bod gwledydd Sgandinafia eisoes wedi gwahardd hysbysebion sy'n targedu plant iau na 10 oed oherwydd eu bod wedi derbyn na all plant yr oed hwn wahaniaethu rhwng hysbysebu a realaeth.

Awgryma Melanie Phillips bod plant modern yn cael hawliau a rhyddid sy'n afrealistig. Mae'n dadlau nad yw plant yn ddigon aeddfed i ddelio gyda'r rhyddid a gânt, a bod angen eu magu yn fwy awdurdodaidd. Tueddir i gysylltu'r beirniadaethau uchod o blentyndod â meddylfryd y Dde Newydd.

Mae gan ôl-fodernwyr farn wahanol. Er enghraifft, cyfeiria Frank Furedi at rianta paranoid gan awgrymu bod plant yn gaeth i'r cartref oherwydd bod gan rieni ofn herwgipio, pedoffiliaid, a chipio. Mae hyn yn annog rhieni i fwy neu lai caethiwo plant yn eu hystafelloedd gwely eu hunain. Fel tystiolaeth, mae'n nodi mai ychydig o blant sy'n cael cerdded i'r ysgol. Mae ôl-fodernwyr hefyd yn nodi nad oes yr un profiad sy'n gyffredin i bob plentyn yn y DU. Mae dosbarth, rhyw, cynefin ac ethnigrwydd i gyd yn effeithio ar brofiad plentyndod, felly bydd gor gyffredinoli yn arwain at farn afrealistig o blentyndod.

## Cwestiynau

1. Beth yw plentyndod gwenwynig?
2. Awgrymwch resymau pam bod hysbysebion yn targedu plant.
3. Pa dystiolaeth sydd fod plant yn cael eu hystyried yn grŵp defnyddwyr ar wahân?
4. A ddylid gwahardd hysbysebu i blant?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Diwylliant prynu: prynu nwyddau nad oes mo'u hangen.
- Plentyn ganolog: plant yn cael blaenoriaeth .

## Plant Boomerang

### Bwledi

- Mae "Boomerang Kids" yn derm newydd i ddisgrifio grwp sy'n tyfu o oedolion ifanc sydd yn byw gartref yn aml yn gadael cartref ac yna'n dychwelyd.
- Gallant fod yn drafferthus i'w rhieni.

### Testun

Yn ôl Parentline Plus (2008) nid yw hi'n bosib bellach i gymryd yn ganiataol pan fydd eich plentyn yn troi yn oedolyn y bydd yn dod yn annibynol a gadael cartref. Yn ôl ffigurau'r Llywodraeth mae 58% o ddynion a 39% o ferched 20-24 oed yn byw adref gyda'u rhieni yn Lloegr. Ar gyfartaledd mae oedolyn ifanc o'r fath ar gyfartaledd yn 22 oed ac wedi byw oddi cartref (fel arfer fel myfyriwr) am oleiaf 2 flynedd.

Yn ôl Parentline Plus mae'r genhedlaeth hon o "Boomerang kids" yn medru bod yn drafferthus i'w rhieni. Gan mai un o nodweddion y plant hyn yw eu bod wedi byw oddi cartref am gyfnod yna maent yn profi anhawsterau dilyn rheolau cartref a osodir ar eu cyfer gan eu rhieni a gall hyn achosi gwrthdaro ar faterion megis yfed a chyffuriau, gwaith tŷ, dyledion ariannol a diweithdra.

Rhai o'r rhesymau am y twf yn y grŵp nodweddiadol o oedolion ifanc hyn yw:

- Dyledion cynyddol myfyrwyr
- Methu prynnu tŷ oherwydd costau methyg a phrisau uchel tai ym Mhrydain
- Priodi yn llawer hŷn na chenhedlaeth eu rhieni.

Mae mynd nôl i fyw adref yn cael ei weld yn opsiwn atyniadol i'r bobl ifanc hyn.Gwelir cynnyddd yn y grŵp hwn wrth i wlad wynebu problemau economaidd.

### Cwestiynau

1. Awgrymwch sut fyddai'r Llywodraeth yn medru atal tŵf y "Boomerang Kids".
2. Pam ei fod yn ffenomenon cyfoes?

### Allweddeiriau

- Plant Boomerang : oedolion ifanc sydd methu neu'n anfodlon adael cartref.

## Cenhedlaeth "Pivot" / Cenhedlaeth Frechdan

### Bwledi

- Mae cyfrifoldebau teuluol yn newid.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae merched yn aml yn gorfod gofalu am y genhedlaeth hŷn ac aelodau o'r genhedlaeth iau.

### Testun

Mae hwn hefyd yn gysyniad newydd ac mae'n cyfeirio at y genhedlaeth o bobl, fel arfer merched yn eu 50'au sydd wedi eu dal rhwng gofalu am aelodau hen o deulu a gofal am eu plant eu hun neu blant eu plant. Erbyn 50 oed heddiw mae gan 60% o bobl riant sydd dal yn fyw ac mae ychydig dros 33% yn neiniau a theidiau. Ar yr un pryd mae tua 66% ohonynt dal i wneud gwaith cyflogedig. Mae'r genhedlaeth 'pivot' yma felly yn cyfuno eu gwaith cyflogedig a chyfrifoldebau gofalu, naill ai am wyrion ifanc, neu hyd yn oed eu plant eu hun gyda mwy a mwy o ferched dros 40 yn geni plant ac yn gofalu am eu rhiant / rhieni hen. Mae ymchwil Mooney, Statham a Simon (2002) yn dangos sut mai merched sydd fel arfer yn ymgymryd â'r faich gofal a teimlodd y 30 o ferched yn eu sampl bwysedd mawr i ymdopi â'u holl gyfrifoldebau.

### Cwestiynau

1. Awgrymwch a thrafodwch resymau am dŵf y genhedlaeth 'pivot'.

### Allweddeiriau

- Cenhedlaeth 'pivot': cenhadaeth sydd ag ystod o gyfrifoldebau gofal.

## Ochr dywyll

### Bwledi

- O'r 60'au ymlaen dechreuwyd cwestiynu'r gwaith ymchwil oedd yn chanolbwyntio ar ochr bositif y teulu.
- Gall y teulu fod yn garchar i'w aelodau gan fod y broses o gymdeithasoli yn niweidiol.
- Gall problemau yn ystod plentyndod effeithio plant drwy gydol eu bywydau.

### Testun

Hyd at yr 1960au, roedd cymdeithaseg y teulu yn cael ei ddominyddu gan y safbwynt ffwythiannol a oedd yn canolbwyntio ar ochr bositif y teulu. O'r 1960au ymlaen dechreuwyd gwestiynu'r safbwynt hwn. Daeth pobl yn fwy ymwybodol o broblemau o fewn bywyd teuluol - er enghraifft, trais yn y cartref a chamdrin plant. O ganlyniad, daeth cymdeithasegwyr yn fwy ymwybodol o ochr dywyll bywyd teuluol.

Mae esboniadau seicolegol yn cael eu arddel gan ysgrifenwyr fel Cooper (The Death of the Family) a Laing (The Politics of the Family). Maen nhw'n dadlau y gall y teulu fod yn ffynhonnell anhapusrwydd a phoen emosiynol mawr i'w aelodau. Mae'r ddau ysgrifennwr yn pwyntio at y ffordd y mae'r broses o gymdeithasoli (sydd i Parsons yn agwedd bositif iawn i'r teulu) yn hanfodol niweidiol. Maen nhw'n gweld unigolion, a phlant yn arbennig, yn cael eu carcharu o fewn y teulu, ac yn gorfod ateb y galwadau emosiynol a wneir arnyn

nhw ac sy'n arwain at ymddygiad ufudd ("submissive") a chydymffurfiol ("conformist") pan fyddant yn oedolion.

Mae Laing yn dadlau bod salwch meddyliol yn gallu bod yn ymateb normal i bwysau o fewn bywyd teuluol.

Yn ei lyfr 'They F******* You Up: How to Survive Family Life', mae Oliver James (2003) yn honni bod nifer o'r problemau a gawn fel oedolion yn deillio o'n plentyndod. Os ydym yn ddi-hyder, os ydym yn or-gystadleuol, os ydym yn genfigennus o bobl eraill, yna mae hynny oherwydd y magwraeth a gawsom gan ein rhieni yn ystod ein plentyndod.
Yn ôl James mae problemau perthynas mewn bywyd yn deillio o ofal ddi-empathi yn ystod plentyndod a pherthynas problemus gyda rhieni wedyn. Mae gofal di-empathi yn golygu anwybyddu neu gamddeall anghenion plant - e.e. ddim eu bwydo pan maent yn llwglyd, neu gorfodi bwyd arnynt pan nad ydynt yn llwglyd. Gall hyn greu ofn ac ansicrwydd a diffyg ymddiriedaeth. Gall hyn wedyn arwain at broblemau perthnasu ymhellach ymlaen.

Er bod tystiolaeth i gefnogi safbwyntiau James,mae nifer o ymchwilwyr yn gwrthwynebu y flaenoriaeth sy'n cael ei roi i ofal rhieni yn ystod plentyndod.
Er enghraifft, fe fyddai cymdeithasegwyr yn tynnu sylw at ddylanwadau fel grwpiau cyfoedion, gender a dosbarth cymdeithasol wrth egluro ymddygiad oedolion.

Gwendidau

1. Mae nifer o seiciatryddion yn gwrthod safbwynt Laing, gan ddadlau bod yna resymau eraill dros achosion salwch meddyliol na pherthnasau o fewn y teulu.

2. Dadleua eraill bod Laing wedi gorliwio, ond yn cytuno bod y teulu yn gallu chwarae rhan allweddol yn natblygiad rhai salwch meddyliol.

3. Beirniadwyd y safbwynt seicolegol am anwybyddu'r ffordd mae rhai aelodau o deuluoedd yn hanfodol ddi-rym oherwydd strwythur y teulu.

4. Mae ffeministiaid wedi nodi nad y teulu fel y cyfryw sydd o reidrwydd yn creu gormes ac anhapusrwydd, ond natur batriarchaidd y teulu: mae achos yr anhapusrwydd wedi'i wreiddio yn y grym sydd gan ddynion i ffurfio'r teulu er eu mantais nhw eu hunain.

## Cwestiynau

1. Sut gall y teulu fod yn "garchar" i'w aelodau?
2. Sut mae safbwyntiau seicolegol yn wahanol i esboniadau ffeministiaid?

## Allweddeiriau

- Esboniadau seicolegol: esbonio o safbwynt seicoleg, yn aml yn anwybyddu ffactorau cymdeithasol.

## Trais yn y Cartref

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Bwledi

- Mae lefelau a natur trais domestig yn amrywio yn ôl cefndir cymdeithasol a gender.
- Merched sy'n fwyaf tebygol o fod yn ddioddefwyr o drais domestig.

## Testun

Trais Domestig yw unrhyw ffurf o drais sydd yn digwydd yn y cartref. Serch hynny, mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i gyfeirio at drais rhwng partneriaid sydd yn cyd-fyw neu yn briod a'i gilydd ('partnership violence'). Nid yw'n hawdd diffinio trais domestig. A ddylai gynnwys bygythiad o drais yn ogystal a thrais ei hun? A ddylid gwahaniaethu rhwng trais bwriadol a thrais hunan-amddiffynnol?

Mesur Trais yn y Cartref

Gan ddefnyddio nifer o ffynonellau, dyma'r amcangyfrif o drais domestig yn y DU a geir gan Elisabeth Stanko (2003).

- Mae un o bob pedair merch ac un o bob saith dyn yn riportio ymosodiad corfforol gan bartner yn ystod eu bywyd.
- Mae tua 10% o ferched yn profi trais domestig mewn blwyddyn.
- Mae'r rhan fwyaf o'r trais gan ddynion tuag at ferched.

Er mwyn deall trais domestig mae angen gwybodaeth am ddifrifoldeb, ystyr ac effeithiau gweithredoedd treisgar. Ceisiodd James Nazroo ( 1999 ) ddarganfod y wybodaeth yma mewn astudiaeth fechan o gyplau. Cafodd pob aelod o bob cwpwl eu cyfweld ar wahân. Dangosodd y canlyniadau:

Lefelau trais. Mae trais dynion yn fwy tebygol o arwain at anaf corfforol. Dim ond 1% o ddynion gafodd eu anafu yn ddifrifol gan eu partneriaid o'u cymharu â 10% o ferched. Yn aml mae dynion gyda'r bwriad o frifo eu partner - er enghraifft, drwy ei chicio neu ei phwnio yn ddi-drugaredd, neu drwy tharo ei phen yn erbyn wal.

Yn anaml iawn mae merched yn bwriadu brifo. Pan fyddent, mae rhan amlaf fel ffurf o hunan-amddiffyn ar ôl blynyddoedd o gamdrin corfforol. Hyd yn oed bryd hynny, fe fyddent yn stopio ar ôl llwyddo i reoli'r sefyllfa, yn wahanol iawn i nifer o ddynion treisgar.

Bygythiad a Dychryn. Mae trais gan ddyn yn fwy tebygol o fod yn fygythiol a brawychus. Weithiau mae merched ofn am eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf o ddynion yn gallu gwthio eu partner i ffwrdd gan chwerthin ar ei phen. Nid ydynt fel arfer yn teimlo'n ofnus na dan fygythiad.

## Cwestiynau

1. Pam fod data ar drais domestig yn anodd ei gasglu?
2. Pa ffactorau moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwilio trais domestig?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Trais domestig; trais sy'n digwydd yn y cartref.

## Esboniadau o Drais Domestig

### Bwledi

- Mae rhai theoriau yn awgrymu fod ddynion sydd yn camdrin eu partneriaid yn dioddef o broblem seicolegol.
- Cred cymdeithasegwyr fod trais yn ffurf o reolaeth gymdeithasol.
- Mae nifer o ddioddefwyr yn beio eu hunain ac yn cuddio'r hyn sy'n digwydd iddynt.

### Testun

Mae rhai theoriau yn awgrymu fod dynion sydd yn cam-drin eu partneriaid yn dioddef o fath o broblem seicolegol. Mae rhestr hir o broblemau posibl wedi ei greu. Mae awgrymiadau yn amrywio o abnormalrwydd yn yr ymenydd, plentyndod ansicr, i wylltineb afreolus oherwydd gwrthdaro teuluol yn ystod plentyndod ac arddegau. Mae'r problemau hyn yn cael eu mynegi mewn trais domestig.

Mae cymdeithasegwyr wedi beirniadu'r theorïau seicolegol am y rhesymau canlynol.

- Mae trais domestig yn fyd-eang. Nid yw'n gyfyngedig i'r lleiafrif sydd wedi eu tarfu'n feddyliol.
- Mae theorïau seicolegol yn tueddu i anwybyddu'r gymdeithas eang a'i werthoedd. Maent yn anwybyddu'r posibilrwydd ein bod yn byw mewn cymdeithas batriarchaidd lle mae dynion yn dymuno dominyddu merched.

Esboniadau ffeministaidd - dominyddiaeth gwrywaidd.

Mae llawer o ymchwilwyr yn gweld trais domestig fel ffurf o reolaeth gymdeithasol, dynion yn rheoli merched. Mae wedi eu sylfaenu ar rym a'r bygythiad o rym. Mae ffeministiaid yn gweld trais domestig fel mynegiant o batriarchaeth - lle caiff merched eu rheoli a'u israddio gan ddynion. Mae ymchwiliad Nazroo a llawer o arolygon eraill yn dogfennu esiamplau lu o drais dynion yn erbyn merched. Yn aml dynion sydd yn ceisio anafu eu gwragedd neu bartneriaid.

Mae ymchwilwyr wedi amlinellu'r gwahanol ymatebion i drais domestig. Un ohonynt yw eu cuddio, mae merched yn aml yn ceisio cuddio'r trais maent yn ddioddef. Mae hyn oherwydd cywilydd neu ofn y gwnaiff eu partner fynd yn fwy treisgar os yw'r ymddygiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus. Er hyn, fe fydd rhai yn ymddiried mewn perthynas neu ffrind agos.

Mae eraill yn beio eu hunain am yr hyn sydd yn digwydd a'r trais maent yn eu dioddef. Yn rhannol mae hyn oherwydd diffyg hyder oherwydd y cywilydd o drais. Mae hefyd yn ganlyniad i'r unigolyn yn teimlo fel methiant. Mae trais domestig yn awgrymu eu bod wedi methu a gofalu am y teulu sef eu cyfrifoldeb nhw.(Allan & Crow 2001).

Ymateb arall yw arwahanrwydd cymdeithasol lle mae merched yn teimlo'n unig ac nid oes

© CBAC / WJEC 2015

ganddynt neb i droi atynt am gymorth. Mae hyn oherwydd ofn ymateb eu partner os ydynt yn troi at eraill am help.

Mae llawer o ferched eraill yn aros gyda'u partneriaid oherwydd eu bod yn credu nad oes dewis arall. Mae'n bosib iddynt golli eu cartrefi a'u cefnogaeth ariannol ac felly mae'n rhaid iddynt aros yn enwedig os oes ganddynt blant.

### Cwestiynau

1. Sut mae esboniadau seicolegol yn wahanol i rai cymdeithasegol?
2. Awgrymwch resymau pam fyddai dioddefwyr trais domestig yn teimlo'n euog.

### Allweddeiriau

- Gwerthoedd: egwyddorion neu'r credoau sy'n llywio pobl ac yn effeithio ar eu gweithredoedd.
- Rheolaeth Gymdeithasol: dull / dulliau o reoli ymddygiad pobl.
- Arwahanrwydd Cymdeithasol: ddim yn teimlo'n aelod cyflawn o'r gymdeithas

## Camdrin Plant

### Bwledi

- Nid yw'r gofrestr camdrin plant yn ddangosydd dibynadwy o faint o achosion o gamdrin plant sydd yn digwydd mewn gwirionedd.
- Dynion sydd yn fwyaf tebygol o gamdrin eu plant.
- Mae pobl sydd yn camdrin plant wedi eu canolbwyntio mewn grwpiau incwm isel.
- Mae data yn awgrymu fod plant o deuluoedd un-rhiant dan fwy o risg o bob ffurf o gamdriniaeth.

### Testun

Mae achosion o gamdriniaeth yn cael eu riportio gan y cyhoedd, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, athrawon ac eraill. Mae'r achosion hyn wedyn yn cael eu hymchwilio gan weithwyr cymdeithasol sydd yn gorfod penderfynu a ddylai'r plant gael eu gosod ar gofrestr amddiffyn plant. Mae dwy broblem gyda'r gofrestr hon :

- Yn gyntaf, mae yna nifer o achosion sydd ddim yn cael eu riportio
- Yn ail, maent yn adlewyrchu pryderon a blaenoriathau llywodraethau, awdurdodau lleol a'r cyhoedd e.e. yn 1978 ychydig yn unig a wyddir am gamdrin rhywiol - nid oedd yn cael ei ystyried yn fater swyddogol na chyhoeddus. Erbyn canol yr 1980au, roedd blaenoriaethau wedi newid ac fe gynyddodd y cofrestriadau am gamdrin rhywiol yn aruthrol.

Nid oes yna astudiaethau manwl ar gael i edrych ar ehangder camdrin corfforol yn y DU. Mae yna rai astudiaethau o gosb corfforol ar blant e.e. darganfu Newson a Newson ( 1989 ) mewn astudiaeth hydredol o 700 o deuluoedd yn Nottingham, bod 41% o blant 7 oed yn cael eu taro o leiaf unwaith yr wythnos, a bod 22% o famau yn defnyddio amryw o bethau fel strapiau, cansen a sliperi.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

Beth yw gender, safle cymdeithasol a sefyllfa deuluol arferol y rhai sydd yn cam-drin plant?

Gender

Mae dadansoddiad o gamdriniaethau a gafodd eu reportio rhwng 1983 a 1987 wedi gweld fod tadau yn ymwneud a 61% o achosion a mamau ;mewn 36% o'r achosion. Mae mamau yn fwy tebygol o fod yn ymwneud ac esgelustod a cham-drin emosiynol.( Creighton & Noyes )
Mae gwrywon yn llawer mwy tebygol o gam-drin yn rhywiol. Mewn arolwg o blant sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol yn ysbyty Great Ormond Street rhwng 1980 a 1986 dim ond 8 allan o 411 oedd wedi eu cam-drin gan ferched.(Ben-Tovin et al. 1988)

Tlodi

Mae pobl sydd yn cam-drin plant yn gorfforol wedi eu canolbwyntio mewn grwpiau incwm isel. Mae ystadegau o'r Adran Iechyd(1995) yn dangos fod 95% o blant ar y gofrestr diogelu plant yn dod o deuluoedd sydd yn byw mewn tlodi. Ond oes yna gysylltiad rhwng tlodi a cham-drin plant neu a ydynt yn fwy tebygol, o gael eu dal oherwydd eu cysylltiadau a gwasanaethau cymdeithasol? (Corby 2000)

Mae data arolwg yn datgan fod cam-drin rhywiol wedi ei ledaenu ar draws y grwpiau cymdeithasol hyn.Serch hynny mewn astudiaeth gan Ysbyty Great Ormond Street roedd 92% o achosion o gamdrin rhywiol wedi dod o gefndiroedd maniwal dosbarth gweithiol. Eto efallai bod hyn yn adlewyrchiad o'r cysylltiad a gwasanaethau cymdeithasol.

Strwythur Teuluol

Mae ystadegau swyddogol yn awgrymu fod plant o deuluoedd un rhiant dan fwy o risg o bob ffurf o gamdriniaeth. Mae teuluoedd un rhiant yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac o fod mewn cysylltiad aml a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae plant sydd yn byw mewn teuluoedd ailgyfansoddedig hefyd o dan fwy o risg o gael eu cam-drin. Er gall hyn ddim bod o ganlyniad i'r sefyllfa deuluol.

## Cwestiynau

1. Cynigiwch resymau pam fod dim llawer o ymchwil ar gamdrin plant.

## Allweddeiriau

- Dosbarth gweithiol maniwal: gwaith sydd â llaw
- Teulu un-rhiant: teulu ble mae'r plant yn byw gyda unai y fam neu'r tad.
- Teulu ailgyfansoddedig: teulu sy'n gyfuniad o ddau deulu blaenorol.

© CBAC / WJEC 2015

# Pa effaith mae polisïau cymdeithasol yn ei chael ar deuluoedd ym Mhrydain?

## Cyflwyniad

### Bwledi

- Mae yna nifer fawr o ddeddfau sy'n effeithio ar fywyd teuluol ym Mhrydain.
- Mae'r wladwriaeth les yn rhagdybio bod teuluoedd yn cynnwys dau riant - tad sy'n gweithio i ennill cyflog a mam sy'n aros gartref. Mae hyn yn wahanol iawn i realiti bywydau llawer iawn o bobl.
- Mae gwleidyddion yn tueddu i ystyried rhai ffurfiau teuluol fel rhai mwy effeithiol ac effeithlon nag eraill.
- Mae cymdeithasegwyr wedi astudio'r effaith a gaiff y llywodraeth ar fywyd teuluol.

### Testun

Mae yna lawer iawn o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y teulu ac ar strwythur y teulu. Mwy, mae'n debyg, nag y mae pobl yn ymwybodol ohonynt ond, i grybwyll un maes yn unig, mae yna reolau caeth ynghylch pwy y gallwn eu priodi, sawl person y gallwn eu priodi ar yr un pryd, ac â phwy a beth y gallwn gael rhyw. Pan ddechreuwn ychwanegu at hynny reolau ym meysydd treth a phensiwn, addysg, oriau gwaith, tâl mamolaeth a thadolaeth, rheolau iechyd a gofal cymdeithasol, yna daw'r nifer o ddeddfau sy'n gallu effeithio ar deuluoedd i bersbectif. Yn wleidyddol, mae'r teulu yn fater pwysig gan fod llawer o bobl yn credu bod rhai mathau o deuluoedd yn fwy 'cywir' nag eraill. Er enghraifft, telir llawer o sylw yn y wasg i rieni sengl ac i famau ifanc iawn.

Pan sefydlwyd y wladwriaeth les ym Mhrydain ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, cymerwyd yn ganiataol mai'r dynion oedd yn ennill cyflog i gynnal y teulu, tra bod y merched yn aros gartref i ofalu am blant a phobl oedrannus. Roedd y rhagdybiaeth hon yn rhedeg drwy bob elfen o gymdeithas ym Mhrydain felly, mewn ysgolion, roedd merched yn dysgu sgiliau domestig a bechgyn yn dysgu sgiliau gwaith coed. Mae llawer o wleidyddion a sylwebyddion cyhoeddus yn parhau i ystyried y model hwn o fywyd teuluol fel yr un mwyaf effeithiol, er gwaethaf y newidiadau enfawr sy'n digwydd oddi mewn i deuluoedd a chymdeithas ym Mhrydain.

Mae'r farn bod rhai ffurfiau teuluol mewn rhyw ffordd yn 'well' nag eraill i'w gweld yn glir mewn nifer o bolisïau'r llywodraeth. Er enghraifft, er bod hawl gan rai parau un-rhyw i gael Partneriaethau Sifil, gyda hawliau cyfreithiol tebyg i rai sy'n perthyn i barau priod heterorywiol, nid yw'r berthynas hon yn cael ei galw'n briodas yn ôl y gyfraith. â'r Blaid Geidwadol yn bennaf y cysylltir y farn fod rhai mathau o deuluoedd yn well nag eraill; mae gan y blaid bolisïau a fyddai'n cynnig manteision treth i barau i'w cymell i barhau'n briod. Yn 2006 awgrymodd Iain Duncan Smith, gwleidydd Torïaidd, bod chwalu teuluoedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, dyledion a meddiant addysgiadol. Yn ei farn ef, un o'r prif broblemau oedd y ffaith bod llawer iawn o berthnasau cyd-fyw rhwng parau â phlant yn chwalu. Felly mae'r teulu, a pholisïau'r teulu, wedi bod yn faes lle cafwyd llawer o drafod ac o ymchwil.

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Pa rannau o fywyd teuluol sy'n cael eu rheoli gan ddeddfau?
2. Pam y mae'r wladwriaeth les yn rhagdybio bod dynion yn gweithio i ennill cyflog a merched yn gofalu?
3. A oes rhai ffurfiau teuluol yn 'well' nag eraill?

### Allweddeiriau

- Y Wladwriaeth Les - y system sy'n bodoli ym Mhrydain i ofalu am bobl: y Gwasanaeth Iechyd, y System Budd-daliadau, y Gwasanaeth Addysg, y gwasanaethau Argyfwng ac ati.
- Ideoleg - casgliad o syniadau neu system o gredoau.

## Ysgariad, a'i effaith ar deuluoedd

### Bwledi

- Mae yna gryn drafod ynghylch polisi ar ysgaru, gyda rhai gwleidyddion yn ei dderbyn fel rhan o fywyd, ond eraill yn ei weld mewn goleuni negyddol.
- Mae tystiolaeth gymdeithasegol yn rhanedig ar y pwnc.
- Mae merched sy'n ysgaru neu wahanu'n debygol o ddioddef tlodi.
- Ymddengys fod teuluoedd yn addasu i ysgariad rhag bod pobl hŷn neu blant yn dioddef yn ormodol.

### Testun

Wrth i ysgaru ddod yn haws, a rhagor o bobl yn dewis cyd-fyw, mae yna dystiolaeth gref i awgrymu bod pobl heddiw yn cael mwy o brofiad o chwalu teulu o'i gymharu â'r sefyllfa 50 mlynedd yn ôl. Yn 2000 honnodd Ed Straw, Cadeirydd Relate, elusen cynghori teuluoedd, 'po fwyaf o sefydlogrwydd teuluol sydd gennych, y lleiaf yn y byd o fudd-daliadau y bydd raid i chi eu talu'. Yn 2007 dywedodd Alan Johnson, Ysgrifennydd Addysg y Llywodraeth Lafur, 'Nid teulu priod yw'r teulu modern bob amser. Gall priodas gynnig sefydlogrwydd, ond nid yw'n gweddu i bawb'. Honnir i David Cameron, Arweinydd y Blaid Geidwadol, ddweud yn 2007, 'Mae priodas yn sefydliad gwych, a dylem ei gefnogi. Pe bai'r nifer o briodasau'n cynyddu, pe bai'r nifer o ysgariadau'n gostwng, petai rhagor o barau'n aros gyda'i gilydd am gyfnod hirach, a fyddai ein cymdeithas ar ei hennill? Fy ateb i yw "byddai".

Darganfu Burgess a Propper (1999) o Brifysgol Bryste fod 26% o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yn cael eu hunain yn y sefyllfa honno oherwydd newidiadau yn amgylchiadau'r teulu, gydag ysgaru a gwahanu'n ffactorau arwyddocaol. Fodd bynnag, nid oedd y cysylltiad bob amser yn gwbl glir - gall ysgaru a gwahanu 'gael eu hachosi gan ddiweithdra, neu i'r gwrthwyneb'. Darganfuwyd, tra bod ysgaru a gwahanu'n cael effaith ddofn iawn ar ddynion, mae'n cael effaith fwy llym ar ferched gan eu bod hwy'n ei chael yn fwy anodd i ddianc rhag tlodi oherwydd bod eu henillion yn is.

Bu Glaser (2007) yn ymchwilio i'r effaith mae rhwyg yn y teulu ac ysgariad yn eu cael ar fywydau pobl hŷn. Ei phryder oedd na fyddai pobl hŷn a oedd wedi cael profiad o ysgariad yn cael yr un math o gymorth teuluol ag yn achos y rhai nad oedd wedi cael

© CBAC / WJEC 2015

profiad o rwyg yn y teulu. Awgrymai ei phrif ganfyddiadau fod rhieni oedrannus yn cael mwy o help gan eu plant, a bod ganddynt fwy o amser i helpu eu plant o oedolion i ofalu am yr wyrion. Deuir i'r casgliad fod gan deuluoedd ddulliau o estyn cymorth i aelodau o'r teulu, hyd yn oed os cafwyd rhwyg gynnar yn y teulu.

Darganfu Bren Neale (2004), mewn ymchwil ansoddol a seiliwyd ar gyfweld plant o berthnasau oedd wedi rhwygo, nad ysgariad ynddo'i hun yw'r ffactor allweddol sy'n effeithio ar blant pan fo teuluoedd yn chwalu; natur yr ysgariad a newid yn y teulu sy'n achosi'r problemau. Mae ysgariad a gwahanu'n rhoi llai o straen ar blant sy'n cadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, o'u cymharu â phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth un rhiant. Os yw plant yn gallu cadw rhywfaint o reolaeth dros y sefyllfa, a bod y rhieni'n ymgynghori â hwy, yna nid yw ysgariad neu wahanu'n golygu llawer mwy i blant na'r problemau sy'n codi o ddydd i ddydd ac sy'n gallu effeithio ar unrhyw un: rhywioldeb, ysgol, tlodi, ffrindiau a gwaeledd tymor-hir.

### Cwestiynau

1. Pa effaith mae ysgariad yn ei gael ar fywyd teuluol?
2. A ddylai gwleidyddion wneud sylwadau ar fathau gwahanol o deuluoedd? Beth yw eich barn chi?

### Allweddeiriau

- Ansoddol - casglu ystyron ac ymchwil i deimladau a chanfyddiadau.

## Rôl y tad

### Bwledi

- Mae syniadau traddodiadol am rôl y tad yn dechrau chwalu, ond mae llawer yn parhau i roi gwerth ar rôl y person sy'n ennill cyflog yn eu teuluoedd.
- Mae polisïau'r llywodraeth yn honni eu bod yn cefnogi rôl y tad, a chafwyd cynlluniau i geisio gorfodi dynion i gynnal eu teuluoedd yn ariannol.
- Mae'r ffordd mae'r system gyfreithiol yn gweithio yn achos tor-priodas, a'r diwylliant gweithio oriau hirion sy'n bodoli ym Mhrydain, yn golygu bod dynion yn cael trafferth i dreulio digon o amser gyda'u plant.

### Testun

Mae polisïau dros yr ugain mlynedd ddiwethaf wedi ymateb i'r twf mewn aelwydydd un-rhiant trwy ddelio â phroblem tadau 'didoreth' sy'n gwrthod neu sy'n anfodlon derbyn cyfrifoldeb ariannol neu emosiynol am y dasg o fagu eu plant. Ar y rhaglen Newsnight (Chwefror 2007) awgrymodd David Cameron, arweinydd y Blaid Dorïaidd, y dylid gorfodi tadau i aros gyda'u teuluoedd. Nid yw hon yn sefyllfa newydd. Yn gynnar yn yr 1990au, ffurfiwyd yr Asiantaeth Cynnal Plant gan lywodraeth Dorïaidd y dydd gyda'r bwriad o gasglu arian gan rieni absennol, yn enwedig tadau, er mwyn gallu cynnal mamau sengl a gostwng y taliadau budd-dal oedd yn llethu'r system. Roedd hwn yn brosiect tu hwnt o gostus, a derbyniwyd nifer fawr o gwynion yn ei gylch. Yn 2006, bwriad y Blaid Lafur oedd diwygio'r Asiantaeth. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gwbl bendant i brofi bod tadau'n

© CBAC / WJEC 2015

anghyfrifol, gan fod ysgariadau'n cael eu cychwyn gan ferched yn amlach na chan ddynion, ac anaml y mae hynny'n digwydd oherwydd bod y gŵr yn gadael y wraig yn amddifad. Yn ogystal, mae merched yn dewis ysgaru ar gryn gost bersonol iddynt eu hunain, gan fod tadau'n llai tebygol o ddioddef tlodi yn dilyn chwalu'r teulu.

Oddi ar yr 1970au, cafwyd cryn dipyn o drafodaeth gymdeithasegol a gwleidyddol ar wrywdod a rôl y tad. Yn yr 1970au, roedd ffeministiaid yn cwyno bod cymdeithas yn batriarchaidd, a thynnwyd sylw at ferched yn cael eu gormesu mewn teuluoedd cnewyllol traddodiadol. Bellach mae dadl wahanol yn dod i'r amlwg ac mae Bob Connell (1987), cymdeithasegwr o Awstralia, er enghraifft, yn gysylltiedig â'r farn fod yna nifer o ffurfiau gwrywaidd ar gael i ddynion ddewis ohonynt, gyda rhai ffurfiau'n fwy derbyniol nag eraill. Awgrymodd Jim Rose (2004) fod y rhan a chwaraeir gan y tad yn allweddol wrth berswadio bechgyn i ystyried bod addysg yn bwysig. O ganlyniad i'w ymchwil, galwodd ar dadau i dreulio mwy o amser yn darllen gyda'u plant. Mae ymchwil gan Hatter ac eraill (2002) yn awgrymu bod yna o leiaf bedwar model gwahanol o dadolaeth, ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith mai un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar ddynion yn cymryd rôl weithredol wrth fagu plant yw ein diwylliant gweithio oriau hirion.

Teuluoedd yn cynnwys llys-riant yw'r math o deulu sy'n tyfu gyflymaf ac, yn ôl yr ESRC yn 2007, llystadau yw 20% o dadau 34 oed. Darganfu Gorell Barnes ac eraill (1998) fod y cysyniad o lystad yn gymhleth ynddo'i hun gan nad yn y termau hynny roedd llawer o blant a llystadau'n gweld y berthynas - naill ai oherwydd eu bod mewn perthynas glòs neu, fel arall, oherwydd nad oeddynt wedi closio o gwbl. Mae astudiaethau'n aml yn dangos bod llawer o dadau'n colli cysylltiad â'u plant yn dilyn ysgariad, a bod y system gyfreithiol yn hybu hyn. Arweiniodd hyn at ffurfio Grwpiau Hawliau Tadau megis Tadau dros Gyfiawnder (Fathers for Justice) sydd wedi ymgyrchu'n gyhoeddus sawl gwaith. Yr awgrym, felly, yw bod y llywodraeth - trwy gyfrwng y CSA - yn pwysleisio'r elfen ariannol o fod yn dad, ond yn anwybyddu'r elfennau o berthynas emosiynol sy'n rhan o fod yn dad.

### Cwestiynau

1. Pa dystiolaeth sydd yna i ddangos bod tadau'n ymddwyn yn anghyfrifol tuag at eu plant?
2. Pa mor bwysig yw rôl y tad yn ein cymdeithas?

### Allweddeiriau

- Diwylliant gweithio oriau hirion - ym Mhrydain, disgwylir i bobl weithio am fwy o oriau nag mewn llawer o wledydd Ewropeaidd.
- Rhiant absennol - rhiant nad yw'n byw gyda'r teulu.

## Cyfrifoldeb rhieni

### Bwledi

- Nid yw'r gyfraith yn trin pob rhiant yn gyfartal. Mae gan dadau di-briod lai o hawliau.
- Mae'r llywodraeth yn ceisio gorfodi rhai rhieni i gymryd mwy o reolaeth dros eu plant mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Nid yw eto'n amlwg o gwbl y bydd hwn yn bolisi effeithiol.

© CBAC / WJEC 2015

### Testun

Yn y ffordd y mae'r system gyfreithiol yn gweithredu, gellir gweld tystiolaeth bellach o'r ffaith nad yw pob math o deulu'n cael eu hystyried fel rhai 'cywir'. Nid yw'r gyfraith yn trin pob rhiant yn gyfartal. Er gwaetha'r ffaith bod mwy na thraean y babanod a aned yn 1999 wedi'u geni y tu allan i briodas, ychydig o hawliau mae'r gyfraith yn eu rhoi i dadau di-briod. Mae gan famau a thadau fel ei gilydd gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ond mae'n rhaid i dad di-briod - hyd yn oed un mewn perthynas sefydlog - gael dogfen cyfrifoldeb-rhiant gyfreithiol cyn y gall hyd yn oed arwyddo ffurflen ganiatâd ar gyfer tripiau ysgol. Wrth gynnal arolwg o 200 o dadau, darganfu Ros Pickford (1999) mai ychydig iawn ohonynt oedd yn ymwybodol o'u diffyg hawliau cyfreithiol, er gwaetha'r ffaith bod agweddau tadau di-briod a phriod tuag at fod yn rhiant, a'u hymrwymiad i'w partneriaid a'u plant, yn debyg iawn i'w gilydd.
Mae mater cyfrifoldeb rhieni bellach wedi cynyddu mewn pwysigrwydd wrth i'r llywodraeth geisio ateb problemau troseddoldeb trwy gyfeirio at y ffordd mae rhai pobl yn dewis magu eu plant. Yn 2005, cyflwynodd y Llywodraeth Lafur bolisi newydd o'r enw Agenda Parch. Yn achos plant sy'n debygol o dderbyn ASBOs, gall asiantaethau megis swyddogion diogelwch cymunedol fynnu bod rhieni'n mynychu dosbarthiadau lle gallant ddatblygu sgiliau fel rhieni a chymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad eu plant. Gall rhieni plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol wynebu dirwyon o hyd at £1,000, ac mae un fam eisoes wedi'i charcharu ddwywaith am ganiatáu i'w merched chwarae triwant o'r ysgol. Mae Gill Jones (2000) wedi awgrymu nad yw'n ddiogel i'r llywodraeth ragdybio bod plant yn ddibynnol ar eu rhieni, neu y bydd neu y gall rhieni gymryd cyfrifoldeb dros eu plant. Mae llawer o blant sy'n dod i sylw'r heddlu wedi cael profiad o anfantais yn gynnar yn eu bywydau. Mae dynion ifanc, yn enwedig, yn cael eu heithrio'n gymdeithasol oherwydd bod ganddynt lai o gymwysterau a'u bod yn llai derbyniol oherwydd eu bod mewn gwaith sy'n talu cyflog isel. Mae hyn yn eu gwneud yn agored i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### Cwestiynau

1. A yw pob rhiant biolegol yn cael ei drin yn gyfartal?
2. Esboniwch bwrpas yr Agenda 'Parch'.
3. A ddylid cael deddfwriaeth i orfodi rhieni i reoli ymddygiad eu plant?

### Allweddeiriau

- ASBO - gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Sut mae ffwythiannwyr yn egluro ffurfiau teuluol?

## Safbwynt Ffwythiannol

### Bwledi

- Mae'r teulu yn hanfodol ar gyfer lles a pharhad y gymdeithas.
- Yn ôl Murdock mae'r teulu yn cyflawni pedwar swyddogaeth pwysig.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Testun

Yn draddodiadol, y dylanwad mwyaf ar gymdeithaseg y teulu oedd theori ffwythiannol a bwysleisiai'r rôl gyffredinol a swyddogaethol a chwaraeai'r teulu mewn cymdeithas, a'r manteision i'r unigolyn o fod yn aelod o deulu.

Mae theorïau ffwythiannol ynghylch cymdeithas wedi ei seilio ar y dybiaeth fod cymdeithas yn gweithredu ar sail consensws a bod tuedd tuag at gydbwysedd rhwng y gwahanol rannau o gymdeithas fel eu bod yn cydweithio mewn cytgord. Tuedda ffwythiannwyr i ragdybio, os yw sefydliad cymdeithasol yn bodoli, yna bod yn rhaid bod iddo swyddogaeth neu bwrpas. Edrychir ar y teulu yn aml felly yn nhermau'r swyddogaethau y mae'n eu cyflawni er llês cymdeithas a'r unigolyn. Mae dadansoddiad Murdock o swyddogaethau cyffredinol (universal) y teulu yn enghraifft dda o'r safbwynt hwn, gyda'i bwyslais ar swyddogaethau hanfodol y teulu ym mhob cymdeithas. Mae theorïau ffwythiannol yn pwysleisio'r cyd-berthynas rhwng y teulu a sefydliadau cymdeithasol eraill, e.e. mae'r teulu'n paratoi plant i dyfu yn oedolion gweithiol ac i ymgymryd â rolau yn yr economi i'w cynnal eu hunain a'r rhai sy'n dibynnu arnynt. Yn y ffordd yma mae system y teulu a'r system economaidd yn cyd-cysylltu.
Wrth ddadansoddi'r teulu o safbwynt ffwythiannol codir tri phrif gwestiwn:

1. Beth yw swyddogaethau'r teulu? (mae atebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cyfraniadau a wneir gan y teulu i gynnal y gyfundrefn gymdeithasol).
2. Beth yw'r berthynas swyddogaethol rhwng y teulu a rhannau eraill o'r gyfundrefn gymdeithasol? (e.e. rhaid i'r teulu fod wedi'i integreiddio i ryw raddau â'r system economaidd / ystyrir yr angen i ni archwilio'r berthynas rhwng y teulu a diwydiannu)
3. Mae'r cwestiwn yma'n ymdrin â'r swyddogaethau a gyflawnir gan sefydliad neu ran o gymdeithas ar ran yr unigolyn. Yn achos y teulu, mae'r cwestiwn yma'n ystyried swyddogaethau'r teulu ar ran ei aelodau unigol.

Un o'r ffrwythiannwyr cyntaf i ddadansoddi'r teulu oedd George Murdock a ddadleuodd bod y teulu'n cyflawni pedair swyddogaeth sylfaenol ym mhob cymdeithas:

1. rhywiol
2. atgenhedlol
3. economaidd
4. addysgol

Mae'r rhain yn hanfodol i fywyd cymdeithasol gan na fyddai aelodau gan gymdeithas heb y swyddogaethau rhywiol ac atgenhedlol; heb y swyddogaeth economaidd (e.e. darparu a pharatoi bwyd) fe ddeuai bywyd i ben; a heb addysg (term a ddefnyddir gan Murdock i olygu cymdeithasoli) ni fyddai dim diwylliant.

Ni allai cymdeithas ddynol weithio heb ddiwylliant. Yn amlwg, nid y teulu yw'r unig sefydliad sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn. Ond y mae'n gwneud cyfraniadau pwysig i bob un ohonynt a does dim sefydliad arall wedi'i ddyfeisio eto i gystadlu â'i effeithiolrwydd yn hyn o beth.

## Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Beth a olygir wrth gyfeirio at swyddogaethau'r teulu?
2. Eglurwch bedwr swyddogaeth sylfaenol y teulu.

### Allweddeiriau

- Ffrwythiannwyr - cymdeithasegwyr sy'n pwysleisio y fordd mae sefydliadau cymdeithasol yn cyd-weithio i greu cymdeithas llwyddiannus.
- Swyddogaeth - pwrpas, y rôl a chwareir.
- Consensws - cytundeb a chydweithio.
- Cyfundrefn cymdeithasol - trefn sy'n bodoli yn y gymdeithas

## Swyddogaethau ar ran Unigolion a Chymdeithas

### Bwledi

- Cred Murdock mai'r teulu yw'r sefydliad gorau er mwyn cyflawni gofynion unigolion a chymdeithas.

### Testun

Mae fwythiannwyr yn credu fod teuluoedd yn cyflawni swyddogaethau pwysig o safbwynt unigolion a'r gymdeithas. Mae'r swyddogaeth rhywiol yn cynnig enghraifft dda o sut mae'r teulu yn cyflawni ei swyddogaethau :- Mae gan ŵr a wraig hawl rhywiol ("sexual access") i'w gilydd, ac yn y rhan fwyaf o gymdeithasau ceir rheolau sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar weithgaredd rhywiol y tu allan i briodas. Mae hyn yn rhoi boddhad rhywiol i'r gŵr a'r wraig.

Mae hefyd yn cryfhau'r teulu, gan fod yr emosiynau cryf, sy'n cyd-fynd â gweithgareddau rhywiol yn uno'r gŵr a'r wraig ac felly'n cryfhau yr uned deuluol. Mae'r swyddogaeth rhywiol hefyd yn helpu i sefydlogi cymdeithas. Mae'r rheolau sydd i raddau helaeth yn cau gweithgaredd rhywiol o fewn y teulu yn atal yr effeithiau drwg tebygol ar y drefn gymdeithasol a ddigwyddai pe caniateid "rhwydd hynt" i'r ysfa rywiol. Felly y mae'r teulu yn rhoi "rheolaeth a mynegiant" i'r ysfa rywiol ac, wrth wneud hynny, yn cyflawni swyddogaethau pwysig- nid yn unig i'w aelodau unigol, ond hefyd i'r teulu fel sefydliad ac i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mae Murdock yn defnyddio rhesymeg debyg wrth drafod y swyddogaeth economaidd. Mae'n dadlau ei fod, fel rhyw, yn "most readily and satisfactorily achieved by persons living together". Cyfeiria at raniad llafur o fewn y teulu, ble mae'r gŵr yn arbenigo mewn rhai gweithgareddau, a'r wraig mewn eraill, e.e. y gŵr yn gweithio yu allan i'r cartref i ddod a chyflog i gynnal y teulu tra fo'r wraig adref yn gyfrifol am y tasgau domestig a magu plant
Mae'r cydweithrediad economaidd hwn o fewn y teulu nid yn unig yn mynd beth ffordd tuag at gyflawni'r swyddogaeth economaidd ar ran cymdeithas gyfan, ond hefyd yn darparu "profiadau buddiol" i wŷr a gwragedd sy'n cydweithio, gan "gadarnhau eu huniad".

Dyma ei gasgliad:

"No society has succeeded in finding an adequate substitute for the nuclear family, to which it might transfer these functions. It is highly doubtful whether any society will ever succeed in such an attempt."

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Sut byddai Murdock yn egluro'r swyddogaethau atgenhedlol ac addysgol y teulu.
2. Beth yw gwendidau dadl Murdock?

### Allweddeiriau

- Rhaniad llafur - sut mae tasgau domestig wedi'u rhannu yn y cartref rhwng yr aelodau e.e. gŵr a gwraig.

## Beirniadaeth ar Murdock

### Bwledi

- Mae dadansoddiad Murdock yn anwybyddu agweddu negyddol bywyd teuluol.
- Nid yw'n adlewyrchu yr amrywiaeth deuluol sydd ym Mhrydain heddiw.

### Testun

Yn ei frwdfrydedd dros y teulu, nid yw Murdock yn ystyried o ddifrif a allai swyddogaethau y teulu gael eu cyflawni gan sefydliadau cymdeithasol eraill, ac nid yw'n archwilio patrymau amgen ("alternative") i'r teulu.

Nododd D.H.J. MORGAN y gallai sefydliadau eraill gyflawni swyddogaethau'r teulu yr un mor hawdd, ac nad yw'n angenrheidiol cael teulu fel y cyfryw. Nid yw Murdock yn ateb y cwestiwn "i ba raddau y mae'r swyddogaethau sylfaenol hyn yn gorfod bod yn gysylltiedig â sefydliad y teulu niwcliar".

Mae diffiniad Murdock yn gweld y teulu fel sefydliad delfrydol. Mae safbwyntiau eraill ar fywyd teuluol yn dangos yr elfennau negyddol. Fel y dywed Morgan:

"Murdock's nuclear family is a remarkably harmonious institution. Husband and wife have an integrated division of labour and have a good time in bed."

Nid yw pwyslais Murdock ar cydweithio ac integreiddiad yn cael ei rannu gan rai ymchwilwyr eraill sy'n cyfeirio at ochr dywyll bywyd teuluol.

Erbyn heddiw mae'r theori yn ddyddiedig. Fel y gwyddwn eisioes mae llai a llai o bobl yn byw fel teulu niwclear ac nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw'r patrymau teuluol eraill er enghraifft un rhiant, cwpl hoyw a lesbiaid yn medru cyflawni swyddogaethau hanfodol megis cymdeithasoli llwyddiannus plant.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r gwendidau yng ngwaith Murdock ?

### Allweddeiriau

- Swyddogaeth : pwrpas,y rôl a chwareir.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

- Diwylliant : ffordd o fyw mewn cymdeithas arbennig.
- Rhaniad llafur : sut mae tasgau domestig wedi'u rhannu yn y cartref rhwng yr aelodau e.e gŵr a gwraig.

## Talcott Parsons

### Bwledi

- Yn ôl Parsons mae dau brif swyddogaeth i'r teulu - cymdeithasoli cynradd a sefydlogi personoliaethau oedolion.
- Mae teuluoedd fel 'ffatrioedd' yn cynhyrchu personoliaethau dynol.
- Collodd y teulu rai o'i swyddogaethau gyda darblygiad diwydiannaeth.

### Testun

Mae Parsons yn canolbwyntio'i ddadansoddiad ar y teulu yng nghymdeithas fodern America (1955).
Roedd yn credu fod dau swyddogaeth sylfaenol gan y teulu niwclear.

1. Cymdeithasoli cynradd plant
Mae cymdeithasoli cynradd yn cyfeirio at gymdeithasoli yn ystod blynyddoedd cynnar plentyndod sy'n digwydd o fewn y teulu.Trwy'r teulu y caiff yr unigolyn ei gymdeithasoli i mewn i normau cymdeithas ac fe ddatblyga bersenoliaeth unigol sylfaenol. Dadl Parsons yw bod teuluoedd yn 'ffatrïoedd' sy'n cynhyrchu personoliaethau dynol. Mae'n credu eu bod yn hanfodol i'r pwrpas hwn gan fod cymdeithasoli cynradd yn gofyn am amgylchedd sy'n darparu cynhesrwydd, sicrwydd a chyd-gefnogaeth. Crêd Parsons na ellir cymryd lle'r teulu yn hyn o beth.

2. Sefydlogi personoliaethau oedolion
Ystyr hyn, yn ôl Parsons, yw bod ar oedolion angen sicrwydd emosiynol a ffynhonnell rhyddhad ("source of relief") oddi wrth bwysau ("stress") a straen bywyd yn y gymdeithas ehangach. Mae cefnogaeth emosiynol partneriaid mewn priodas, yn ogystal â'r cyfle i rieni ymddwyn yn blentynaidd gyda'u plant, yn darparu'r sicrwydd a'r rhyddhad hwn. Mae'n helpu i atal pwysau rhag mynd yn ormod i'r unigolyn a bygwth sefydlogrwydd ("stability") cymdeithas.

I Parsons, y teulu niwcliar yw'r sefydliad delfrydol i gyflawni'r swyddogaethau hanfodol hyn mewn cymdeithas ddiwydiannol. Fodd bynnag, gyda chyflwyniad a datblygiad diwydiannaeth
fel sefydliadau eraill, aeth y teulu'n fwy arbenigol. Collodd lawer o'i swyddogaethau e.e cymerwyd llawer o gyfrifoldebau addysgu a chymdeithasoli gan y system addysg. Gwanhawyd ei gysylltiadau â'r rhwydwaith carennydd ehangach wrth iddo addasu i anghenion cymdeithas ddiwydiannol a gwelwyd mwy o ddibyniaeth ar y wladwriaeth les am gefnogaeth mewn cyfnodau o angen.

Serch hynny, yn ô y frwythiannwyr, nid yw wedi colli ei ddwy swyddogaeth sylfaenol Y mae'r teulu niwcliar mewn cymdeithas ddiwydiannol yr un mor bwysig ag erioed.

### Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Beth yw swyddogaethau'r teulu yn ol Parsons?
2. Sut gellir cymharu'r teulu a ffatri?
3. Beth awgryma Parsons fyddai'n digwydd heb fodolaeth y teulu?

### Allweddeiriau

- Normau - disgwyliadau ynglŷn â sut i ymddwyn mewn sefyllfa arbennig.
- Cymdeithasoli - y broses o ddysgu ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'ch diwylliant.

## Beirniadaeth ar waith Parsons

### Bwledi

- Mae dadansoddiad Parsons yn ddyddiedig ac yn seiliedig ar teuluoedd dosbarth canol, Americanaidd.
- Mae'n anwybyddu amrywiaeth deuluol.
- Mae'n draddodiadol iawn o safbwynt rolau y gŵr a'r wraig - rolau gender arwahan.

### Testun

Fel Murdock, cyhuddwyd Parsons o ddelfrydu'r ("idealise") teulu gyda'i ddarlun o blant hapus a chyplau cydymdeimladol, yn dilyn rolau gender arwahan ac yn gofalu am holl anghenion ei gilydd.

Mae ei ddarlun wedi ei seilio i raddau helaeth ar y teulu Dosbarth Canol Americanaidd. Cyhudda D.H.J. Morgan Parsons o anwybyddu gwahaniaethau sylfaenol megis dosbarth cymdeithasol, crefydd ac ethnigedd ym mhrofiad pobl o'u bywydau teuluol.

Nid yw'n ymchwilio i'r gwahaniaethau posib rhwng teuluoedd dosbarth canol a gweithiol, na gwahanol strwythurau teuluol mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Fel Murdock, nid yw Parsons i raddau helaeth wedi ymchwilio i swyddogaethaethau eraill i'r teulu.

Mae lle i feirniadu golwg Parsons ar y broses o gymdeithasoli. Mae'n ei gweld fel proses un-ffordd ble caiff y plant eu pwmpio'n llawn o ddiwylliant a lle caiff eu personoliaethau eu mowldio gan rieni grymus. Mae anwybyddu effaith plant ar rieni. Mae'n tueddu i anwybyddu'r broses ryng-weithio ddwy-ffordd rhwng rhieni a phlant. Does dim lle yn ei gynllun ar gyfer y plant sy'n troi eu rhieni o gwmpas eu bys bach.

### Cwestiynau

1. Beth yw gwendidau syniadau Parsons o ystyried nature teuluoedd heddiw?
2. Sut mae bywyd teuluol yn gallu cael effaith negyddol ar unigolion?

### Allweddeiriau

- Rolau gender ar wahân - rolau sy'n benodol i fenywod a rolau sy'n benodol i wrywod.

© CBAC / WJEC 2015

## Gwerthuso theoriau ffwythiannol

### Bwledi

- Anwybyddant anfanteision y teulu.
- Teulu yn gweddu anghenion cymdeithas gyfalafol yn unig.
- Anwybyddu patrymau teuluol eraill.
- Gor-ddelfrydu'r uned deuluol.
- Anwybyddu ochr dywyll bywyd teuluol.

### Testun

Mae'r safbwynt ffwythiannol wedi cael ei feirniadu gan nifer o safbwyntiau cymdeithasegol eraill. Mae'n bosib crynhoi rhai o'r prif bwyntiau beirniadaeth fel hyn -

Mae theorïau ffwythiannol yn tueddu i ganolbwyntio ar swyddogaethau cadarnhaol y teulu heb roi fawr ddim ystyriaeth i'w anfanteision. Mae ffeministiaid, er enghraifft, yn pwysleisio natur gwryw-ddominyddol y berthynas deuluol draddodiadol.

Mae ffeministiaid yn dweud bod y rhan fwyaf o berthnasau teuluol yn batriarchaidd ac yn fuddiol i ddyn yn hytrach na'r ferch. Dywedant bod gan ddynion fwy o bŵer o fewn y teulu gan mai nhw sydd yn cael y cyflog mwyaf.

Mae ffwythiannwyr yn rhagdybio fod y teulu o fudd cyfartal i bawb. Ond mae Marcswyr yn dadlau fod cymdeithas wedi'i ffurfio yn ôl anghenion yr economi gyfalafol a bod y teulu'n bodoli er mwyn gwasanaethu'r anghenion hyn yn hytrach nag anghenion ei aelodau. Y dosbarth dominyddol mewn cymdeithasau cyfalafol sy'n elwa fwyaf ar y ffordd y mae teuluoedd wedi'u trefnu, yn hytrach na'r teulu ei hun a chymdeithas yn gyffredinol.

Nid yw ffwythiannwyr yn ystyried pa mor hyfyw yw dewisiadau amgen i'r teulu. Er enghraifft, dadleuwyd gan Betelheim fod y Kibbutz yn Israel yn cyflawni holl swyddogaethau teulu.

Mae cymdeithasegwyr dehongliadol yn dadlau fod ffwythiannwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar bwysigrwydd y teulu i gymdeithas ac yn anwybyddu'r ystyr sydd gan fywyd teuluol i unigolion.

Mae ffwythiannwyr yn rhagdybio bod teuluoedd yn perfformio swyddogaethau defnyddiol a hanfodol, i'r aelodau ac i gymdeithas. Portreadir cyplau priod yn byw yn hapus mewn harmoni, yn cael amser da yn y gwely, ac yn cenhedlu'r genhedlaeth nesaf. Awgryma'r raddfa ysgariad uchel sydd mewn nifer o wledydd gorllewinol nad yw hyn yn wir.

Oherwydd y darlun hwn o'r teulu perffaith, mae ffwythiannwyr yn dueddol o anwybyddu 'ochr dywyll' bywyd teuluol - gwrthdaro rhwng gwr a gwraig, dominyddiaeth dyn, camdrin plant. Nid ydynt yn rhoi digon o sylw i wendidau'r teulu - yr effeithiau niweidiol a allai hyn gael ar y gymdeithas ehangach.

### Cwestiynau

1. I ba raddau mae dadansoddiad ffrwythiannwyr o'r teulu yn berthnasol heddiw.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - theori sy'n credu fod merched yn ddarostynedig i awdurdod dynion/batriaracath a'r awydd am gydraddoldeb cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd dynion a merched.
- Cymdeithas gyfalafol - cymdeithas a roddir gwerth uchel ar lwyddiant ariannol.

## Y Dde Newydd

### Bwledi

- Cytuna'r theori Dde Newydd fod y teulu yn sefydliad cymdeithasol hanfodol.
- Credant fod dirywiad yr uned deuluol wedi arwain at ddirywiad cymdeithasol.
- Mae gwladwriaeth les rhy hael yn arwain at ffurfiau teuluoedd annigonol e.e mamau sengl.

### Testun

Fel cymdeithasegwyr ffwythiannol y mae meddylwyr y Dde Newydd yn gweld y teulu fel congl-faen cymdeithas. Mae nhw hefyd yn tueddu i weld teulu "normal" fel yr uned deuluol niwcliar, e.e. dywedodd John Redwood A.S. Torïaidd yn 1993: "the natural state should be the two-adult family caring for their children".
Mae safbwyntiau o'r fath yn aml yn adlewyrchu'r farn gymdeithasegol fod y teulu'n sefydliad "naturiol" wedi ei seilio ar ofynion biolegol. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r syniad fod y teulu "dan fygythiad" neu "ar i lawr" wedi cael cryn amlygrwydd. Tueddodd y farn hon i gael ei chefnogi nid yn gymaint gan gymdeithasegwyr, ond gan newyddiadurwyr, gwleidyddion a grwpiau gwasgu. Fe'i cysylltwyd yn arbennig â meddylwyr y De Newydd yn y 1980au a'r 1990au.

Mae syniadau o'r fath yn herio rhagdybiaeth y ffwythiannwyr fod y teulu modern yn cyflawni'i swyddogaethau'n effeithiol a bod ansawdd bywyd teuluol mewn llawer ystyr yn well nag y bu yn y gorffennol.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae gweinidogion llywodraeth, golygyddion papur newydd a grwpiau gwasgu fel y "Moral Majority" yn yr Unol Daleithiau wedi awgrymu fod yr uned deuluol wedi'i thanseilio gan newidiadau cymdeithasol sydd wedi bygwth normau traddodiadol priodas a bywyd teuluol. Ymhlith y newidiadau a gafodd y bai am hyn mae mwy o ben-rhyddid rhywiol a ddaeth a chyflwyniad y bilsen atalcenhedlu a chyfreithloni erthyliad a hyn yn arwain at gyd-fyw y tu allan i briodas ac at gynnydd yn y nifer o famau di-briod; mwy o oddefgarwch tuag at gyfun-rhywiaeth fel dewis arall yn lle priodi; cyfraddau ysgaru uwch, yn arwain at fwy o deuluoedd un rhiant; y gefnogaeth ariannol a ddarperir gan y wladwriaeth lês i deuluoedd un rhiant.

Cred Charles Murray, theoriwr adain dde Americanaidd fod yno is-ddosbarth yn datblygyu a thyfu mewn cymdeithasas gorllewinol cyfoes. Cred Murray fod genedigaethau tu allan i briodas yn ddangosydd o is-ddosbarth. Mae genediaethau o'r fath yn aml yn arwain at deuluoedd un-rhiant, gyda merched yn ben ar y mwyafrif ohonynt. Cred Murray pan fydd teuluoedd un-rhiant yn ffurf cyffredin ar deulu yna mi fyddant yn dod yn ' breeding ground' i is-ddosbarth dyfu. Cred Murray fod gwerthoedd diffygiol gan aelodau o'r is-

© CBAC / WJEC 2015

ddosbarth ac fe ddibynant ar fudd-daliadau fel ffynhonnell o incwm. Cysyllta Murray aelodau o'r is-ddosbarth â ffactorau eraill megis tangyflawni bechgyn, graddfa troseddu uchel (yn enwedig trosedd stryd) camddefnyddio cyffuriau a difaterwch rhywiol. Cred Murray mai'r unig ateb yw i'r wladwriaeth ymyrryd a chwtogi ar fudd-daliadau i orfodi pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywydau eu huanin. Gwelir ymgais debyg gan argymhellion diweddar David Cameron i orofi pobl i wneud gwaith cymunedol gwirfoddol fel ffordd o 'haeddu' eu budd-daliadau ac felly i atal diwylliant o ddibyniaeth lle mae pobl yn cael arian am 'wneud dim byd'. Argymhella Murray gosbi genedigaethau tu allan i briodas ac ail-gyflwyno gwerth mewn priodas ar y teulu niwclear.

Gellid hefyd dweud fod ffeministiaeth wedi cael dylanwad ac wedi arwain at sefyllfa lle mae mwy o ferched yn gweithio y tu allan i'r cartref yn hytrach nag ymroi i gadw tŷ a magu plant.

Mae'r Dde Newydd yn dadlau dros ddychwelyd at y "gwerthoedd teulu traddodiadol" fel modd i wella llawer o broblemau cymdeithas gyfoes- fel plant anystywallt, tan-gyflawni addysgol a thlodi plant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llywodraethau wedi bod yn bryderus am deuluoedd. Ac mae eu polisiau' wedi adlewyrchu'r pryder hwn. Yn aml mae'r polisiau hyn yn cael eu dylanwadu gan werthoedd. Mae'r Dde Newydd yn cefnogi'r teulu niwclear a chredant mai dyma'r math orau o deulu a ddylid ei annog. Nid yw'r gweddill cystal ac ni ddylid eu hannog. Dywed Saunders (2000) y dylai lywodraethau 'explicitly favour married parenthood over all other choices for raising children' a chyflwyno polisiau treth a budd-daliadau lles i gefnogi hyn. Dylid cryfhau'r cytundeb briodasol a dylai cyplau priod gael hawliau cyfreithiol arbennig.

### Cwestiynau

1. Sut mae theori'r Dde Newydd yn debyg i theori ffwythiannaeth?
2. Sut fyddai adfer gwerthoedd teuluol traddodiadol yn gwella problemau cymdeithasol?

### Allweddeiriau

- Theori'r Dde Newydd : barn gwleidyddol yn ymwneud a Margaret Thatcher a'r Llywodraeth Ceidwadol yn yr 80'au. Credant fod cystadleuaeth yn beth da i gymdeithas a fod pobl yn dlawd oherwydd budd daliadau.
- Ideolef teulu: sut y dylai teulu 'fod'.

## Beirniadaeth o'r Theori Dde Newydd

### Bwledi

- Mae'r dde newydd yn creu darlun 'delfydol' o fywyd teuluol traddodiadol.
- Maent yn cysylltu problemau cyndeithasol gyda strwythur teuluol ac yn anwybyddu ffactorau eraill.

© CBAC / WJEC 2015

### Testun

Yn ôl y Dde Newydd, mae budd-daliadau lles rhy hael wedi cefnogi'r cynnydd sydyn mewn teuluoedd un rhiant. Dylid lleihau'r budd-daliadau hyn fel bod yr opsiwn o fod yn deulu un rhiant ddim yn ddwis mor atyniadol. Fodd bynnag yn ôl Marcswyr gellir beio llawer o broblemau teuluoedd o'r fath ar fudd-daliadau annigonol gan y wladwriaeth, diffyg swyddi a chyfleusterau gofal plant a ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth rhieni sengl.

Ar ben hynny, y mae'r model o deulu sydd mor boblogaidd gan feddylwyr y Dde Newydd yn un sydd ond yn ffitio lleiafrif o gartrefi. Dim ond 5% o gartrefi erbyn hyn sy'n cynnwys tad yn gweithio, mam gartref a phlant dibynnol.

Mae beirniaid y Dde Newydd yn dadlau na ddylai llywodraethau geisio gorfodi un math o deulu ar bawb. Yn hytrach dylent gydnabod bod teuluoedd yn amrywio a bod tueddiad tuag at mwy o amrywiaeth. Dylai polisi llywodraeth felly gefnogi pob teulu (Bernardes 1997). Nid gwaith y llywodraeth yw gorfodi cyplau i aros gyda'i gilydd drwy wneud ysgariad yn fwy anodd. Ac ni ddylid cyfyngu ar hawliau y rhai sydd yn cyd-fyw, dim ond oherwydd nad ydynt yn briod.

Mae nifer o gymdeithasegwyr yn dadlau na ddylai llywodraethau fynegi barn ar ba ffurf deuluol yw'r gorau a seilio polisiau ar y farn honno. Dylent dderbyn y penderfyniadau mae pobl wedi gwneud am eu bywyd teuluol nhw a datblygu polisiau i gefnogi pob teulu.

### Cwestiynau

1. A ellir cyfiawnhau y beirniadaethau o syniadau'r dde newydd?

### Allweddeiriau

- Marcswyr - grŵp sy'n credu fod y drefn gymdeithasol yn bodoli er mwyn cynnal cymdeithas gyfalafol.
- Budd-daliadau - arian sy'n cael ei dderbyn oddiwrth y wladwriaeth i gynnal pobl sydd ddim yn gallu gynnal eu hunain.

# Sut mae pobl yn beirniadu'r teulu?

## Safbwyntiau Marcsaidd ar y Teulu

### Bwledi

- Edrychant ar y swyddogaethau a gyflawna'r teulu mewn cymdeithas gyfalafol.
- Mae'r teulu yn sefydliad a othryma merched.
- Mae'r teulu yn cyflawni gofynion cymdeithas gyfalafol.

### Testun

Mae gan safbwyntiau Marcsaidd rai pethau yn gyffredin â safbwyntiau ffwythiannol, yn yr ystyr eu bod yn chwilio am y swyddogaethau a gyflawnir gan y teulu er mwyn cynnal cymdeithasau cyfalafol. Y gwahaniaeth mawr yw bod Marcswyr yn gweld y broses hon fel

© CBAC / WJEC 2015

un hanfodol niweidiol ac ecsbloetiol, gan eu bod nhw'n feirniadol o gymdeithas gyfalafol.

Gwaith Engles (cyhoedwyd gyntaf yn 1884) yw'r man cychwyn. Mae ef yn dadlau fod y teulu a phriodas yn cynrychioli ymgeisiau cynnar y dynion i wneud yn siwr y bydden nhw'n sicr o drosglwyddo'u heiddo ymlaen i'w meibion eu hunain wrth reoli rhywioldeb benywod.

Fel llawer o ysgrifenwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys Marx, gwelai Engels gymdeithas (a honno'n ymgorffori priodas a'r teulu) fel rhywbeth oedd wedi esblygu drwy gyfres o gyfnodau, o gomiwnyddiaeth gyntefig, lle nad oedd fawr o reolaeth dros ymddygiad rhywiol, drwodd i gyfalafiaeth, lle mae priodas yn seiliedig ar un-wreiciaeth ("monogamy" - priodas rhwng un gw r ac un wraig). Gwelodd un-wreiciaeth fel y modd mwyaf effeithlon o sicrhau y trosglwyddid eiddo preifat drwy'r system o etifeddu.

Gyda dim ond un gŵr ac un wraig mewn teulu, nid oedd yn debygol y byddai cwestiynau'n codi ynghylch tadogaeth plant, neu ynghylch plant pa wraig ddylai etifeddu. Felly gallai dyn fod yn siwr fod ganddo blant cyfreithlon gyda hawl olyniaeth glir i etifeddu ei gyfoeth.

Gwelai Engels y teulu niwclear bourgeois fel sefydliad a orthrymai ferched. Gwelid merched yn bennaf fel cynhyrchwyr plant. Roedden nhw'n ddibynnol yn economaidd ar eu gwyr ac roedd disgwyl iddynt aros yn ffyddlon iddyn nhw. Eto, ar yr un pryd, bernid ei bod yn gyfreithlon i ddynion odinebu ("adultery") a defnyddio puteiniaid.

Er bod Engels yn feirniadol o'r teulu, nid oedd arno eisiau gweld ei ddiddymu. Yn wir, fe gondemniodd y ffordd yr oedd amodau cymdeithasol yn amddifadu pobl ddosbarth gweithiol o unrhyw wir fywyd teuluol.

Roedd Engels yn cymeradwyo monogami (un-wreiciaeth), ond ar sail cariad yn hytrach na chymhellion economaidd. Allai hyn ddim ond digwydd pe byddai merched yn annibynnol yn economaidd ar ddynion a bod ysgariad ar gael yn rhwydd.

Er fod gwaith Engles dros can mlwydd oed mae ei ddau bwynt hanfodol - sef bod y teulu'n gwasanaethu gofynion yr economi gyfalafol, a bod y teulu'n rhwystro merched rhag ennill cydraddoldeb yn y cartref a'r tu allan - yn dal i gael eu gweld fel pwyntiau canolog gan lawer o feirniaid y teulu modern.

Mae gwaith mwy diweddar Zaretsky (1976) yn edrych ar ddatblygiadau mwy diweddar yn y teulu a dadlea fod y teulu fel uned breifat yn medru amddiffyn ei aelodau yn erbyn caledwch bywyd i'r proletariaid.

Beirniadaeth o Farcsiaeth

Mae safbwyntiau Marcsaidd o'r teulu yn dilyn yn rhesymegol o theori Marcsaidd. Os, er enghraifft, yw'r teulu yn darparu cefnogaeth emosiynol i'r gweithwyr, yna mae hyn yn eu helpu i dderbyn anghyfiawnderau y system gyfalafol. Mae hyn yn gwneud synnwyr os edrychir ar gyfalafiaeth fel rhywbeth anghyfiawn. Serch hynny, mae nifer o gymdeithasegwyr yn gwrthod y syniad hwn o gyfalafiaeth gan ei fod yn galluogi teuluoedd i lwyddo ac o ganlyniad gwneud bywyd teuluol yn haws.

Mae cymdeithasegwyr yn gyffredinol yn cytuno fod gan y system economaidd ychydig o

ddylanwad ar y teulu. Serch hynny, fe fyddai'r rhan fwyaf yn anghytuno gyda'r safbwynt fod y teulu yn cael ei siapio gan anghenion y system honno.

### Cwestiynau

1. Beth yw cymdeithas gyfalafol ?
2. Ydy'r teulu'n gorthrymu merched ?

### Allweddeiriau

- Marcsiaeth : grŵp sy'n credu fod y drefn gymdeithasol yn bodoli er mwyn cynnal cymdeithas gyfalafol.
- Cymdeithas gyfalafol - cymdeithas sy'n blaenoriaethu gwneud elw a llwyddiant ariannol.
- Bourgeoisie - y grŵp sy'n rheoli mewn cymdeithas gyfalafol.
- Proletariaid - y gweithwyr / rhai sy'n cael eu ecsploitio mewn cymdeithas gyfalafol.

## Safbwyntiau Ffeministaidd

### Bwledi

- Mae ffeministiaid yn feirniadol o'r teulu.
- Edrychant ar faterion megis rhaniad llafur, camdrin plant a thrais domestig.
- Mae rhai ffeministiaid yn dweud fod angen cydnabod y gwelliannau diweddar i fywyd merched.

### Testun

Yn ystod y degawdau diwethaf mae'n debyg y cafodd ffeministiaeth fwy o ddylanwad ar astudio'r teulu nag unrhyw agwedd arall tuag at ddeall cymdeithas. Bu ffeministiaid yn feirniadol iawn o'r teulu. Ond yn wahanol i feirniaid eraill, maent wedi tueddu i bwysleisio effeithiau niweidiol bywyd teuluol ar ferched.

Mae ffeministiaid,yn astudio meysydd o fywyd teuluol fel gwaith tŷ a thrais yn y cartref o fewn cymdeithaseg. Mae nhw wedi herio rhai syniadau cyffredin am natur anochel dominyddiaeth y dyn mewn teuluoedd ac wedi cwestiynu'r farn fod bywyd teuluol yn mynd yn fwy cyfartal.

Mae ffeministiaid hefyd wedi tanlinellu'r cyfraniad economaidd a wneir i gymdeithas gan lafur domestig merched o fewn y teulu.
Yn fwy na dim, mae theori ffeministaidd wedi annog cymdeithasegwyr i weld y teulu fel sefydliad sy'n ymwneud â pherthynas a grym. Mae wedi herio y ddelwedd o fywyd teuluol fel rhywbeth seiliedig ar gydweithrediad, cyd-ddiddordebau a chariad, ac mae wedi ceisio dangos fod rhai aelodau o'r teulu, yn enwedig dynion, yn elwa mwy o deuluoedd nag eraill.

Mae rhai ffeministiaid rhyddfrydol yn feirniadol fodd bynnag o'r ffeministiaid radical hynny sy'n beirniadu teuluoedd. Credant bod angen cydnabod gwelliannau i fywyd teuluol merched yn ystod y degawdau diwethaf.

© CBAC / WJEC 2015

## Cwestiynau

1. Pam fod ffeministiaeth yn aml yn feirniadol o'r uned deuluol?

## Allweddeiriau

- Ffeministiaeth - y farn fod cymdeithas yn batriarchaidd ac yn cael ei reoli gan ddynion.
- Patriarchaeth - dominyddiaeth gan ddynion.
- Llafur domestig - gwaith sy cael ei wneud i gynnal y tŷ e.e. gwaith tŷ, gofal plant.
- Ffeministiaeth rhyddfrydol - y farn bod modd newid y gymdeithas yn raddol.
- Ffeministiaeth radical - barn eithafol sy'n feirniadol o ddynion.

## Safbwyntiau Ffeministiaid Marcsaidd

### Bwledi

- Mae ffeministiaid Marcsaidd yn trafod effaith cyfalafiaeth ar ferched mewn teuluoedd.
- Mae'r teulu'n batriarchaidd.
- Mae llafur domestig yn gwasanaethu anghenion yr economi gyfalafol.
- Mae gan y wraig rôl bwysig fel cefnogaeth emosiynol i leddfu rhwystredigaeth y gŵr sy'n deillio o gyfalafiaeth.
- Mae merched yn cyfalwni gwaith di-dal fel gofalwyr tŷ.
- Caiff plant eu cymdeithasoli i werthoedd y system gyfalafol.

### Testun

Bu sawl ysgrifennwr ffeministaidd yn feirniadol o Farcsiaeth draddodiadol - am fethu ystyried sut y caiff merched yn benodol eu gormesu mewn cymdeithasau cyfalafol - ac o ffeministiaeth radical sy'n gweld patriarchaeth (dominyddiaeth y dyn) fel y brif broblem ond sy'n methu cysylltu hyn â strwythur economaidd cymdeithas.

Mae ffeministiaid Marcsaidd felly yn ceisio cysylltu safle anghyfartal merched mewn cymdeithas â'r rolau a gymerant o fewn y gyfundrefn gyfalafol, a rhan bwysig o hyn yw lle'r ferch yn y teulu.

Dyma eu prif ddadleuon:

Mae'r teulu'n batriarchaidd. Yn wahanol i ffwythiannwyr sydd wedi tueddu i weld rolau'r gŵr a'r wraig yn y teulu fel rhai gwahanol ond cyfartal, dadleua ffeministiaid Marcsaidd fod dynion yn dominyddu perthynas deuluol. Myth yw'r syniad o "rolau priodasol cymesur/cyfartal" (rolau cytbwys a chyfartal mewn priodas).

Mae llafur domestig yn gwasanaethu anghenion yr economi gyfalafol. Mae ffeministiaid Marcsaidd fel Margaret Benston (1969) wedi dadansoddi llafur domestig (y gwaith di-dâl a wneir yn y cartref) mewn termau economaidd. Mae nhw'n dadlau fod rhan o'r gor-werth (elw) a grëir gan weithwyr yn deillio o lafur gwragedd tŷ, y mae eu gwaith yn ychwanegu at rym llafur y gweithwyr (eu gallu i weithio). Felly, wrth goginio, golchi ei ddillad a hyd yn oed gysgu gyda'i gŵr, y mae gwraig tŷ yn ei wneud yn weithiwr mwy cynhyrchiol. A thrwy

© CBAC / WJEC 2015

greu a magu plant - gweithwyr y dyfodol - heb ddim côst i gyflogwyr, mae gwragedd tŷ yn chwarae rhan hanfodol o ran atgynhyrchu grym llafur.

Mae'r ffaith fod y gŵr yn gorfod talu am gynhyrchu a chynnal llafur y dyfodol (h.y. y plant) yn gweithredu fel disgyblaeth lem ar ei ymddygiad yn y gwaith. Ni all atal ei lafur yn hawdd, gyda wraig a phlant i'w cynnal. Mae'r cyfrifoldebau'n gwanhau ei rym bargeinio ac yn ei rwymo i lafur cyflog.

Mae Fran Ansley'n traws-osod barn Parsons fod y teulu'n gweithio i sefydlogi personoliaethau oedolion, i'r fframwaith Marcsaidd. Mae hi'n gweld y gefnogaeth emosiynol a ddarperir gan y wraig fel falf diogelwch ar gyfer y rhwystredigaeth a gynhyrchir yn y gŵr wrth iddo weithio mewn system gyfalafol. Yn hytrach na chael ei droi yn erbyn y system a'i cynhyrchodd, caiff y rhwystredigaeth ei thawelu gan y wraig gysurlon. Fel hyn, does dim bygythiad i'r system.

Yng ngeiriau Ansley:
"When wives play their traditional rôle as takers of shit, they often absorb their husbands' legitimate anger and frustration at their own powerlessness and oppression. With every worker provided with a sponge to soak up his possibly revolutionary ire, the bosses rest more secure."

Gwneir pwynt tebyg gan Kathy McAfee a Myrna Wood yn eu trafodaeth ar ddominyddiaeth y gwryw yn y teulu. Maent yn honni:
"The petty dictatorship which most men exercise over their wives and families enables them to vent their anger and frustration in a way which poses no challenge to the system."

Mae gan y teulu rôl ideolegol. Mae atgenhedlu unigolion ar gyfer y gweithlu ('workforce') yn golygu mwy na dim ond cynhyrchu plant a'u cynnal mewn iechyd da. Mae hefyd yn golygu atgynhyrchu'r agweddau sy'n hanfodol i weithlu effeithlon dan gyfalafiaeth.

Mae David Cooper yn dadlau fod y teulu'n gweithredu fel y ddyfais gyflyru gyntaf, gan ddysgu plant i dderbyn cymdeithas awdurdodaidd ac ymelwol. O fewn y teulu, bydd plant yn dysgu cydymffurfio ac ildio i awdurdod. Felly mae'r sylfaen wedi'i gosod ar gyfer y gweithlu ufudd a goddefol y mae cyfalafiaeth ei angen.

Gwneir pwynt tebyg gan Diane Feely (1972) sy'n dadlau fod strwythur perthynas deuluol yn cymdeithasoli'r ifanc i dderbyn eu lle mewn cymdeithas sydd wedi'i haenu yn ôl dosbarth. Mae Feely yn honni bod y teulu yn annog gwyleidd-dra yn hytrach na gwrthryfela

Mae'r teulu'n rhwystr i gydraddoldeb rhwng y ddau ryw mewn gwaith. Mae sawl cymdeithasegydd wedi nodi'r anfanteision a ddioddefir gan ferched mewn cyflogaeth oherwydd eu cyfrifoldebau domestig a gofal plant. Ond mae ffeministiaid Marcsaidd yn dadlau fod yr anghydraddoldebau hyn wedi'u hadeiladu i mewn i'r system gyfalafol. Mae merched nid yn unig yn cyflawni rôl werthfawr ddi-dâl fel llafurwyr domestig, ond hefyd, yn ôl Irene Bruegel (1979), maen nhw'n darparu "byddin o weithwyr ychwanegol".

Mae nhw'n ffynhonnell gweithwyr rhâd y gellir eu tynnu i mewn i'r gweithlu cyflogedig pan fo'u hangen, er enghraifft i wneud swyddi rhan-amser a thros-dro, ond sy'n diflannu i mewn i'r teulu eto pan nad oes galw amdanynt mwyach.

© CBAC / WJEC 2015

# Caffael diwylliant

## Cwestiynau

1. Beth sy'n gwneud dadleon ffeministiaid Marcsaidd yn wahanol i Farcswyr traddodiadol ?
2. Sut mae cyfalafiaeth yn ecsploitio rôl y ferch ?

## Allweddeiriau

- Patriarchaeth - dominyddiaeth dynion.
- Rolau priodasol cymesur - cydbwysedd a chydraddoldeb rhwng rolau gwŷr a gwragedd priod.
- Llafur-cyflog - y gallu i weithio.
- Ideoleg - set o syniadau / credoau.
- Byddin o weithwyr ychwanegol - gweithwyr sy'n gallu cael eu cyflogi a'u di-swyddo yn ôl angen y cyflogwr.

## Safbwyntiau / Theoriau Ffeministaidd Radical

### Bwledi

- Mae'r teulu yn sefydliad patrarchaidd
- Merched sy'n ysgwyddo'r baich am lafur domestig a disgwylir iddynt ymgymryd a'r rôl israddol hon fel gwraig a mam.
- Mae trais domestig yn fygythiad real i lawer o ferched.

### Testun

Mae ffeministiaid radical yn feirniadol o'r teulu am lawer o'r un rhesymau â Ffeministiaid Marcsaidd. Ond mae nhw'n pwysleisio'r ffyrdd y mae'r teulu'n sefydliad patriarchaidd, h.y. yn sefydliad sy'n galluogi i ddynion ddominyddu, ecsbloetio a gormesu merched. Mae'r teulu, felly, nid yn gymaint yn sefydliad sydd er budd grw p cymharol fach - y dosbarth cyfalafol - ond dynion yn gyffredinol.

Yn ôl Delphy a Leonard (1992) mae meched yn wedi'u gormesu yn y teulu. Mewn ffordd gwelant merched yn gwastraffu eu bywydau yn chwarae rôl israddol yn y cartref. Cydnabu Delphy a Leonard fod mwyafrif o ddynion yn gwneud gwaith tŷ ond eto fod tystiolaeth yn dangos nad yw faint o amser a dreulia ferched ar waith ty wedi disgyn yn ystod y ganrif hon.

Mae ysgrifenwyr fel Kate Millett (1970) yn
dadlau fod y ffordd y mae cymdeithas wedi'i threfnu yn galluogi i ddynion ddominyddu merched. Yn ei ffurf fwyaf eithafol mae hyn yn golygu trais. Mae astudiaethau o drais yn y teulu, er enghraifft 'Violence against Wives' gan Russell a Rebecca Dobash (1980), yn dangos fod hyn yn fygythiad go iawn i lawer o ferched a phlant.

Fel Delphy a Leonard mae Purdy (1997) yn dadlau fod merched yn cael eu hecsploitio yn y teulu. Dadlea fod yr anfanteision hyn yn deillio'n bennaf o'u cyfrifoldebau gofal plant. Creda fod cryn bwyslais ar i ferched fod yn famau ac i fwynhau'r rôl hyn. Cred fod cymdeithas yn cymryd yn ganiataol y bydd merched yn cael plant. Galwa ar i ferched wrthod cael plant yn yr hyn mae'n ei awl yn 'babystrike' yna mi fydd cymdeithas gyfalafol

© CBAC / WJEC 2015

yn gwrando ar gwynion merched.

Mae Greer (2000) yn cytuno drwy ddadlau fod yno ideoleg cryf sy'n awgrymu mai bod yn 'wraig' yw'r rôl mwyaf pwysig i ferch. Cred Greer fod graddfa ysgariad uchel Prydain yn awgrymu'n gryf nad yw merched yn mwynhau priodas, mae tua 75% o ddeisebau ysgariad yn cael eu cyflwyno gan wragedd.

Yn wahanol i ffeministiaid Marcsaidd, nid yw ffeministiaid radical yn gweld mai cymdeithas sosialaidd yw'r ateb, ond dadleuant fod yn rhaid i ferched adeiladu cymdeithas amgen yn annibynnol a fydd yn herio patriarchaeth a'r polareiddio ar rolau rhyw. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf serch hynny, y mae llawer o ffeministiaid wedi canolbwyntio nid ar osod rhywbeth yn lle'r teulu, ond ar ei wella (ffeminstiaid rhyddfrydol). Dadleuant dros fwy, yn hytrach na llai, o ran i ddynion ym mywyd y teulu, gan ddadlau y byddai'n tynnu llawer o'r straen oddi ar ferched. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau mewn meysydd eraill fel cyflogaeth - er enghraifft, wythnosau gwaith byrrach, mwy o gyfleoedd rhannu swydd, cyfnodau tadolaeth hirach a gwell hawliau mamolaeth.

### Cwestiynau

1. Sut mae ffeministiaeth radical yn wahanol i ffeministiaeth Marcsaidd?
2. I ba raddau mae 'babystrike' yn digwydd?

### Allweddeiriau

- Patraichaeth : dominyddiaeth dynion
- Trais domestig : trais / camdrin sy'n digwydd yn y cartref.
- 'Babystrike' : merched yn gwrthod cael plant tan i'r llywodraeth gydnabod pwysigrwydd y rôl.

## Beirniadaeth o Ffeministiaeth

### Bwledi

- Caiff ffeministiaid eu beirniadu am or-ganolbwyntio ar agweddau negyddol bywyd teuluol.
- Maent yn dueddol o anwybyddu teuluoedd llwyddiannus.

### Testun

Mae beirniaid yn dadlau bod ffeministiaid yn rhoi gormod o sylw i ochr negyddol bywyd teuluol. Maent yn anwybyddu'r posiblrwydd fod nifer o ferched yn mwynhau gofalu am y cartref a magu plant.

Mae yna dystiolaeth o dueddiad tuag at mwy o gyfartaledd rhwng partneriaid. Yn hytrach na dathlu'r patrwm hwn, dywed y beirniaid bod y ffeministaiad yn parhau i ganolbwyntio ar yr anghydraddoldebau sy'n parhau.

Mae'r Marcsiaid a'r ffeministiaid yn gweld y teulu yn perfformio swyddogaethau sydd wedi

© CBAC / WJEC 2015

eu penderfynu yn barod. Maent hefyd yn tueddu i weld ffurf benodol o deulu sy'n angenrheidiol gan y system gymdeithasol. Maent yn tueddu i anwybyddu'r amrywiaeth o ffurfiau teuluol. Maent yn gweld natur deuluol fel rhywbeth sydd wedi ei benderfynu gan ofynion y system economaidd a phatriarchaidd yn hytrach na mewn cytundeb rhwng gŵr a gwraig sy'n gweddu angenion a dyheuadau'r ddau.

Maent yn tueddu i ganolbwyntio ar yr agweddau negyddol o fywyd teuluol ac anwybyddu'r pleser mae'n rhoi i nifer o unigolion. Mae llawer o ferched yn dewis aros adref i fagu'u plant gan fod y rôl yn dod a chryn foddhad iddynt fel merched.

Mae ffeministiaid Du fel Helen Carby wedi beirniadu ffeministiaid gwyn am beidio ystyried pwysigrwydd hiliaeth yn ogystal â phatriarchaeth fel ffurf o awdurdod ddominyddol. Maent yn cytuno fod teulu yn gallu bod yn bwysig iawn fel dihangfa oddi wrth hiliaeth o fewn byd gwaith a'r gymdeithas. Mae'r teulu yn ffynhonnell o gefnogaeth oddi wrth hilaeth.

### Cwestiynau

1. I ba raddau gellir cytuno gyda'r beirniadaethau uchod?

### Allweddeiriau

- Hiliaeth - gwahaniaethau ar sail hîl / ethnigrwydd.

# Beth yw dyfodol y teulu?

## Cyflwyniad

### Bwledi

- Mae cyfle a dewis yn nodweddu bywyd teuluol heddiw.
- Mae pobl yn dewis hunaniaeth gender (ymysg mathau eraill o hunaniaeth).
- Rhywioldeb plastig yw ymddygiad rhywiol nad oes a wnelo ag atgenhedlu, a wneir er mwyn pleser.
- Cyd-drafod perthynas, sef cariad cydlifol.

### Testun

Anthony Giddens yw un o'r damcaniaethwyr cymdeithasegol modern mwyaf adnabyddus ym Mhrydain. Mae'n honni ein bod yn byw mewn oes y mae o'n ei ddisgrifio yn foderniaeth hwyr. Caiff ei nodweddu gan newidiadau a dewis. Nid yw traddodiad yn clymu pobl cymaint felly mae ganddynt fwy o gyfleoedd mewn bywyd a chyfleoedd i ddewis eu hunaniaeth eu hunain.

Cyn hyn, roedd traddodiad yn diffinio pwy oedd pobl a beth y dylent wneud. Heddiw, mae llai o reolau cymdeithasol ac mae pobl yn unigryw. Maent yn ymboeni mwy am eu hunain na'u cymunedau. O safbwynt y teulu, golyga hyn fod gan bobl fwy o ryddid i ddewis ffurfiau teuluol sy'n addas iddynt hwy. Felly mae teuluoedd yn amrywio fwy.

Mae Giddens yn gweld rhywbeth positif iawn yn y newidiadau a ddisgrifir gan ôl-

© CBAC / WJEC 2015

fodernwyr. Er enghraifft, mae'n dadlau bod bywyd personol yn fwy democrataidd gan nad yw rhywioldeb bellach yn cael ei gysylltu ag atgenhedlu (drwy ddulliau atal cenhedlu effeithiol i ferched). Mae'n ategu bod rhywioldeb o'r un gender bellach yn cael ei dderbyn. Mae'n galw'r newid agwedd hwn yn 'rhywioldeb plastig' ['plastic sexuality'].

Mae gan bobl ryddid i gael cariad cydlifol, ble maent yn creu perthynas sy'n rhan o'u hunaniaeth fel unigolion. Caiff y naill a'r llall foddhad wrth iddynt gyd-drafod natur eu perthynas. Daw hyn yn rhan o'r broses o greu cydraddoldeb rhwng y ddau gender. Mae Giddens yn beirniadu diwylliannau sy'n gorfodi moesoldeb traddodiadol ar ddynion a merched. Mae'n ystyried bod traddodiadau yn rhwystro boddhad personol. Mae'n honni bod cymdeithasau a theuluoedd traddodiadol yn gweithredu i orthrymu merched yn arbennig.

### Cwestiynau

1. Beth yw nodweddion cymdeithas fodern hwyr?
2. Pam gelwid cyfnod y chwyldro diwydiannol ac ymlaen yn gyfnod moderniaeth?
3. Beth yw 'rhywioldeb plastig'?
4. I ba raddau y gellir profi neu wrthbrofi syniadau Giddens?

### Allweddeiriau

- Moderniaeth : term sy'n disgrifio'r byd modern sy'n cael ei nodweddu gan ddiwydiannaeth a threfoli.
- ôl-fodern - yn ôl rhai cymdeithasegwyr, rydym yn byw mewn cymdeithas ôl-fodern. Cymdeithas sy'n cael ei dylanwadu gan y cyfryngau, delweddau, cyfle a dewis.
- Hunaniaeth : ymdeimlad o bwy ydych chi
- Chwyldro Diwydiannol: cyfnod a ddechreuodd yn hwyr yn y 18fed ganrif wnaeth drawsffurfio Prydain, ac yn hwyrach cymdeithasau eraill o economïau wedi seilio ar amaethyddiaeth i gynhyrchu.
- Cariad cydlifol - perthynas sy'n dibynnu ar y ddau bartner yn cael cyflawniad a boddhad o'r berthynas.

## ôl-foderniaeth

### Bwledi

- Mae'r theori ôl-foderniaeth yn gweld diwedd ar batrymau traddodiadol teuluol.
- Mae'r newidiadau diweddaraf yn golygu fod patrymau teulu cyfoes yn fwy hyfyw.

### Testun

Cred rhai cymdeithasegwyr, fodd bynnag, fod rhai newidiadau sylfaenol pwysig wedi digwydd mewn cymdeithasau gorllewinol, ac o ganlyniad ein bod wedi symud at gyfnod y dylid bellach ei alw yn ôl-foderniaeth.

Mae theorïau ôl-foderniaeth wedi dod yn fwyfwy dylanwadol mewn cymdeithaseg, ac maent yn cynnig her i'r dadleuon traddodiadol.

Maent yn anghytuno â'r theorïau traddodiadol sydd wedi egluro ymddygiad dynol yn ôl dylanwad cymdeithasoli neu gefndir person. Dadleuant nad yw ffactorau megis gender, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol mor ddylanwadol ar ymddygiad a phatrymau

© CBAC / WJEC 2015

bywyd pobl, h.y. ceir mwy o ryddid wrth lunio hunaniaeth gymdeithasol.

Mae'r cymdeithasegwr Americanaidd Judith Stacey, yn gweld amrywiaeth deuluol fel adlewyrchiad o gymdeithas ôl-fodern. Nid oes un ffurf deuluol benodol. Mae llai a llai o bobl yn byw mewn teuluoedd niwclear traddodiadol ac yn mwynhau'r rhyddid o fedru dewis patrwm teuluol sy'n gweddu i'w hanghenion personol nhw, yn hytrach na theimlo pwysau i gydymffurfio â disgwyliadau cymdeithasol y teulu niwclear traddodiadol.

Nodweddir hyn gan y patrymau teuluol amrywiol sy'n bodoli bellach e.e. teuluoedd cyplau hoyw a lebsiaidd, teuluoedd un rhiant, cyplau sy'n cyd-fyw ayyb. Nid oes gweithredoedd a normau penodol. Mae Stacey yn croesawu'r amrywiaeth hyn, ac yn ei gweld fel cyfle i bobl ddatblygu ffurfiau teuluoedd eu hunain sydd yn addas iddynt.

Dadleua Stacey fod y newidiadau hyn yn golygu nad yw'n bosib bellach i weld y teulu fel uned sy'n esblygu drwy gyfres o gamau ochr yn ochr â newidiadau economaidd fel y gwelwyd yn ystod y chwyldro diwydiannol.

Mae'r teulu ôl-fodern yn fwy hyfyw, ni ellir darogan a fydd yno un ffurf ddominyddol o 'deulu' yn bodoli eto. Yn ogystal â hyn, nid yw Stacey yn credu byddwn byth yn mynd nôl i ddominyddiaeth un patrwm teuluol (e.e. teulu niwclear).

Ymddengys fod y gymdeithas yn derbyn y newidiadau hyn ac yn eu gweld fel awyrgylch a all fod yn sefydlog ac effeithiol i gymdeithasoli plant, a gwelir hyn ym mholisïau'r llywodraeth a newidiadau cyfreithiol e.e. caniatáu i gwpl hoyw fabwysiadu plant, partneriaethau sifil ayyb. Fodd bynnag, mae yno wrthwynebiad, yn enwedig gan Yr Adain Dde, i'r newidiadau hyn i batrymau teuluol ac yn aml fe ddefnyddir y 'dirywiad' yn yr uned deuluol fel dadl dros ddirywiad cymdeithasol. Fe hoffai rhai gwleidyddion weld y teulu niwclear traddodiadol yn cael ei adfer gyda chefnogaeth y wladwriaeth i gadw'r uned deuluol hon fel y ddelfryd.

## Cwestiynau

1. Beth yw nodweddion cymdeithas ôl-fodern?
2. Pam fod damcaniaethwyr ôl-fodern yn cwestiynu dilysrwydd y theorïau traddodiadol ar y teulu?
3. Beth yw dyfodol y teulu niwclear yn ôl yr ôl-fodernwyr?

## Allweddeiriau

- ôl-foderniaeth - nodweddion economaidd a chymdeithasol y byd modern - cyfle a dewis.
- Yr Adain Dde - gwleidyddion yn aml. Maent yn credu mai'r teulu niwclear yw'r math delfrydol o deulu.

© CBAC / WJEC 2015